

# Dogfen ir Cyhoedd



**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.  
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGEFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

<b>RHYBUDD O GYFARFOD</b>	<b>NOTICE OF MEETING</b>
<b>PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION</b>	<b>PLANNING AND ORDERS COMMITTEE</b>
<b>DYDD MERCHER, 7 IONAWR 2015 am 1.00 o'r gloch</b>	<b>WEDNESDAY, 7 JANUARY, 2015 at 1.00 p.m.</b>
<b>SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI</b>	<b>COUNCIL CHAMBER, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI</b>
<b>Swyddog Pwyllgor</b>	<b>Mrs. Mairwen Hughes (01248) 752516 Committee Officer</b>

## **AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:

**Lewis Davies**  
**Ann Griffith (Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**  
**John Griffith**  
**K P Hughes**  
**W T Hughes (Cadeirydd/Chair)**  
**Vaughan Hughes**  
**Victor Hughes**  
**Richard Owain Jones**  
**Raymond Jones**  
**Jeffrey M.Evans**  
**Nicola Roberts**

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

## **R h a g l e n**

Atgoffir aelodau y bydd papurau cefndirol y cyfeirir atynt yn yr adroddiadau i'r pwyllgor ar gael i'w harchwilio ar mewn fformat electronig ar ddiwrnod y cyfarfod o 12.30 p.m. ymlaen yn Siambr y Cyngor neu gellir eu harchwilio yn yr Adain Rheoli Datblygu yn ystod oriau agor arferol. Hefyd gellir gweld dogfennau y cyfeirir atynt yn yr adroddiadau ar ffeiliau'r electronig y ceisiadau.

Adroddir ar lafar i'r Pwyllgor unrhyw wybodaeth ychwanegol a ddaw i law yn dilyn cyhoeddi adroddiadau.

Efallai y gwneir man newidiadau i rybudd o benderfyniad mewn achosion o gamgymeriadau argraffu adroddiadau i'r Pwyllgor cyn rhyddhau rybudd o benderfyniad i ganiatau neu i wrthod cais.

### **Mynegai**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

#### **3 COFNODION\_(Tudalennau 1 - 10)**

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr, 2014.

#### **4 YMWELIAD SAFLEOEDD**

Adrodd y cynhaliwyd ymweddiadau safle ar 17 Rhagfyr, 2014 mewn perthynas â'r ceisiadau canlynol :-

- 16C48H – Cais llawn i gadw slab concriid ynghyd a chodi sied amaethyddol i'w defnyddio fel storfa ac i gadw anifeiliaid ar dir yn Ger y Bryn, Bryngwran.
- 38C301A/EIA/RE – Cais llawn i godi dau dwrbin wynt 4.6MW gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 59m, diamedr rotor hyd at 71m, a uchder blaen unionsyth fertigol hyd at uchafswm o 92.5m ynghyd ag is-orsaf ac adeilad rheoli, llefydd caled cystylltiedig, tract mynediad newydd yn cysylltu i'r tyrbinau arfaethedig o'r tyrbinau presennol, iard adeiladu dros dro a lle troi ac isadeiledd arall sy'n berthnasol ar dir ger Ysgellog, Rhosgoch.

#### **5 SIARAD CYHOEDDUS**

#### **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO\_(Tudalennau 11 - 14)**

6.1 33C304B/ECON – Cyffordd 7 o'r A55 ger Cefn Du, Gaerwen

6.2 34C553A – Ty'n Coed, Llangefni

#### **7 CEISIADAU YN CODI\_(Tudalennau 15 - 62)**

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllodiad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod**

- 7.1 21C40A – Penrhyn Gwyn, Llanddaniel
- 7.2 38C201A/EIA/RE – Ysgellog, Rhosgoch
- 7.3 41C125B/EIA/RE – Bryn Eryr Uchaf, Porthaethwy

## **8 CEISIADAU ECONOMAIDD**

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

## **9 CEISIADAU AM DY FFORDDIADWY**

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

## **10 CEISIADAU'N GWYRO**

Dim i'w hystyried gan y cyfarfod hwn.

## **11 CYNIGION DATBLYGU GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION\_(Tudalennau 63 - 70)**

- 11.1 31C134H/DEL – Cae Cyd, Llanfairpwll
- 11.2 31C422 – Ceris, Llanfairpwll

## **12 GWEDDILL Y CEISIADAU\_(Tudalennau 71 - 76)**

- 12.1 24C59H/RE – Pen y Gogarth, Llaneilian

## **13 MATERION ERAILL\_(Tudalennau 77 - 78)**

- 13.1 12LPA1003B/CC/MIN – Pont Townsend, Penrhyn Safnas, Biwmares

This page is intentionally left blank

## PWYLLGOR CYNLLUNIO A GORCHMYNION

### Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr, 2014

- PRESENNOL:** Y Cynghorydd W.T. Hughes (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Ann Griffith (Is-Gadeirydd)
- Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith , Ken Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Richard Owain Jones, Nicola Roberts
- WRTH LAW:** Rheolwr Rheoli Datblygu (DFJ)  
Cynorthwywyr Cynllunio  
Rheolwr Gwasanaethau Pwyllgor (RJ)  
Swyddog Pwyllgor (ATH)
- YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Jeff Evans, Raymond Jones.
- HEFYD YN BRESENNOL:** Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes (cais 12.4), Aled Morris Jones (cais 7.4 ), H. Eifion Jones (cais 7.2), Ieuan Williams (cais 12.5)

---

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Nodwyd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.

#### 2 DATGANIAD O DDIDDRDEB

Gwnaed datganiadau o ddiddordeb fel a ganlyn:

Y Cynghorydd W.T. Hughes mewn perthynas ag eitem 6.2  
Y Cynghorydd Victor Hughes mewn perthynas ag eitem 7.5  
Y Cynghorwyr Lewis Davies, Ann Griffith, John Griffith, Vaughan Hughes a Nicola Roberts mewn perthynas â cheisiadau 6.2 a 6.3 oherwydd y cyfeiriad at dyrbinau gwynt ym maniffesto Plaid Cymru. Dywedodd yr Aelodau y byddent yn cadw meddwl agored ac yn penderfynu ar bob cais yn ôl ei rinweddau ei hun.

#### 3 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir, gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2014.

#### 4 YMWELIAD SAFLE

Nodwyd bod ymweliadau safle wedi eu cynnal ar 19 Tachwedd, 2015 mewn perthynas â'r ceisiadau canlynol:

- 40C233B/VAR – Cais i ddiwygio amod (01) (Trac a ganiateir ar gyfer defnydd amaethyddol) ar ganiatâd cynllunio 40C233 i ganiatáu cadw'r trac ar gyfer ddefnydd amaethyddol a symudiad cerbydau ar gyfer gofynion gweithredol Parc Carafanau Tyddyn Isaf yn unig yn The Owls, Dulas.
- 46C129B/FR – Cais llawn ar gyfer gosod arfwisg graig o flaen y wal strythur caergawell presennol yn Dinghy Park, Porth Castell, Ravenspoint Road, Trearddur.

#### 5 SIARAD CYHOEDDUS

Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai Siaradwr Cyhoeddus mewn perthynas â cheisiadau 7.2 a 12.5.

## 6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EU GOHIRIO

**6.1 34C553A – Cais amlinellol ar gyfer datblygiad trigriannol yn cynnwys cyfleuster gofal ychwanegol, priffordd a rhwydwaith cysylltiol yn Ty'n Coed, Llangefni**

**Penderfynwyd gohirio ystyried y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog am y rheswm a roddwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**6.2 Cais llawn i godi dau dyrbin gwynt 4.6MW gydag uchder hwb hyd at uchafswm o 59m, rotor hyd at 71m ar ei draws, a hyd at 92.5m i flaen fertigol y llafn ynghyd ag is-orsaf ac adeilad rheoli, llefydd caled cysylltiedig, trac mynediad newydd yn cysylltu i'r tyrbinau arfaethedig o'r tyrbinau presennol, iard adeiladu dros dro a lle troi ac isadeiledd arall sy'n berthnasol ar dir ger Ysgellog, Rhosgoch**

*Wedi datgan diddordeb yn y cais hwn, aeth y Cynghorydd WT Hughes allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno. Cymerodd y Cynghorydd Ann Griffith, Is-gadeirydd, y Gadair ar gyfer yr eitem.*

**Penderfynwyd ymweld â'r safle yn unol ag argymhelliad y Swyddog er mwyn cael gwerthfawrogiad o raddfa a chyd-destun y cynnig.**

**6.3 41C125B/EIA/RE - Cais llawn ar gyfer codi tri thyrbinau gwynt 800kW - 900kW gydag uchder hwb hyd at uchafswm o 55m, diamedr hyd at 52m ar ei draws a hyd at 81m i flaen fertigol y llafn, gwelliannau i'r fynedfa bresennol i lôn yr A5025, ynghyd â chodi 3 chabinet storio offer ar dir yn Bryn Eryr Uchaf, Porthaethwy**

**Penderfynwyd gohirio ystyried y cais am y rheswm a roddwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

## 7 CEISIADAU'N CODI

**7.1 15C91D - Cais llawn i ddymchwel yr ystafell ardd bresennol ynghyd â chodi adeilad pwll nofio yn ei le yn Tŷ Canol, Malltraeth**

Roedd y cais hwn wedi cael ei alw i mewn gan Aelod Lleol er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion benderfynu arno. Yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd, penderfynodd y Pwyllgor ohirio gwneud penderfyniad er mwyn cael prawf mandylledd mewn perthynas â'r draeniad ac i dderbyn sylwadau gan y Swyddog AHNE.

Cadarnhaodd y Rheolwr Rheoli Datblygu nad oedd y Swyddog AHNE wedi codi unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig. Mae'r amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd cynllunio yn rhoddi sylw i'r problemau draenio. Roedd yr argymhelliad yn un i gymeradwyo'r cais gyda'r amodau a restrwyd ac ar yr amod y derbynnir manylion cyn i'r caniatâd gael ei ryddhau. Oni ddaw'r manylion hynny i law neu os byddant yn annerbyniol i'r Pwyllgor Cynllunio, yna bydd y cais yn cael ei ailgyflwyno i'r Pwyllgor.

Cynigiodd y Cynghorydd Vaughan Hughes bod y cais yn cael ei gymeradwyo. Eiliodd ei gynnis gan y Cynghorydd Richard Owain Jones.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig ac fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor.**

**7.2 21C40A – Cais llawn i godi sied amaethyddol ar gyfer cadw anifeiliaid a phwll cribol ar dir yn Penrhyn Gwyn, Llanddaniel**

Mae'r cais wedi cael ei alw i mewn gan Aelod Lleol er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion benderfynu arno. Yn ei gyfarfod ar 3 Medi 2014, penderfynodd y Pwyllgor ymweld â'r safle a chynhaliwyd yr ymweliad ar 17 Medi. Yn ei gyfarfod ar 1 Hydref, penderfynodd y Pwyllgor ohirio gwneud penderfyniad ar y cais yn dilyn derbyn ymateb yr Adran Iechyd yr Amgylchedd i'r ymgynghori a gwrthwynebiadau ychwanegol. Anfonwyd y rheini ymlaen i'r ymgeisydd er mwyn iddynt gael sylw cyn gwneud penderfyniad. Yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd, penderfynodd y Pwyllgor eto i ohirio gwneud penderfyniad ar y cais er mwyn rhoddi i'r ymgeisydd y cyfle i wneud sylwadau.

Anerchodd Mr. Rhys Davies y Pwyllgor yn gwrthwynebu'r cais ar sail pryderon difrifol yn lleol ynglŷn â'r cynnig. Dywedodd bod y Swyddog yn ei adroddiad yn argymhell caniatáu yn amodol ar

gynllun sgrinio a rheoli arogleuon ond ystyrir y bydd y camau lliniaru hynny yn rhy hwyr unwaith y bydd y cynnig wedi ei weithredu oherwydd ei fod mod agos at yr annedd agosaf sef Penrhyn Gwyn. Dylid bod wedi cynnal asesiad sŵn ac effaith ar arogleuon cyn gwneud penderfyniad ar y cais sef canllawiau y mae awdurdodau eraill yng Nghymru yn eu dilyn pan fydd unrhyw gynnig i ddatblygu o fewn 200m i'r eiddo agosaf. Yn yr achos hwn, bydd wedi ei leoli o fewn 100m o Penrhyn Gwyn. Dywed canllawiau cynllunio y gellir codi adeiladau i gadw anifeiliaid neu byllau cribol heb ganiatâd cynllunio os ydynt wedi eu lleoli ymhellach na 400m o'r annedd agosaf gan ei gwneud yn glir felly mai 400m yw'r meincnod ar gyfer cynigion megis hwn. Dywed y Swyddog lechyd yr Amgylchedd y dylid bod wedi rhoddi rhesymau ar gyfer diystyru lleoliadau eraill gan nodi fod pellter yn ffactor lliniaru pwysig gan ddweud bod cwynion yn lle tebygol o godi os yw'r cynnig mor bell ag y gall fod o'r eiddo agosaf. Mae diffyg canllawiau cenedlaethol yn rhoi'r swyddogion mewn sefyllfa anodd ond er gwaethaf hynny, mae ymateb Adain lechyd yr Amgylchedd yn ei gwneud yn glir y gellir cael problemau yn y dyfodol heb fedru cymryd unrhyw gamau i unioni hynny. Mewn achos tebyg lle caniatayd cynnig a oedd tua'r un pellter i eiddo cyfagos, cafodd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Awdurdod yn euog o gamweinyddu ac yn yr achos hwnnw, mae'r problemau yn parhau i'r ymgeisydd, trigolion lleol a'r awdurdod fel ei gilydd. Nid yw deiliaid Penrhyn Gwyn yn gwrthwynebu egwyddor y datblygiad ar ran arall o'r tir ac maent wedi trafod y posibilrwydd hwnnw gyda'r ymgeisydd. Roeddent hwy ar ddeall y byddai'r cais yn cael ei ddiwygio ond mae'r cais hwnnw bellach wedi cael ei dynnu'n ôl. Gofynnod i'r Pwyllgor wrthod y cais.

Nid oedd gan Aelodau'r Pwyllgor unrhyw gwestiynau i Mr. Davies.

Roedd y Cynghorydd Eifion Jones sef yr Aelod Lleol o run farn a Mr. Rhys Davies ac yn wyneb y dystiolaeth a roddwyd, dywedodd y byddai'n annoeth i ganiatáu'r cais.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu mai'r materion allweddol yw effaith y cynnig ar y dirwedd a mwynderau trigiannol. Mae'r Swyddog yn fodlon y bydd y cynllun, fel y cafodd ei ddiwygio, o gymorth i liniaru sŵn ac effeithiau gweledol gan wneud y cynnig yn un derbyniol. Oherwydd nad oes canllawiau cenedlaethol, rhaid taro cydbwysedd rhwng anghenion yr uned ffermio a mwynderau trigiannol sy'n golygu bod gwneud penderfyniad y naill ffordd neu'r llall yn anodd. Cadarnhaodd y cafwyd trafodaethau ynghylch ail-leoli ond na chafwyd unrhyw gynnig i'r perwyll hwnnw.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch lleoliad y cynnig o gymharu â'r eiddo agosaf a dangoswyd hynny ar y cynllun o'r safle. Dywedodd y Cynghorydd Vaughan Hughes, oherwydd nad oedd unrhyw ganllawiau cenedlaethol ac oherwydd y dystiolaeth o ymyrraeth yr Ombwdsmon a'r posibilrwydd y ceir effeithiau andwyol, byddai caniatáu'r cais yn ei farn ef yn risg. Cynigiodd y dylid gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddog. Eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd Ann Griffith.

Dygodd y Cynghorydd Ken Hughes sylw at y ffaith bod y cynllun ar dir amaethyddol a bod y cais yn rhan annatod o fyw yn y cefn gwlad. Rhaid i'r adeiladau fod yn agos at lôn i bwrpas mynediad. Cynigiodd y dylid cymeradwyo'r cais ac fe eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd Richard Owain Jones.

Pleidleisiodd y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Vaughan Hughes, Nicola Roberts ac Ann Griffith i wrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddog oherwydd bod y cynnig mor agos at yr annedd agosaf a'r potensial o ran sŵn ac arogleuon. Pleidleisiodd y Cynghorwyr Ken Hughes, Victor Hughes, Richard Owain Jones ac W. T. Hughes i ganiatáu'r cais.

**Penderfynwyd gwrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddog oherwydd ei agosrwydd at yr annedd agosaf a'r potensial ar gyfer sŵn ac effaith arogl.**

**Yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor, bydd y cais yn cael ei ohirio'n awtomatig i'r cyfarfod nesaf i ganiatáu i'r swyddogion ymateb i'r rhesymau a roddwyd dros wrthod y cais.**

**7.3 40C233B/VAR - Cais i ddiwygio amod (01) (Trac a ganiateir ar gyfer defnydd amaethyddol) ar ganiatâd cynllunio 40C233 i ganiatáu cadw'r trac ar gyfer ddefnydd amaethyddol a symudiad cerbydau ar gyfer gofynion gweithredol Parc Carafanau Tyddyn Isaf yn unig yn The Owls, Dulas.**

Mae'r cais wedi cael ei alw i mewn gan Aelod Lleol er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion benderfynu arno. Yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd 2014, penderfynodd y Pwyllgor ymweld â'r safle a chynhaliwyd yr ymweliad hwnnw ar 19 Tachwedd.

Dyweddodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio fod y materion allweddol yn ymwneud â derbynoldeb y cynnig o ran ei effaith ar fwynderau deiliaid eiddo cyfagos, yr effaith weledol ar yr ardal a'r AHNE ddynodedig ac ar ddiogelwch ar y ffyrdd. Ym marn y Swyddog, ni fyddai'r cynnig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau trigolion lleol i'r graddau y byddai hynny'n cyfiawnhau ei wrthod oherwydd mae'r trac eisoes yn caniatáu defnydd heb gyfyngiad neu amod i unrhyw gerbyd amaethyddol a byddai'r defnydd ychwanegol y bwriedir ei wneud i ddibenion gweithredol y Maes Carafanau yn digwydd o bryd i'w gilydd yn unig. Oherwydd mai defnydd ysbeidiol ac anaml fyddai'n cael ei wneud o'r trac, nid ystyrir y byddai'r cynnydd o ran defnydd yn cael effaith andwyol ar yr AHNE neu ar gymeriad yr ardal i'r graddau y dylid gwrthod y cais. Mae'r Adran Briffyrdd wedi cadarnhau fod y cynnig yn dderbyniol o safbwynt diogelwch ar y ffyrdd. O'r herwydd, mae'r argymhelliad yn un o ganiatáu.

Roedd y Cynghorydd Victor Hughes yn bryderus fod y trac presennol gyda'r troadau cas yn ei gwneud yn anodd i gerbydau basio ac y byddai hynny'n arbennig o wir am garafanau yn enwedig oherwydd y byddai'n rhaid iddynt fynd heibio eiddo cyfagos. Cododd fater cydymffurfiaeth gan awgrymu y byddai'n anodd sicrhau a monitro cydymffurfiaeth gyda'r amodau mewn perthynas â'r defnydd o'r trac.

Dyweddodd y Cynghorydd Richard Owain Jones ei fod, ar ôl ymweld â'r eiddo yn fodlon cynnig caniatáu'r cais ac fe eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd Kenneth Hughes.

Cynigiodd y Cynghorydd Victor Hughes welliant y dylid cyfyngu'r defnydd o'r trac i ofynion gweithredol Maes Carafanau Tyddyn Isaf ac i 4 awr y diwrnod (naill ai'r bore neu'r prynhawn) yn unig. Eiliwyd y gwelliant gan y Cynghorydd Nicola Roberts.

Cynigiodd y Cynghorydd Lewis Davies ymhellach y dylai fod rheidrwydd ar yr ymgeisydd i gysylltu gyda'r Adran Gynllunio mewn perthynas â'r adegau hynny y bydd y trac yn cael ei ddefnyddio i bwrpas y maes carafanau. Dywedodd y Cynghorwyr Kenneth Hughes a Richard Owain Jones eu bod yn hapus gyda'r newidiadau.

Dyweddodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol y byddai'r cynnig o ran rhoi gwybod i'r Adran Gynllunio pryd y defnyddir y trac yn rhoi baich gweinyddol ar y Gwasanaeth Cynllunio ac mae'n debygol y byddai'n anymarferol i'w weithredu. Roedd y Rheolwr Rheoli Datblygu yn cydnabod y pryderon a godwyd mewn perthynas â rheoli'r defnydd o'r trac ac y byddid yn dibynnu ar dderbyn cwynion lleol am wybodaeth ynghylch unrhyw achosion o dorri amodau. Dywedodd ei fod yn fodlon mynnu ar amodau llymach mewn perthynas â'r defnydd o'r trac ond fod ganddo amheon ynghylch a fedrid gweinyddu'r drefn o roi gwybod i'r Pwyllgor Cynllunio ymlaen llaw am y defnydd hwnnw.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig ac yn amodol ar gyfyngu ar y defnydd o'r trac ar gyfer gofynion gweithredol y Maes Carafannau i 4 awr y dydd (naill ai a.m. neu'n p.m.) am 5 diwrnod yr wythnos.**



#### **7.4 44C311 - Cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw'n ôl ar gyfer codi un annedd ar dir ger 4 Tai Cyngor, Rhosgoch**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar gais yr Aelod Lleol. Yn y cyfarfod ar 5 Tachwedd, penderfynodd y Pwyllgor ganiatáu'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog oherwydd ei fod yn tybio fod y cynnig yn cydymffurfio gyda Pholisi 50 ac na fyddai'n achosi niwed annerbyniol i edrychiad a chymeriad y dirwedd.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod gan y Swyddogion bryderon gwirioneddol ynghylch effeithiau andwyol y cynnig ar edrychiad a chymeriad y dirwedd a bod y cynnig o'r herwydd, yn tynnu'n groes i'r polisiau tirwedd a Pholisi 50 yng Nghynllun Lleol Ynys Môn a ddywed na ddylai cynnig ymwthio mewn modd annymunol i'r dirwedd neu niweidio cymeriad ac edrychiad yr ardal. Erys yr argymhelliad yn un o wrthod.

Siaradodd y Cynghorydd Aled Morris Jones, fel Aelod Lleol, o blaid y cais gan bwysleisio mai cais oedd hwn gan gwpl lleol sy'n dymuno magu eu teulu yn lleol. Dywedodd ei fod yn cydnabod y rhesymau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor ar gyfer caniatáu'r cais fel rhai diffuant a pherthnasol. O'r herwydd, gofynnodd i'r Pwyllgor lynu wrth y penderfyniad a wnaed eisoes i ganiatáu'r cais.

Lleisiodd y Cynghorydd Victor Hughes ei bryderon mewn perthynas â'r dehongliad o Bolisi 50 a'i weithrediad yn yr achos hwn. Dywedodd fod aneddiadau yn cael eu rhestru yn y Polisi oherwydd eu bod yn grwpiau clos ac ynddynt o leiaf 10 o dai; nid dyma'r achos yn ardal y cynnig hwn gan mai 6 o dai yn unig sydd yma a dim ond 4 o'r rheiny mewn grŵp clos. Y clwstwr o dai ger Tafarn y Ring ar ochr orllewinol y rheilffordd sy'n cwrdd â'r meini prawf. Mae tri o dai eraill ar ochr ddeheuol y rheilffordd ac mae gan yr ymgeisydd gyswllt teuluol gydag un o'r rhain. Nid oedd felly yn gweld unrhyw reswm dros gynnig i ddatblygu mewn rhan arall o'r pentref mewn llecyn uchel ac amlwg lle bydd yn amharu ar gymeriad yr ardal. Roedd yn bryderus hefyd ynghylch maint y plot datblygu ac ynghylch sefydlu cysaill petai'n cael ei ganiatáu. Cynigiodd bod y cais yn cael ei wrthod yn unol ag argymhelliad y Swyddog. Eiliodd y Cynghorydd Lewis Davies y cynnig i wrthod. Eglurodd y Cynghorydd Aled Morris Jones fod safle arall wedi cael ei ddiystyru oherwydd ei fod yn gorsiog.

Mewn ymateb i gais gan Aelod am eglurhad ynghylch a yw'r cynnig yn syrthio dan ardal anheddiad Polisi 50, dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio fod Polisi 50 yn rhestru aneddiadau ond nad yw'n dynodi ffiniau ar gyfer yr aneddiadau hynny. Yn yr achos hwn, er y gellir disgrifio'r cynnig fel un sydd ar gyrion anheddiad Rhosgoch, mae gan y Swyddogion bryderon ynghylch agweddau eraill arno.

Cynigiodd y Cynghorydd Richard Owain Jones y dylid caniatáu'r cais oherwydd, yn ei farn ef, mater o ddehongli Polisi 50 ydyw ac roedd cais tebyg wedi cael ei gymeradwyo ym Mynydd Mechell. Eiliodd y Cynghorydd Ken Hughes y cynnig am y rheswm ei fod o'r farn ei fod yn cwrdd â gofynion Polisi 50 a'r angen am dai lleol. Cytunodd y Cynghorydd Nicola Roberts ei bod yn bwysig cefnogi pobl leol.

Yn y bleidlais ddilynol, pleidleisiodd y Cynghorwyr Lewis Davies, Victor Hughes ac Ann Griffith i wrthod y cais yn unol ag argymhelliad y swyddog. Pleidleisiodd y Cynghorwyr John Griffith, Ken Hughes, Vaughan Hughes, Richard Owain Jones, Nicola Roberts a W T Hughes i wrthod y cais yn groes i argymhelliad y Swyddog.

**Penderfynwyd ail-gadarnhau'r penderfyniad a wnaed eisoes gan y Pwyllgor i ganiatáu'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog oherwydd y tybir ei fod yn cydymffurfio gyda Pholisi 50 ac na fydd yn achosi niwed annerbyniol i edrychiad a chymeriad y lleoliad.**

#### **7.5 46C129B/FR – Cais llawn ar gyfer gosod arfwisg graig o flaen y wal strwythur caergawell presenol yn Dinghy Park, Porth Castell, Ravenspoint Road, Trearddur.**

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2014, penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion y dylid ymweld â'r safle cyn penderfynu ar y cais ac fe wnaed hynny ar 19 Tachwedd.

*Ar ôl datgan diddordeb yn y cais hwn, aeth y Cynghorydd Victor Hughes allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth arno.*

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu y cafwyd llythyr o wrthwynebiad ar ôl drafftio'r adroddiad ysgrifenedig sy'n ymwneud mwy ag effaith y datblygiad na'i edrychiad. Cynhaliwyd ymweliad safle i asesu effaith y cynnig ar yr arfordir ac ar yr AHNE. Cadarnhaodd y Swyddog fod y cynnig y tu allan i'r AHNE. Y mater allweddol yw effaith y cynnig ar y dirwedd o'i gwmpas. Ym marn y Swyddog, câr'r cynnig effaith ar ardal Porth Diana yn unig ac ni fydd yn andwyol i'r arfordir yn gyffredinol. Nid yw'r cynllun yn nodwedd anarferol mewn lleoliad arfordirol. Yr argymhelliad felly oedd un o ganiatáu.

Gofynnodd y Cynghorydd John Griffith a fyddai'n briodol caniatáu'r cynnig heb yn gyntaf gael cadarnhad gan Stad Arforol y Goron. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol fod yr adroddiad ysgrifenedig yn cadarnhau yr ymgynghorwyd gyda Stad Arforol y Goron, ond nad yw wedi ymateb eto, a'i bod yn iawn i'r Pwyllgor wneud penderfyniad ar y cais.

Cynigiodd y Cynghorydd Lewis Davies y dylid caniatáu'r cais ac fe eiliwyd ei gynnis gan y Cynghorydd Ken Hughes.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

## **8 CEISIADAU ECONOMAIDD**

Dim i'w hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

## **9 CEISIADAU TAI FFORDDIADWY**

Dim i'w hystyried yn y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

## **10 CEISIADAU'N TYNNU'N GROES**

**10.1 38C275B - Cais i ddileu amod (ii) 'annedd amaethyddol' oddi ar ganiatâd cynllunio T/1305b ynghyd â chadw'r estyniad porth, sied gysylltiedig a lloches, tanc septig, a dwy fynedfa i gerbydau yn Pedwar Gwynt, Llanfechell**

Cafodd y cais ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion am ei fod yn groes i bolisi a'r Swyddog yn argymhell ei ganiatáu.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod dwy elfen i'r cais – pa mor dderbyniol yw'r gwaith adnewyddu a wnaed heb ganiatâd yn y tŷ (cafodd yr egwyddor o ddatblygu ar y safle ei sefydlu yn 1968), a gwneud i ffwrdd â'r amod a oedd yn golygu mai dim ond person yn gweithio mewn amaethyddiaeth gai fyw ynddo. Nid yw'r ymgynghoreion statudol wedi cofrestru unrhyw wrthwynebiadau i'r gwaith a wnaed ac ym marn y Swyddog, ni fydd yn cael effaith ar fwynderau unrhyw eiddo cyfagos i'r graddau y byddai hynny'n gwarantu ei wrthod; ac ni fydd ychwaith yn cael effaith andwyol ar fwynderau'r ardal o ran lleoliad, dyluniad, maint a deunyddiau. O ran y bwriad i wneud i ffwrdd â'r amod deiliadaeth amaethyddol, mae gan yr Awdurdod Cynllunio amheuan ynglŷn â'r modd y cafodd ei gyfiawnhau yn y lle cyntaf ac mae o'r farn na chafodd ei ddefnyddio'n gywir erioed. Mae'r argymhelliad felly yn un i ganiatáu'r cais.

Mynegodd sawl Aelod o'r Pwyllgor bryderon ynglŷn â'r ffaith fod amodau wedi cael eu torri yn yr achos hwn gan ddweud yr ymddengys fod ceisiadau i reoleiddio datblygiadau heb ganiatâd yn cael eu cyflwyno'n amlach gyda hynny, fe dybir, yn arwydd o wendid yn y broses gynllunio. Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod Llywodraeth Cymru wrthi'n cynnal adolygiad o'r system orfodaeth.

Cynigiodd y Cynghorydd Lewis Davies y dylid gwrthod y cais oherwydd graddfa'r tor-amod a'r posibilrwydd y gallai ei ganiatáu osod cysail. Eiliodd y Cynghorydd John Griffith y cynnig.

Er bod ganddo bryderon ynghylch torri amodau cynllunio a phresenoldeb carafannau statig ar y safle, cynigiodd y Cynghorydd Ken Hughes y dylid caniatáu'r cais oherwydd nid oedd yn credu fod rhesymau cynllunio dilys dros ei wrthod. Eiliwyd ei gynnis gan y Cynghorydd Richard Owain Jones. Yn y bleidlais, cariwyd y cynnig i ganiatáu'r cais.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

## 11 CYNIGION DATBLYGU GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION

### 11.1 39C552 Cais llawn am addasu ag ehangu yn 114 Penlon, Porthaethwy

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion oherwydd bod yr ymgeisydd yn perthyn i aelod o staff yn yr Adran Gynllunio. Mae'r cais wedi cael ei sgrwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol o dan adran 4.6.10.4 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Cynigiodd y Cynghorydd Richard Owain Jones y dylid cymeradwyo y cais ac fe eiliwyd ei gynneg gan y Cynghorydd Vaughan Hughes.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

## 12 GWEDDILL Y CEISIADAU

### 12.1 11C623 – Cais llawn i wneud gwelliannau i'r fynedfa bresennol ynghyd â chreu llawr caled ar gyfer parcio yn 1 Tai Cyngor, Burwen, Amlwch

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion gan mai'r Cyngor Sir yw'r ymgeisydd a pherchennog y tir.

Cynigiodd y Cynghorydd Lewis Davies y dylid cymeradwyo y cais ac fe eiliwyd ei gynneg gan y Cynghorydd Richard Owain Jones.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

### 12.2 16C48H – Cais llawn i gadw slab concriid ynghyd â chodi sied amaethyddol i'w defnyddio fel storfa ac i gadw anifeiliaid ar dir yn Ger y Bryn, Bryngwran

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio ar Gorchmynion ar gais yr Aelod Lleol.

Cynigiodd y Cynghorydd Nicola Roberts bod y Pwyllgor yn cynnal ymweliad safle er mwyn i'r Aelodau weld y safle drostynt eu hunain yn enwedig yng ngoleuni ei hanes cynllunio. Eiliodd y Cynghorydd Richard Owain Jones y cynneg.

**Penderfynwyd ymweld â safle'r cais am y rhesymau a roddwyd.**

### 12.3 19C842Y – Cais llawn ar gyfer adeiladu estyniad i'r ganolfan drafnidiaeth a ganiatawyd sydd yn cynnwys creu ardaloedd tirlunio a gwelliannau ecolegol ar dir yn Parc Cybi, Caergybi.

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion oherwydd bod yr ymgeisydd wedi cyflwyno rhybudd i'r Cyngor fel rhan berchennog safle'r cais.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod y cais yn un i ymestyn yr hyb trafndiaeth a ganiatawyd yn 2013 i ddarparu 49 o lefydd parcio ychwanegol ar gyfer HGV. Roedd y materion allweddol yn ymwneud â'r dirwedd ac ystyriaethau ecolegol a thraffig. Mae'r cynllun wedi cael ei ddiwygio i fodloni'r ymgynghoreion ac ystyrir ei fod yn dderbyniol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Nicola Roberts at y mater o fudd cymunedol a godwyd gan y Cyngor Tref. Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu bod rhaid i gais am fudd cymunedol fod â chyswllt uniongyrchol y mae modd ei brofi i'r datblygiad. Yn yr achos hwn, nid oedd unrhyw resymau clir dros ofyn am fudd cymunedol.

Cynigiodd y Cynghorydd Vaughan Hughes y dylid caniatáu'r cais ac eiliwyd ei gynneg gan y Cynghorydd Richard Owain Jones.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**12.4 19LAP434C/FR/CC – Cais llawn ar gyfer adnewyddu'r adeiladau gwreiddiol, dymchwel yr estyniad cyswllt ynghyd â chodi estyniad deulawr newydd yng Nghanolfan Gymunedol Jesse Hughes, Caergybi**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion oherwydd ei fod yn cael ei gyflwyno gan y Cyngor ar dir y Cyngor.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio fod y cais yn addasiad i gynllun a gymeradwywyd ym mis Medi 2014 dan gyfeirnod 19LAP434B/FR/CC a'i fod yn cynnig 20 o lecynnau parcio yn hytrach na'r 16 a gymeradwywyd eisoes. Er y bydd y rhain yn agosach at yr eiddo y tu cefn i'r safle, bydd yr estyniad arfaethedig yn awr yn bellach i ffwrdd. Nid ystyrir y bydd hyn yn cael unrhyw effeithiau andwyol ar fwynderau preswyl. Mae mynedfa dros dro ar gyfer y cyfnod adeiladu hefyd wedi'i chynnwys yn awr. Mae Swyddogion Priffyrdd wedi cadarnhau eu bod yn fodlon gyda'r datblygiad.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes fel Aelod Lleol nad oedd ganddo ef unrhyw wrthwynebiadau i'r cynnig ond dywedodd yr hoffai weld y fynedfa dros dro yn cael ei gwneud yn un barhaol.

Cynigiodd y Cynghorydd Lewis Davies y dylid caniatáu'r cais ac eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd Vaughan Hughes.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**12.5 42C61K – Cais llawn ar gyfer codi annedd a modurdy ar dir yn Ty'r Ardd, Pentraeth**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ar gais yr Aelod Lleol.

Rhoes Mr Rhys Davies anerchiad i'r Pwyllgor o blaid y cynnig. Dywedodd bod caniatâd cynllunio i roi annedd barhaol ar y safle yn lle'r garafán breswyl gyfredol wedi cael ei roddi ar apêl, felly mae'r egwyddor o ddatblygu wedi'i sefydlu. Pwysleisiodd y byddai'r annedd arfaethedig o ddyluniad traddodiadol ac y byddai'n cael ei hadeiladu gyda deunyddiau lleol gan olygu y byddai'n ymdoddi i'r ardal o'i chwmpas. Nid oedd ef o'r farn fod cais gydag ôl-troed 251.50 metr sgwâr yn arbennig o fawr ar blot 1 ers ac er ei fod oddeutu 80 metr sgwâr yn fwy na'r cynnig a ganiatawyd ar apêl, mae uchder yr annedd yn wedi ei ostwng gan 2m.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor am eglurhad gan Mr Davies ynghylch maint y cynnig cyfredol o gymharu â'r cynnig a gyflwynwyd i apêl.

Dywedodd y Rheolwr Datblygu Cynllunio bod y Swyddogion o'r farn bod y cynnig a gyflwynir yn awr, o ran ei faint a'i raddfa, yn hollol wahanol i'r cynnig a ganiatawyd ar apêl ac y byddai o'r herwydd, yn nodweddiadol ymwithiol yn y dirwedd a ddynodir yn AHNE ac y byddai'n groes i bolisiau cynllunio.

Siaradodd y Cynghorydd Ieuan Williams, Aelod Lleol, o blaid y cais.

Roedd y Cynghorydd Vaughan Hughes yn cytuno gyda'r Aelod Lleol ac o'r farn na fyddai'r annedd arfaethedig, o ran ei maint, yn anghydnaws ag eiddo cyfredol yn yr ardal a'r cyffiniau. Cynigiodd ef y dylid caniatáu'r cais ac fe eiliwyd ei gynnig gan y Cynghorydd Nicola Roberts. Cynigiodd y Cynghorydd Ken Hughes y dylid gwrthod y cais ac fe eiliwyd ei gynnig yntau gan y Cynghorydd Lewis Davies. Yn y bleidlais ddilynol, cariodd y cynnig i wrthod y cais.

**Penderfynwyd gwrthod y cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

## **13 MATERION ERAILL**

**13.1 19C1136A/VAR – Cais i amrywio amod (02) ar ganiatâd cynllunio 19C1136 (bydd yr ystafell ddosbarth symudol a ganiateir yma yn cael ei symud oddi ar y tir erbyn 07.05.2019) er mwyn newid y caniatâd dros dro o 5 i 10 mlynedd ar gyfer lleoli adeilad symudol yn Ysgol Kingsland, Caergybi**

Cyflwynwyd y cais i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion fel cais ychwanegol at y rhai y cafwyd rhybudd yn eu cylch.

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Datblygu fod y Pwyllgor, ym mis Mehefin, wedi caniatáu cais i leoli adeilad symudol i ddarparu meithrinfa am gyfnod dros dro o 5 mlynedd. Gan fod y cynnig yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru, rhaid i'r adeilad fod ar gael am gyfnod o 10 mlynedd. Rhaid gwario'r arian erbyn diwedd Mawrth 2015 a rhyddhau caniatâd cynllunio erbyn diwedd y flwyddyn galendr fel y gellir gwneud y paratodau.

Rhodes y Cadeirydd ei ganiatâd i'r cais gael ei ystyried fel mater brys oherwydd yr amgylchiadau arbennig a oedd ynghlwm wrth y cais fel yr adroddwyd arnynt gan y Swyddog. Cymeradwywyd ei benderfyniad gan y Pwyllgor.

**Penderfynwyd caniatáu'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog gyda'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**Y Cynghorydd W. T. Hughes  
Cadair**

This page is intentionally left blank

6.1

Ceisiadau'n Economaidd

Economic Applications


Rhif y Cais: **33C304B/ECON** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Menai Science Park**

Cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw yn ôl ar gyfer dymchwel fferm presennol, codi parc gwyddoniaeth, creu maes parcio ynghyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau yn / Outline application with some matters reserved for the demolition of the existing farm, erection of a science park, creation of a car park together with the creation of a new vehicular access at

Junction 7 of the A55 (wrth ymyl / near Cefn Du), Gaerwen



**Pwyllgor Cynllunio: 07/01/2015**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth (DFJ)**

**Argymhelliad:**

Ymweliad Safle

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Ystyrir ei fod yn angenrheidiol i aelodau ymweld a'r safle i werthfawrogi maint a chyd-destyn y bwriad cyn gwneud penderfyniad ar y cais cynllunio.

**8. Argymhelliad**

Ymweliad Safle




Rhif y Cais: **34C553A** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**St Malo (Llangefni) Ltd**

**Cais amlinellol ar gyfer datblygiad trigiannol yn cynnwys cyfleuster gofal ychwanegol, priffordd a rhwydwaith cysylltiol yn/Outline application for residential development including extra care facility, highway and associated infrastructure at**

**Ty'n Coed, Llangefni**



**Pwyllgor Cynllunio: 07/01/2015**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth (MTD)**

**Argymhelliad:**

Gohirio.

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

I roi amser ar gyfer derbyn ymatebion ymgynghori pellach ynglŷn ag ail-ymweld â sgrinio'r cais sydd wedi ei wneud ar argymhelliad yr adain gyfreithiol.

7.1

Gweddill y Ceisiadau

Remainder Applications


Rhif y Cais: **21C40A** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mr Hefin Jones**

**Cais llawn i godi sied amaethyddol ar gyfer cadw anifeiliaid a pit slyri ar dir yn / Full application for the erection of an agricultural shed to house livestock and a slurry pit on land at**

**Penrhyn Gwyn, Llanddaniel**



**Pwyllgor Cynllunio: 07/01/2015**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth (OWH)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais wedi cael ei alw i mewn i'r Pwyllgor i'w benderfynu gan y Cyngorydd Hywel Eifion Jones.

Yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2014, penderfynodd y Pwyllgor wrthod y cais yn groes i argymhelliad y swyddog. Dyma'r rhesymau a gofnodwyd:

- i. Rhy agos at yr eiddo agosaf
- ii. Posibilrwydd o effaith sŵn ac arogleuon

Mewn amgylchiadau o'r fath mae paragraff 4.6.12.1 o Gyfansoddiad y Cyngor yn dweud:

"Pan fo'r Pwyllgor yn penderfynu naill ai cymeradwyo neu wrthod datblygiad arfaethedig yn groes i argymhelliad swyddog, bydd yr eitem yn cael ei gohirio hyd y cyfarfod dilynol fel bod cyfle i'r swyddogion gyflwyno adroddiad pellach ar y mater. Rhaid i'r Pwyllgor nodi'r rhesymau dros ddymuno penderfynu yn erbyn argymhelliad y swyddog. Dylai aelodau'r Pwyllgor lynu wrth y Rheolau hyn wrth wneud penderfyniadau cynllunio a chymryd i ystyriaeth arweiniad a rydd swyddogion cynllunio a phleidleisio yn erbyn eu hargymhellion dim ond yn yr achosion hynny lle mae modd nodi rhesymau cynllunio gwirioneddol ac o bwys. Cedwir cofnod manwl o reswm (rhesymau) y Pwyllgor gan osod copi ar feil y cais. Pan fo penderfyniad yn cael ei wneud ar fater yn groes i argymhelliad, gall hynny arwain at gostau apêl a bydd y Pwyllgor yn cofnodi'r bleidlais wrth benderfynu ar y cais waeth beth fo gofynion paragraff 4.1.18.5 y Cyfansoddiad".

Mae paragraff 4.6.12.2 yn dweud

"Yn adroddiad pellach y swyddog, ceir manylion am y rhesymau a gyflwynwyd gan yr aelodau, nodir a yw'r rhesymau hynny, yn eu barn nhw, yn faterion cynllunio gwirioneddol ac o bwys a thrafodir y materion defnydd tir a godwyd."

### **1. Agosrwydd at yr eiddo agosaf**

Nodwyd bod y datblygiad arfaethedig oddeutu 125 metr oddiwrth yr annedd agosaf. Fodd bynnag, mynnwyd ar amodau er mwyn lleddfu effaith y sied arfaethedig ar yr annedd. Mae byndiau pridd a gwrychoedd wedi cael eu cyflwyno fel rhan o'r cais.

Roedd yr adeilad fel y cafodd ei gyflwyno'n wreiddiol, o fewn 3.5m i ymyl y trac mynediad. Bellach, mae wedi cael ei ail-leoli 10m o ymyl y trac mynediad - mae'r lle ychwanegol hwn yn caniatáu ar gyfer creu bwnd pridd a chynllun tirlunio ar y drychiad hwn a hynny ar ffurf gwrychyn sy'n cael ei ymestyn i ymyl y trac ger y peniau presennol ac o gwmpas dwy ochr o'r iard sydd yn agored ar hyn o bryd. Bydd y datblygiad yn darparu ar gyfer plannu 120m o wrychoedd newydd gan gynnwys bwnd pridd 63m i liniaru effaith y datblygiad. Ynghyd â sgrinio'r sied newydd arfaethedig, bydd gweithgareddau yn y peniau presennol a'r iard yn cael eu sgrinio hefyd fel rhan o'r cynigion diwygiedig.

Mae paragraff A16 yn dweud "... gall plannu coed a gwaith allanol doeth wella adeiladau newydd. Ni ddylid anelu at guddio adeilad, ond yn hytrach meddalu amlinelliad caled, torri cysgodlun amlwg, a helpu i angori'r adeilad newydd yn y dirwedd o'i amgylch ".

## 2. Posibilrwydd o sŵn ac arogleuon

Rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion yr uned ffermio a mwynderau preswyl a gweledol. Ystyrir y bydd y cynllun diwygiedig ynghyd â'r amodau y mynnwyd arnynt o gymorth i liniaru'r sŵn a'r effeithiau gweledol ac y byddant yn sicrhau gwelliant o ran y gweithgareddau cyfredol ar y safle.

Nid ystyrir y bydd y cynllun arfaethedig yn cael effaith andwyol ar eiddo cyfagos. Mae Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn cadarnhau nad oes unrhyw bellter gwahanu penodol wedi cael ei bennu rhwng anheddau ac adeiladau i gadw anifeiliaid.

Mynnwyd ar amod yn y penderfyniad hefyd i'r ymgeisydd gyflwyno Cynllun Rheoli Arogleuon a fydd yn gosod y mesurau a'r gweithdrefnau y byddir yn eu mabwysiadu i leihau'r arogleuon a ddaw o'r busnes a phetai raid, gellid mynnu ar hynny cyn i'r gwaith datblygu cychwyn.

Eto, mae angen llunio barn ynglŷn â'r asesiad hwn ac mae o gymorth manylu ar y ffactorau y mae angen eu cymryd i ystyriaeth. Derbynnir bod modd i'r rhesymau a gyflwynir ar gyfer gwrthod cais fod yn rhai diffuant ac o bwys o safbwynt cynllunio. Fodd bynnag, wrth ystyried ffeithiau'r achos penodol hwn, byddai'r swyddogion yn cyflwyno'r sylwadau isod:

- **Mae'n amlwg fod y datblygiad arfaethedig yn agos at yr adeilad agosaf, fodd bynnag, mae Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn cadarnhau nad oes unrhyw bellter gwahanu penodol wedi cael ei bennu rhwng anheddau ac adeiladau i gadw anifeiliaid** – Fel y dywedwyd uchod, ystyrir bod y safle'n dderbyniol gyda'r amod y mynnwyd arno ac na fydd y cynllun arfaethedig yn cael effaith ar yr annedd agosaf i'r graddau y byddai hynny'n cyfiawnhau gwrthod y cais.
- **Effaith bosibl o ran arogleuon a sŵn** – Fel y dywedwyd eisoes, mae amodau wedi cael eu pennu er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau o ran sŵn ac arogleuon ar yr annedd agosaf.
- **Yr ymgeisydd wedi trafod lleoliad posibl arall gyda'r gwrthwynebydd** - Nodwyd bod yr ymgeisydd wedi trafod lleoliadau eerial ar gyfer y sied gyda'r gwrthwynebydd, fodd bynnag, nid oes cynllun diwygiedig wedi cael ei gyflwyno gyda'r cais ac o'r herwydd, rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddelio gyda'r cynlluniau fel y cawsant eu cyflwyno.

## 2. Argymhelliad


Ystyrir bod y cais yn cydymffurfio gyda'r polisiau yn y cynllun datblygu ac nad yw'n achosi unrhyw niwed amlwg ac y dylid ei ganiatáu. Petai'r aelodau'n parhau i wrthwynebu'r cais ac argymhell ei wrthod am y rhesymau a gyflwynwyd, ystyrir y byddai'n anodd eu cyfiawnhau mewn apêl ac y gallant arwain at gostau i'r awdurdod.

Rhif y Cais: **38C301A/EIA/RE** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Airvolution Energy (Plas Bodewryd) Limited**

Cais llawn i godi dau dwrbin wynt 4.6MW gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 59m, diamedr rotor hyd at 71m, a uchder blaen unionsyth fertigol hyd at uchafswm o 92.5m ynghyd ag is-orsaf ac adeilad rheoli, llefydd caled cysylltiedig, trac mynediad newydd yn cysylltu i'r tyrbinau arfaethedig o'r tyrbinau presennol, iard adeiladu dros dro a lle troi ac isadeiledd arall sy'n berthnasol ar dir ger / Full application for the erection of two 4.6MW wind turbines with a maximum hub height of up to 59m, rotor diameter of up to 71m, and a maximum upright vertical tip height of up to 92.5m together with a substation and control building, associated hard-standings, a new access track connecting to the proposed turbines from the existing turbines, a temporary construction compound and turning area and other related infrastructure on land at

**Ysgellog, Rhosgoch**

**Pwyllgor Cynllunio: 07/01/2015**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth (DPJ)**

**Argymhelliad:**

Gwrthod caniatâd cynllunio

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd ynghlwm wrth y cais cynllunio

### **1. Y Safle a'r Bwriad**

Cais cynllunio yw hwn i godi dau dyrbin gwynt ar dir amaethyddol gydag arwynebedd o 7.6 hectar, i'r de-orllewin o ddau dyrbin gwynt gweithredol Fferm Ysgellog, sef dau dyrbin sydd yr un maint â'r tyrbinau gwynt arfaethedig y mae'r cais cynllunio hwn yn ymwneud â nhw.

Yr hyn fyddai'r tyrbinau arfaethedig yw dau dyrbin gwynt echel lorweddol o ddyluniad tri llafn sydd ddim uwch na 92.5 metr at flaen y llafn, a diamedr rotor o hyd at 71 metr. Byddai'r tyrbinau arfaethedig yn cael eu gorffen mewn lliw llwydwyn gan ddefnyddio paent adlewyrchol isel. O ran drychiad byddai'r tyrbinau arfaethedig yn 45m a 55m uwchlaw datwm ordnans. Mae un o'r tyrbinau ar ffîn cae a bydd angen cael gwared â darn byr o wal gerrig. Ceisir caniatâd cynllunio am 25 mlynedd. Ar ôl y cyfnod hwn byddai'r tyrbinau yn cael eu symud oddi yno a'r tir yn cael ei adfer.

Yn ogystal, gwneir cais am y datblygiadau cysylltiedig a nodir yn y disgrifiad yn enwedig felly estyniad i'r trac mynediad o ddatblygiad Ysgellog gan gynnwys man croesi ar draws nant. 4.6 mw fyddai allbwn pŵer cyfunol y tyrbinau arfaethedig.

### **2. Mater(ion) Allweddol**

- Ystyriaethau Polisi yng nghyswllt Ynni Adnewyddadwy
- Yr Effaith Weledol ar y Tirlun
- Sŵn
- Adeilad Rhestredig
- Heneb Gofresredig
- Archaeoleg
- Mwynder Preswyl
- Ystyriaethau'r Weinyddiaeth Amddiffyn
- Ystyriaethau Ecolegol
- CCA Datblygiadau Ynni Gwynt ar y Tir

### **3. Prif Bolisïau**

#### **Cynllun Fframwaith Gwynedd**

C7 Ynni Adnewyddadwy  
D3 Ardal Gwarchod y Tirlun  
D15 Archeoleg  
D22 Cyffiniau'r Adeilad Rhestredig  
FF11 Traffig

#### **Cynllun Lleol Ynys Môn**

1 Polisi Cyffredinol  
31 Tirlun  
32 Cloddiau  
35 Gwarchod Natur  
41 Diogelu Adeiladau  
45 Ynni Adnewyddadwy

#### **Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**

GP1 Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu  
EP 18 Ynni Adnewyddadwy  
EN1 Cymeriad y Tirlun  
EN13 Lleoliad Adeiladau Rhestredig  
EN4 Bioamrywiaeth

**Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar gyfer Ynni (EN-1) (2011)**

**Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3) (2011)**

**Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 7**

**Nodyn Cyngor Technegol 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)**

**Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Gorffennaf 2010)**

**Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005)**

**Nodyn Cyngor Technegol 11 Sŵn (1997)**

**Cylchlythyr 60/96 "Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg"**

**Cylchlythyr 61/96 "Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth"**

**Cyfarwyddyd Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel - Llawlyfr i Gynllunwyr', Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer: Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (Chwefror 2011)**



## **Canllawiau Cynllunio Atodol Datblygiadau Ynni Gwynt ar y Tir (Ionawr 2013)**

## **Canllawiau Pellteroedd Gwahanu Rhwng Tyrbinau Gwynt a Pheilonau Gyda Thai (2014)**

## **Asesiad Sensitifrwydd a Chapasti Tirluniau Ynys Môn, Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri - Crynodeb Gweithredol (2014)**

### **4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Cyngor Tref Amlwch** – gwrthod oherwydd lefel y sŵn gan fod y cyngor yn gwybod am dyrbinau bach eraill nad ydynt wedi'u caniatáu oherwydd effaith gronnol y sŵn.

**Cyngor Cymuned Llanbadrig** - yn gwrthwynebu am y rhesymau a ganlyn:

- Mae'r datblygiad yn rhy agos i gymuned fach Boderwy
- Nid yw'r tyrbinau'n cyd-fynd â'r tiru
- Mae'r raddfa'n rhy faw
- Gwrthwynebwyd tyrbinau llai yn yr ardal eisoes

**Cyngor Cymuned Mechell** – Wedi penderfynu dilyn polisi'r cyngor cymuned i beidio â chefnogi tyrbinau mawr ond maent yn chefnogi ynni gwynt. Mae'r cyngor cymuned yn ymwybodol bod deiseb wedi'i hanfon i'r cyngor sir ac arni hyd at 179 o wrthwynebiadau. Yn hyn o beth, mae'r cyngor cymuned yn chefnogi'r ddeiseb oherwydd ei bod yn adlewyrchu teimlad a barn y gymuned leol.

**Cyngor Cymuned Rhos-y-bol** – yn argymhell gwrthod.

**Aelodau Lleol** – Ni ddaeth yr un sylw i law.

**Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd** - Mae'r Cynllun Datblygu perthnasol ac ystyriaethau polisi eraill o bwys wedi'u rhestru, gan gynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd – "Ynni Gwynt ar y Tir" sy'n cynnwys rhestr wirio o wybodaeth y mae gofyn amdani yng nghyswllt datblygiadau ynni gwynt ac mae'n ategu polisiâu cynllunio o bwys.

Ceir eglurhad y dylid rhoi pwys i'r Canllawiau Cynllunio Atodol fel ystyriaeth berthnasol yn wyneb yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r ffaith i'r cyngor yna eu mabwysiadu. Cafodd pedwar gwelliant ychwanegol eu cynnwys cyn i'r Cyngor eu mabwysiadu ac felly nid ymgynghorwyd â'r cyhoedd yn eu cylch. O'r herwydd, ni ddylid rhoi cymaint o bwys iddynt:

- Pellteroedd gwahanu
- Ardal ragod o 2 gilomedr i'r AHNE
- Effaith gronnol ar y gymuned; ac
- Ei gwneud yn ofynnol cael cytundeb i ddatgomisiynu'r safle.

Rhoddir chefnogaeth ym mharagraff 12.9.9 Polisi Cynllunio Cymru i brosiectau maint is-awdurdod lleol ledled Cymru (fel y diffinnir rhwng 50kw a 5MW) ac y byddai o bosib gyfleoedd ar safleoedd llwyd trefol/diwydiannol (paragraff 12.9.7).

Ceir eglurhad pellach yn Nodyn Cyngor Technegol 8 ym mharagraff 2.13 sy'n nodi:

"Dylai'r rhan fwyaf o ardaloedd y tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol fod yn rhydd o gynlluniau pŵer gwynt mawr. Efallai y byddai awdurdodau cynllunio lleol yn dymuno ystyried effaith gronnol cynlluniau bach mewn ardaloedd y tu allan i'r Ardaloedd Chwilio Strategol a sefydlu meini prawf addas ar gyfer pellteroedd gwahanu oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth berimedr cynlluniau ynni gwynt presennol neu'r Ardaloedd Chwilio Strategol. Yn yr ardaloedd hyn, mae cydbwysedd i'w daro rhwng y dymuniad i gael

ygni adnewyddadwy a diogelu'r tirlun. Er na ddylai'r cydbwysedd hwnnw arwain at gyfyngiad difrifol ar ddatblygu capasiti ynni gwynt, mae achos dros osgoi sefyllfa lle mae tyrbinau gwynt yn cael eu lledaenu ar draws y sir gyfan. O ganlyniad, byddai Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi awdurdodau cynllunio lleol i gyflwyno polisiau lleol yn eu cynlluniau datblygu sy'n cyfyngu ar bron bob datblygiad ynni gwynt, sy'n fwy na 5MW, i ardaloedd chwilio strategol a safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol. Mae'n dderbyniol mewn amgylchiadau o'r fath y gallai caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau dros 5MW y tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol a safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol gael eu gwrthod.

"

Yn wyneb hyn, mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol wedi datgan ym mharagraff 6.16 y dylai datblygiadau ffermydd gwynt newydd gael eu cyfyngu i allbwn o ddim mwy na 5MW. Daeth gwrthwynebiad i law ar yr agwedd hon o'r Canllawiau Cynllunio Atodol ond ni dderbyniwyd hyn gan y cyngor gan fod y cyfryw ganllawiau'n adlewyrchu polisi cynllunio cenedlaethol a'r angen i gydbwysu gwaith annog ynni adnewyddadwy yn erbyn yr angen i osgoi neu liniaru unrhyw effaith annerbyniol neu sylweddol andwyol. Nodir mai 4.6MW yw'r allbwn o'r bwriad hwn, fodd bynnag mae angen rhoi ystyriaeth i baragraffau 6.19-6.21 y Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n cyfeirio at asesiad o allbwn ynni cronol sy'n ceisio sicrhau nad oes mwy na 5MW yn cael ei greu trwy geisiadau llai. Mae'r datblygiad arfaethedig yn agos at y datblygiad blaenorol, sef dau dyrbin tebyg ar safle Ysgellog. Wedi'u cyfuno byddai'r pedwar tyrbîn yn uwch na'r raddfa 5MW y cyfeirir ati uchod ac felly yn groes i baragraff 6.16 y Canllawiau Cynllunio Atodol.

Dengys y **Swyddog Cadwraeth** nad oedd y cais cynllunio gwreiddiol ar gyfer Ysgellog 1 yn cael cefnogaeth oherwydd rhesymau cadwraethol. At hyn, nid yw'r cais cynllunio yn cael ei gefnogi ac ystyrir y byddai'r datblygiad yn llawer mwy niweidiol i'r adeiladau rhestredig a'r lleoliad ym Moderwyd.

Wrth benderfynu ar y cais cynllunio, mae'n ddyletswydd ar yr awdurdod cynllunio lleol i roi sylw arbennig i warchod lleoliad yr adeilad rhestredig.

Mewn perthynas ag arwyddocâd y derbynydd treftadaeth tynnir sylw at y ffaith bod Cylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig yn nodi ym mharagraff 71 "Mae graddfa'r adeilad yn y rhestr statudol yn amlwg yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer arfer rheoli adeilad rhestredig. Mae Gradd I a II\* yn nodi diddordeb pensaernïol neu hanesyddol eithriadol cyfran fach (7-8%) o'r holl adeiladau rhestredig.

Gwrthwynebir oherwydd y byddai'r datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar leoliad Plas Boderwyd sy'n radd II\* ac ar yr adeilad rhestredig ar wahân yn y colomendy y mae'r Swyddog Cadwraeth yn ystyried ei fod yn rhan o leoliad hanfodol Plas Boderwyd.

**Swyddog Tirlun** - Ar ôl asesu nifer o safbwyntiau fel y'u disgrifir, daw i'r casgliad bod yr effeithiau ar y tirlun a ystyriwyd yn yr Asesiad o'r Effaith Weledol ar y Tirlun (yr Asesiad) a gyflwynir yn sylweddol o fewn 2 cilomedr. Nid yw'n cytuno bod yr effeithiau sylweddol hyn yn cael eu cyfyngu i 2 cilomedr, yn enwedig felly yng nghyswllt y cyfuniad o dderbynyddion tirlun sensitif.

Mae'r Asesiad yn ystyried effeithiau gweledol o goridorau llwybrau, aneddiadau a llwybrau hamdden eraill. Mae'r Swyddog Tirlun o'r farn y byddai'r effeithiau hyn yn fwy na'r hyn a asesir yn yr Asesiad ac yn sylweddol o Fynydd Parys.

Effeithiau Cronol ar y Tirlun - Nid yw'r Asesiad yn asesu a allai ychwanegu dau dyrbin newid canfyddiad a statws Ysgellog gydag Ysgellog 2 o fod yn bâr o dyrbinau i fod yn fferm wynt newydd. Er y bydd hyn yn arwain at ystyriaethau polisi ar ffurf fferm wynt newydd y tu allan i Ardal Chwilio Strategol, rydym o'r farn ei bod hefyd yn golygu bod yr effeithiau gweledol cronol ar y tirlun yn cael eu hystyried nid yn unig yn bâr arall o dyrbinau, ond yn fferm wynt newydd. Er na chyfeirir ati fel fferm wynt yn yr Asesiad, byddai effeithiau cyfunol Ysgellog ac Ysgellog 2 yn effeithiau fferm wynt. Yn wir,

cyfeirir yn yr Asesiad (gweler 7.195 a 7.196) at arweiniad gan gyrff yng Nghymru a'r Alban ynglŷn â chynnal a chadw pellter gwahanu digonol rhwng ffermydd gwynt.

I gloi, mae'r swyddog tirlun yn ystyried bod ychwanegu at effeithiau sydd eisoes yn sylweddol a gweledol ar y tirlun yn annerbyniol ac nad oes gan yr ardal y lle i dyrbinau ychwanegol fel y'i bwriedir. Mae datblygiadau ynni eraill yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn debygol o ychwanegu at effeithiau sylweddol pellach pe caent eu cymeradwyo a'u rhoi ar waith, er nad yw rhai o'r cynlluniau y cyfeirir atynt yn yr ymgynghoriad nawr yn debygol o fynd rhagddynt.

**Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol** - Yn seiliedig ar gofnodion hysbys gerllaw dylid cymryd bod y Fadfall Ddŵr Gribog yn bresennol a mabwysiadu methodoleg a chamau lliniaru priodol. Yn ogystal, rhoddir Mesurau Osgoi Rhesymol ar waith i ddiogelu unrhyw ymlusgiaid ac amffibiaid a allai fod yn bresennol yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae'r bwriad yn golygu tynnu darn byr o wal sy'n debygol o gael effaith leol ar ystumod sy'n chwilio am fwyd. Argymhellir amod yn gofyn am welliannau cysylltedd i leddfu'r effaith.

**Gwasanaethau Amgylcheddol** Yn ôl geiriad yr amod cynllunio mewn perthynas â Chynllun Ysgellog, sef cynllun sydd wedi'i ganiatáu, mae hawl gan y datblygiad i gynhyrchu sŵn hyd at y lefel a ganiateir. Mater iddyn nhw yw a fyddant yn gwneud hynny ond rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol roi sylw i'r lefel lawn a ganiatawyd. Pan gaiff y lefelau a ganiateir eu hystyried mae'r datblygiad Cam 1 yn meddiannu'r cyfan o'r lle ar gyfer sŵn a awgrymir gan yr ymgeisydd yn yr asesiad sŵn diweddaraf. Nid oes mwy o le ar gael oni bai bod datblygiad Cam 1 yn ildio rhywfaint o'i sŵn y rhoddwyd caniatâd iddo. Heb drefniant o'r fath nid ystyrir ei fod yn bosib gweithredu'r cyfyngiadau cynllunio arfaethedig a ddyfynnir yn nhabl 10.4 y Bennod Sŵn yn y Datganiad Amgylcheddol.

Mewn perthynas â modylu osgledau, ar hyn o bryd mae'r awdurdod lleol yn asesu cwyn o fodylu osgledau yng nghyswllt datblygiad Ysgellog 1. Sefydlwyd y modylir osgledau mewn tri eiddo o amgylch y safle a cheir cyfnod o fonitro ar y cyd gyda'r datblygwr. Nid ystyrir bod modd ymdrin â modylu osgledau gydag amod cynllunio sy'n cynnwys cosb donyddol o 3-5dB gan nad oes lle i gynnwys y gosb donyddol.

I gloi, argymhellir gwrthod caniatâd am y rhesymau a ganlyn:

-Nid yw'r ymgeisydd wedi dangos y bydd y sŵn cronol o'r datblygiad yn cydymffurfio â'r ddogfen ETSU-R-97 o gofio'r lefelau a ganiatawyd sydd eisoes wedi'u defnyddio gyda datblygiad Cam 1 Ysgellog. Gallai'r farn hon gael ei diwygio pe câi'r lefelau a ganiatawyd yn natblygiad Cam 1 eu newid i gynnwys y datblygiad ychwanegol.

- Mae yno faterion modylu osgledau sydd heb eu datrys yn natblygiad Cam 1 a byddai'n amhriodol i'r awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd am ddatblygiad pellach a allai arddangos problemau tebyg. Gallai'r farn hon gael ei diwygio mewn amser pe câi'r mater ei datrys yn ddigonol.

Yn dilyn cyflwyno ac asesu gwybodaeth ychwanegol Ategodd Adain y Gwasanaethau Amgylcheddol mewn memo 12.11.1 bod y rhesymau uchod dros wrthod yn dal yn berthnasol.

Nid yw'r **Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol** yn gwrthwynebu'r cais.

**Cyfoeth Naturiol Cymru** - nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n gwrthwynebu'r bwriad ac mae o'r farn bod y bwriad yn annhebygol o gael effaith andwyol ar yr isod:

### **Rhywogaethau a Warchodir**

Ystumod - O ystyried na nodir llawer o ystumod ar y safle mae Cyfoeth Naturiol Cymru o'r farn nad yw'r bwriad yn debygol o fod yn niweidiol i waith cynnal Statws Cadwraeth Ffatriol unrhyw

boblogaeth(au) o ystlumod

**Y Fadfall Ddŵr Gribog** - Er mwyn sicrhau nad yw'r datblygiad yn cael unrhyw effaith andwyol ar statws cadwraeth ffafriol poblogaeth y Fadfall Ddŵr Gribog, rydym yn gofyn bod amod ynghlwm wrth unrhyw ganiatâd ynllunio sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno Strategaeth Mesurau Osgoi Rhesymol.

### **Tirluniau a Warchodir**

Bydd y tyrbin yn weladwy o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn. Gwarchod a gwella harddwch naturiol yw dibenion statudol yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Bydd y bwriad hefyd yn weladwy o Dirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Amlwch a Mynydd Parys. Er nad yw hwn yn ddynodiad statudol, noda pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru ei fod yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio a rhaid rhoi sylw priodol iddo wrth ddod i benderfyniad.

Mae gan y bwriad y potensial i gael effeithiau cronol ar fuddiannau tirlun lleol a / neu ranbarthol

### **Perygl Llifogydd**

Bydd y ffordd fynediad yn croesi parth llifogydd. Y bwriad yw cael croesfan math ceuffos a bydd raid cael caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru ar ei chyfer.

**CADW**- rydym wedi ystyried yn ofalus y dogfennau a gyflwynwyd ac rydym o'r farn nad ydynt yn dadansoddi digon ar effaith y bwriad ar yr henebion rhestredig a nodwyd ynghynt yn ein llythyr dyddiedig 29 Ebrill 2014 ac y gallai'r effaith ar leoliad Maen Hir Boderwyd fod yn andwyol. Rydym o'r farn, fodd bynnag, nad oes fyth ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad da a rhesymegol sy'n rhoi sylw priodol i'r effaith ar archeoleg sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. O'r herwydd, mae Cadw'n argymhell bod eich awdurdod yn gofyn i'r ymgeisydd ddarparu ffotogyfosodiadau o'r cyd-destun a manylion troi'r bwriad ar ei ben ac ail-ymgyngori â Cadw ynghylch y canfyddiadau.

**Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd** - Yn argymhell gwrthod y cais. Nid yw'r crynodeb a gyflwynir ym Mhennod 11 y Datganiad Amgylcheddol yn dangos pam y dylid ystyried y potensial ar gyfer archeoleg cynhanesyddol fel un isel nac ychwaith yn cyfiawnhau hepgor arolwg geoffisegol. Byddwn yn eich cyfeirio at fy sylwadau blaenorol a nodwyd yn fy ymateb cwmpasu, dyddiedig 9 Hydref 2013. Mae'r wybodaeth hon yn parhau'n ofynnol fel bod modd cael asesiad cytbwys o'r adnodd archeolegol claddedig ar y safle ac effaith bosibl y cynllun arno, ac, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru 2014 a Chylchlythyr 60/96 y Swyddfa Gymreig (Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg), dylid ei chyflwyno cyn gwneud penderfyniad cynllunio.

Mae effeithiau posibl y cynllun ar leoliad ardaloedd a ddynodir yn statudol ac anstatudol wedi cael eu hasesu'n fanwl yn y Datganiad Amgylcheddol. Ar sail y wybodaeth a ddarperir, nid yw Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd yn gallu cytuno â chasgliadau'r bennod Treftadaeth Ddiwylliannol na fydd effeithiau ar y lleoliad yn sylweddol.

I gloi, ystyrir y byddai'r cynllun arfaethedig yn cynyddu'r effaith niweidiol ar leoliad maen hir Boderwyd a'r grŵp o adeiladau hanesyddol ym Moderwyd i raddau annerbyniol. Yn wyneb hyn a chan nad oes digon o wybodaeth i benderfynu ar effaith ffisegol bosibl y cynllun ar archeoleg, argymhellir gwrthod caniatâd cynllunio.

Os rhoddir caniatâd cynllunio yn groes i'r argymhelliad, yr argymhelliad yw gosod amod archeolegol sy'n ei gwneud yn ofynnol cael gwneud gwaith penodedig cyn dechrau adeiladu.

**Y Weinyddiaeth Amddiffyn** - gwrthwynebodd y datblygiad yn wreiddiol ym mis Ebrill 2014 oherwydd

yr effaith ar awyrennau milwrol oedd yn hedfan yn isel ac oherwydd y byddai'r tyrbinau'n tarfu'n annerbyniol ar y radar yn Awyrlu Brenhinol y Fali.

Ym mis Mai tynnodd y Weinyddiaeth Amddiffyn ei gwrthwynebiad yn ôl o ran yr effaith ar yr awyrennau oedd yn hedfan isel ar yr amod y ceid amod yn gofyn am oleuadau coch 200 candela yn goleuo i bob cyfeiriad a hynny ar bwynt ymarferol uchaf y tyrbinau arfaethedig ac i wybodaeth gael ei chyflwyno ynghylch dyddiadau adeiladu, cyfnod y gwaith ac uchder yr offer adeiladu.

Ym mis Tachwedd 2014 tynnodd y Weinyddiaeth Amddiffyn ei gwrthwynebiad yn ôl o ran tarfu ar y radar yn Awyrlu Brenhinol y Fali a hynny yn sgil cyflwyniad technegol gan yr ymgeisydd a'r gofyn am amod cynllunio i liniaru'r effaith ar y system radar. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae'r ymgeisydd wedi derbyn cais i gyflwyno'r cyflwyniad technegol i'r awdurdod cynllunio lleol fel y gellir gwneud penderfyniad ynghylch a ellir argymhell amod cynllunio i ddelio â'r mater hwn yn foddhaol.

**Swyddfa dros Reoli Niwclear** - Dim gwrthwynebiad.

**Dŵr Cymru** – dim gwrthwynebiad.

Mae **Arqiva** yn gyfrifol am ddarparu rhwydwaith ddarlledu'r BBC ac ITV, ac am sicrhau cyflwr Cysylltiadau Aildarlledu a hefyd am warchod ei rwydweithiau microdon. Rydym wedi ystyried a yw'r datblygiad yma'n debygol o gael effaith niweidiol ar ein gweithrediadau ac wedi dod i'r casgliad nad oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r cais hwn.

Daeth 255 o wrthwynebiadau i law am y rhesymau a ganlyn:

- Mae'r ardal yn llawn tyrbinau.
- Yr effaith weledol ar y tirlun.
- Graddfa ddiwydiannol a drychiad cymharol y tyrbinau arfaethedig.
- Effaith gronol a'r ffaith fod yr ardal yn llawn tyrbinau gwynt.
- Effaith niweidiol ar dwristiaeth.
- Sŵn.
- Effeithiau iechyd yn sgil is-sain amledd isel. Mae Cyngor Sir Ynys Môn eisoes yn ymchwilio i gwynion am sŵn modylu osgledau mewn eiddo preswyl yn agos at Fferm Wynt weithredol Ysgellog.
- Un cwpl yn dweud bod eu mab yn dioddef o "Syndrom Williams" ac yn esbonio sut y bydd y sŵn o'r datblygiad yn gwaethygu'r cyflwr. Mae ysgrifenydd eraill hefyd yn cyfeirio at faterion meddygol y mae cymdogion yn eu dioddef yn ogystal ag iechyd cyffredinol a lles y boblogaeth leol.
- Dylai tyrbinau ar y raddfa hon fod ar y môr.
- Effaith goleuadau rhybuddio coch y tyrbinau ar ddiogelwch priffyrdd, preswyl a mwynderau gweledol
- Pa mor agos ydynt at eiddo preswyl; dywedwyd bod hyn yn groes i ddarpariaethau yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol y cyngor ar Dyrbinau Gwynt ar y Tir.
- Wrth ystyried apêl ym Moderwyd nododd yr Arolygiaeth "Byddai trigolion ... yn cael eu hamgylchynu bron, a hynny'n agos, gan dyrbinau gwynt, byddai'r bwriad yn arwain at ganfyddiad o fyw mewn tirlun tyrbinau gwynt." Dywed ysgrifenydd eraill y byddai'r tyrbinau arfaethedig yn cysylltu â thyrbinau presennol yn Ysgellog, Rhyd y Groes, Tai Hen a chyda'r 76 o dyrbinau a ganiatawyd o fewn radiws o 5 cilomedr gan arwain at drigolion yn byw mewn amgylchedd sy'n cael ei hawlio gan dyrbinau.
- Rhesymau ecolegol ac adaregol - ymhlith y rhywogaethau y cyfeirir atynt mae'r bwncath, yr ystlum lleiaf, y wrenol, y Fadfall Ddŵr Gribog, y Neidr Defaid, y Lllyswen, y wiber a'r dyfrgi.
- Perygl i eiddo preswyl cyfagos pe byddai'r tyrbinau yn mynd ar dân.
- Bydd y tyrbinau yn llai na 2 cilomedr o Eglwys restredig Gradd 2 Sant Peirio ac o'r olion archeolegol eraill a restrir yn y gwrthwynebiad.
- Mae Fferm Wynt weithredol Ysgellog yn llai na 350m i ffwrdd y tu mewn i'r ardal ragod a nodir yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Ynys Môn. Dylai hyn fod yn ddigon i wrthod y cais.
- Nid yw Ynys Môn yn un o'r saith Ardal Chwilio Strategol yng Nghyfarwyddyd Nodyn Cyngor Technegol 8 Cynulliad Cymru. Mae eisoes dau dyrbinau mawr ar Fferm Wynt weithredol

Ysgellog ac ar Fferm Wynt Rhyd y Groes i'r gogledd. Fferm wynt fasnachol arall a gafwyd yn llechwraidd yw'r bwriad yma ac fel y cyfryw mae y tu allan i ganllawiau Nodyn Cyngor Technegol 8. Yn ôl adran 2.7: "Cafodd ardaloedd mawr o Gymru eu heithrio rhag cael eu hystyried fel ardaloedd chwilio strategol gan nodweddion sy'n lliniaru yn erbyn datblygiadau pŵer gwynt mwy o faint. Yn benodol felly, byddai bwriadau pŵer gwynt mawr mewn parc cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn groes i bolisi cynllunio sydd wedi hen ennill ei dir."

- Fflach Gysgodol.
- Gostyngiad posibl yng ngwerth eiddo preswyl yn y cyffiniau.
- Mae'r hyn a gynhyrchir gan y tyrbîn yn ormod i'r tîrfeidiannwr ei ddefnyddio a bydd yn rhaid iddo gael ei allforio gan ddefnyddio'r Grid Cenedlaethol.
- Dim ond y perchennog tir sy'n elwa o'r datblygiad.
- Bydd Celtic Array yn darparu cannoedd o dyrbînau ar y môr. Mae ysgrifennwr arall yn cyfeirio at effeithiau gweledol y seilwaith cysylltiedig a fwriadwyd yn flaenorol yn Rhos-goch mewn cysylltiad â bwriad Celtic Array.
- Bydd y tyrbînau yn weladwy ac yn cael effaith ar yr AHNE a Mynydd Parys.
- Mae'r tyrbînau'n rhy agos at ffordd Seiclo Genedlaethol a Hawl Dramwy Gyhoeddus.
  - Materion gweithdrefnol mewn perthynas â pham nad oedd y cais cynllunio wedi'i restru ar wefan y cyngor na'r lleoliad a ddisgrifir fel Plas Boderwyd
- Roedd y swyddogion yn argymhell gwrthod Fferm Wynt weithredol wreiddiol Ysgellog.
  - Arweiniodd gwaith adeiladu Fferm Wynt weithredol Ysgellog at darfu'n sylweddol ar y rhwydwaith ffyrdd
- Mynegwyd mai ynni llanw fyddai'r dewis ynni.
- Dylid cael manylion llawn datgomisiynu cyn cymeradwyo caniatâd cynllunio.

30 llythyr wedi dod i law yn cefnogi am y rhesymau a ganlyn:

- Manteision i'r economi a'r gymuned leol, cronfa budd cymunedol o £20,000 ar amcan dros 25 mlynedd.
- Mae tyrbînau yn cynhyrchu ynni gwyrdd / adnewyddadwy heb unrhyw gynhyrchion gwastraff peryglus ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol ac yn cwrdd â thargedau ynni carbon isel Llywodraeth Cymru.
- Rhagwelir y bydd y prosiect yn cynhyrchu 12,700,000 cwH o drydan bob blwyddyn, sy'n cyfateb i anghenion tua 3,000 o gartrefi cyffredin y DU bob blwyddyn.
- Mae cyflymder gwynt ar Ynys Môn yn addas ar gyfer ynni gwynt.
- Honiadau wedi eu gwneud o ran potensial cywirdeb cofnodi lefelau sŵn cefndir.
- Cynllun diogel na fydd yn cael effaith ar fwynderau'r ardal na'r amgylchedd.
- Yn weledol, mae eisoes dau dyrbîn yno; ni fydd dau dyrbîn arall yn cael fawr ddim effaith ar y tirlun.
- Mae'r tyrbînau'n ddigon pell i ffwrdd oddi wrth yr aneddiadau agosaf ac felly ni ddylid cael fawr ddim aflonyddu.
- Gallai ddod yn atyniad i dwristiaid.
- Cyfrannu at arallgyfeirio amaethyddol ac incwm.
- Mae cynsail wedi ei osod gyda Fferm Wynt weithredol Ysgellog
- Mynegwyd ynni gwynt yn ddewis ynni yn hytrach na niwclear neu nwy.

## 5. Hanes Cynllunio Perthnasol

Mae'r ceisiadau a ganlyn yn ymwneud â Fferm Wynt weithredol Ysgellog:

**11C557/SCR** Barn sgrinio ar gyfer gosod dau dyrbîn 10m o uchder. Nid oes gofyn am Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd 19.08.10

**11C557A** Codi mast tywydd 60m. Wedi'i ganiatáu gydag amodau 15.09.10

**11C557B** Codi dau dyrbîn gwynt gyda diamedr y rotor hyd at 71 metr ac uchder at ben y llafrn hyd at 92.5 metr. Hefyd codi is-orsaf ac adeilad rheoli, trac mynediad newydd a llecynnau caled a datblygiadau cysylltiedig. Wedi'u caniatáu gydag amodau 21.06.11

Gwnaed y cais a ganlyn yng nghyswllt y tyrbînau y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â nhw:

**38C301/RE/SCO** Barn gwmpasu a gyflwynwyd 13.01.14.

## **6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

### **Cyflwyniad**

Rhodddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer Fferm Wynt weithredol Ysgellog 21.06.11. Dengys adroddiad y pwyllgor ar y cais cynllunio mai gwrthod oedd argymhelliad y swyddogion oherwydd y tirlun a'r effaith ar leoliad yr adeilad rhestredig gradd II\*. Penderfynodd yr Aelodau ganiatáu'r cais yn groes i argymhelliad y swyddog.

### **Ystyriaethau polisi mewn perthynas ag Ynni Adnewyddadwy**

Mae'r cynllun datblygu a pholisïau cynllunio eraill o bwys yn y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd yn cynnwys polisïau C7 Cynllun Fframwaith Gwynedd, 45 Cynllun Lleol Ynys Môn ac EP 18 y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd. Mae'r polisïau hyn yn dyddio'n ôl cyn dyddiau'r canllawiau cynllunio cenedlaethol mwy diweddar ond maent yn caniatáu datblygiadau ynni adnewyddadwy ar yr amod y caiff yr ystyriaethau a restrwyd eu hasesu'n dderbyniol. Ymhlith yr ystyriaethau mae effaith ar yr ardal leol, tirlun, ecoleg, mwynder twristiaid a thrigolion yn hanfodol; gwasanaethau cyhoeddus a chyfathrebu

Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru (2014) ac yng Nghyngor Technegol 8 (2005). Ym Mholisi Cynllunio Cymru (2014) ceir y polisïau cynllunio cenedlaethol diweddaraf mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy a datblygiadau carbon isel sy'n rhoi targedau diwygiedig a chefnogaeth gref i ddatblygiadau ynni adnewyddadwy. Yr un pryd, tynnir sylw at y ffaith bod yn rhaid ystyried yr effaith bosibl ar dreftadaeth naturiol, arfordir, amgylchedd hanesyddol ac ar gymunedau lleol unrhyw gynllun.

Byddai gan y datblygiad y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag o allbwn o 4.6 MW ac yn cyfrannu at darged y DU o gynhyrchu 15% o ynni o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2020 fel y nodir yn 12.8.1 Polisi Cynllunio Cymru. Yn ogystal, dywed adran 12.8.2 Polisi Cynllunio Cymru "...Dylai polisïau cynllunio ar bob lefel hwyluso cyflawni Datganiad Polisi Ynni cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad, a thargedau'r DU ac Ewrop ar ynni adnewyddadwy..."

Mae adran 12.10.1 Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn tynnu sylw at faterion y dylai'r awdurdod cynllunio lleol eu cymryd i ystyriaeth wrth ddelio gyda datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a'r isadeiledd cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys yr agweddau cadarnhaol megis cyfrannu at gwrdd â thargedau cenedlaethol y DU ac Ewrop a buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach.

Rhoddir cefnogaeth ym mharagraff 12.9.9 Polisi Cynllunio Cymru i brosiectau maint is-awdurdod lleol ledled Cymru (a ddiffinnir fel rhwng 50kW a 5MW) ac y byddai o bosib gyfleoedd ar safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol (paragraff 12.9.7). Ceir eglurhad pellach yn Nodyn Cyngor Technegol 8 gyda pharagraff 2.13 sy'n nodi:

"Dylai'r rhan fwyaf o ardaloedd y tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol fod yn rhydd o gynlluniau pŵer gwynt mawr. Efallai y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn dymuno ystyried effaith gronol cynlluniau bach mewn ardaloedd y tu allan i'r Ardaloedd Chwilio Strategol a sefydlu meini prawf addas ar gyfer pellteroedd gwahanu oddi wrth ei gilydd ac oddi wrth berimedr cynlluniau ynni gwynt presennol neu'r Ardaloedd Chwilio Strategol. Yn yr ardaloedd

hyn, mae cydbwysedd i'w daro rhwng y dymuniad i gael ynni adnewyddadwy a diogelu'r tirlun. Er na ddylai'r cydbwysedd hwnnw arwain at gyfyngiad difrifol ar ddatblygu capasiti ynni gwynt, mae achos

dros osgoi sefyllfa lle mae tyrbinau gwynt yn cael eu lledaenu ar draws y sir gyfan. O ganlyniad, byddai Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi awdurdodau cynllunio lleol wrth gyflwyno polisiâu lleol yn eu cynlluniau datblygu sy'n cyfyngu ar bron bob datblygiad ynni gwynt, sy'n fwy na 5MW, i ardaloedd chwilio strategol a safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol. Mae'n dderbyniol mewn amgylchiadau o'r fath y gallai caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau dros 5MW y tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol a safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol gael eu gwrthod. "

Fel y manylir yn adran ymgynghori'r adroddiad hwn yn Sylwadau'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol: Gwynt ar y Tir yn ystyriaeth berthnasol ac yn ategu'r cynllun datblygu ac ystyriaethau polisi cynllunio eraill o bwys. Mae hefyd yn adlewyrchu cyngor mewn polisiâu cynllunio cenedlaethol mwy diweddar ac ym mharagraff 6.16 mae'n cynnwys amod y dylid cyfyngu datblygiadau ynni gwynt newydd i allbwn o ddim mwy na 5MW.

Byddai'r datblygiad y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag o'n cynhyrchu 4.6mw, ond os caiff ei gyfuno â Fferm Wynt weithredol Ysgellog byddai hyn yn cyfateb i oddeutu 9.2mw. Byddai mynediad at y datblygiad y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag o drwy Fferm Wynt weithredol Ysgellog a byddai'r trac mynediad y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag o'n cael ei gynnwys ac yn estyniad o hynny. Byddai'r cysylltiad grid presennol ar gyfer fferm wynt weithredol Ysgellog hefyd yn gwasanaethu'r datblygiad y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag o. O gofio hefyd pa mor agos yw'r ddau ddatblygiad a maint cymharol y tyrbinau arfaethedig ystyrir ei bod yn rhesymol y dylid cyfrifo allbwn ynni cronol Fferm Wynt weithredol Ysgellog a thyrbinau arfaethedig y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â nhw yn gronol. Yn hyn o beth, byddai allbwn yr ynni cyfunol yn fwy na'r trothwy 5MW yn Nodyn Cyngor Technegol 8 a'r Canllawiau Cynllunio Atodol.

Bwriad y polisi yw diogelu cymeriad a golwg y tirlun rhag datblygiadau ffermydd gwynt a'r agwedd hon ar y datblygiad arfaethedig.

Mae paragraff 12.10.1 hefyd yn rhestru meini prawf eraill y dylid eu hasesu wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac mae'r canlynol yn cael eu hystyried o bwys yn yr achos hwn:

- yr effaith ar y dreftadaeth naturiol (gweler Adran 5.5), yr arfordir (gweler Adran 5.6) a'r amgylchedd hanesyddol (gweler Adran 6.5);
- yr angen i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol er mwyn diogelu ansawdd bywyd cenedlaethau heddiw ac yfory;
- ffyrdd o osgoi neu liniaru effeithiau andwyol a nodwyd, neu i wneud yn iawn amdanynt;

Caiff yr ystyriaethau hyn hefyd eu hasesu'n fanwl mewn adran sy'n dilyn yn yr adroddiad pwyllgor hwn.

### **Yr Effaith Weledol ar y Tirlun**

Byddai'r bwriad o fewn ardal a ddynodir yn Ardal Tirlun Arbennig, mae'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ("AHNE") i'r gogledd, i'r dwyrain ac i'r gorllewin o'r tyrbinau arfaethedig. Mae'r manylion a gyflwynwyd efo'r cais yn dangos bod yr AHNE ar y pwynt agosaf 2.6 cilometr i'r gogledd a bod Mynydd Parys sydd yn yn dirlun hanesyddol 2.5 cilometr i'r dwyrain o'r datblygiad arfaethedig.

Yn fras mae'r gwybodaeth ychwanegol cyflwynwyd efo'r cais yn dangos y caiff yr effaith gyffredinol ar y tri lleoliad agosaf ei hystyried yn sylweddol yn enwedig ym Moderwyd, a bod yr effeithiau fel y'u disgrifir yn ychwanegu at effeithiau sydd eisoes yn sylweddol o Fferm Wynt weithredol Ysgellog. Nid yw'r effeithiau ar y tirlun yn cael eu rhagweld fel rhai sylweddol os y tu draw i 2 cilometr. Asesiad yr awdurdod cynllunio lleol yw bod effeithiau sylweddol ddim yn gyfyngedig i 2 cilometr yn enwedig mewn perthynas â chyfuniad o dderbynyddion tirlun sensitif megis yr AHNE a Mynydd Parys. Yn



bellach o ran tirlun ac ar sail gronnol byddai'r datblygiad yn cyfrannu at newid sylweddol pellach yn y tirlun.

Mae'n berthnasol bod Arolygwr yn yr un modd wedi dod i'r casgliad a ganlyn mewn penderfyniad apêl diweddar mewn perthynas â thyrbîn 67 metr o uchder yn Fferm Rhosbeirio, Rhos-goch "... rwyf o'r farn y byddai presenoldeb y datblygiad yn y tirlun, ynghyd â'r tyrbînau gweithredol a ganiateir yn Rhyd y Groes, Ysgellog a Tai Hen, yn cael effeithiau sylweddol ac andwyol ar yr olygfa". Ymhlith y ffactorau a barodd i'r apêl hon gael ei hystyried yn annerbyniol oedd y byddai'r tyrbîn yn ychwanegu'n sylweddol at ganfyddiad o dirlun sy'n cael ei hawlio gan dyrbinau.

I gloi, ystyrir y byddai'r bwriad yn ychwanegu at effeithiau gweledol ar y tirlun sydd eisoes yn effeithiau sylweddol ac yr ystyrir hyn yn annerbyniol. At hyn, nid oes gan yr ardal y lle ar gyfer rhagor o dyrbinau fel y'u bwriedir. Fel yr eglurwyd yng nghyflwyniad yr adroddiad pwyllgor, roedd swyddogion yn gwrthwynebu cais cynllunio 11C557B, sef Fferm Wynt weithredol Ysgellog, am resymau'n ymwneud â'r tirlun.

## **Sŵn**

Mae'r cais wedi cael ei asesu gan Wasanaethau Amgylcheddol y Cyngor fel y disgrifir yn adran ymgynghori'r adroddiad hwn ac mae dau fater o ran sŵn.

## **Cyfyngiadau sŵn**

Mae hyn yn ymwneud â lefelau a lwfans sŵn absoliwt uwchben lefel sŵn cefndir presennol yr holl dyrbinau gwynt yn yr ardal wedi'u hystyried yn gronnol.

Yn ôl geiriad yr amod cynllunio mewn perthynas â Chynllun Ysgellog a ganiatawyd (11C557B), mae gan Fferm Wynt weithredol Ysgellog hawl i gynhyrchu sŵn hyd at y lefel a ganiateir. Mater iddyn nhw a fyddant yn gwneud hynny ai peidio ond mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol roi sylw i'r lefel a ganiatawyd yn llawn. Pan gaiff y lefelau a ganiateir eu hystyried mae'r datblygiad Cam 1 yn meddiannu'r cyfan o'r lle ar gyfer sŵn a awgrymwyd gan yr ymgeisydd yn yr asesiad sŵn diweddaraf. Nid oes rhagor o le ar gael oni bai bod datblygiad Cam 1 yn ildio rhywfaint o'i sŵn y rhoddwyd caniatâd iddo. Heb drefniant o'r fath nid ystyrir ei fod yn bosib gweithredu'r cyfyngiadau cynllunio arfaethedig a ddyfynnir yn yr adroddiadau sŵn a gyflwynwyd ac nid yw'n bosibl gosod amod cynllunio i liniaru lefelau sŵn i lefel dderbyniol.

## **Modylu Osgledau**

Ar hyn o bryd mae'r awdurdod lleol yn asesu cwyn o fodlyu osgledau yng nghyswllt datblygiad Ysgellog Mae hyn yn deillio o sŵn erodynig y llafn tyrbîn gwynt y cyfeirir ato weithiau fel " sŵn slaes" neu "sŵn dyrnu". Mae hwn yn ffenomen gymhleth a gall y ffactorau sy'n arwain at y sŵn fod yn gymhleth.

Sefydlwyd y modylir osgledau mewn tri eiddo o amgylch y safle a cheir cyfnod o fonitro ar y cyd gyda'r datblygwr. Ar hyn o bryd mae'r cyngor yn edrych i mewn i'r mater hwn o dan y drefn niwsans statudol ond mae'r broblem yn parhau heb ei datrys. Gan fod mater o fodlyu osgledau heb ei datrys yn fferm wynt weithredol Ysgellog, byddai'n amhriodol i'r awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd am ddatblygiad pellach a allai arddangos problemau tebyg ac nid ystyrir y gellir argymhell amod cynllunio i liniaru'r mater yn foddhaol. Er y gellid adolygu'r farn hon mewn amser pe câi'r mater ei ddatrys yn foddhaol, nid adeg paratoi'r adroddiad hwn yw hynny.

Mae gwrthwynebiadau hefyd wedi'u derbyn ar sail effeithiau iechyd is-sain nad oes modd ei glywed. Dengys cyngor gan Gyfres Gwybodaeth am Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Dyrbinau Gwynt (26 Ionawr 2012) bod astudiaethau yn dangos nad yw tyrbinau gwynt yn ffynonellau is-sain sylweddol neu sŵn amledd isel.

### **Lleoliad yr Adeilad rhestredig**

Fel yr eglurwyd yn y cyflwyniad i'r adroddiad pwyllgor hwn gwrthwynebwyd i Fferm Wynt weithredol Ysgellog oherwydd yr effaith ar Blas Boderwyd.

Mae adran 66 (1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Deddf Ardaloedd Cadwraeth ac Adeiladau Rhestredig 1990) yn datgan y bydd yr awdurdod cynllunio yn rhoi ystyriaeth arbennig i ba mor ddymunol yw cadw'r adeilad neu ei leoliad neu unrhyw nodweddion pensaernïol arbennig neu ddiddordeb hanesyddol sydd ganddo wrth ystyried rhoi caniatâd cynllunio i ddatblygiad sy'n cael effaith ar adeilad rhestredig neu ei leoliad.

Yn ôl paragraff 6.5.9 Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2011) lle mae bwriad yn cael effaith ar adeilad rhestredig neu ei leoliad, yr ystyriaeth berthnasol gyntaf yw'r gofyn statudol i roi ystyriaeth arbennig i ba mor ddymunol yw cadw'r adeilad neu ei gyffiniau neu unrhyw nodweddion pensaernïol arbennig neu ddiddordeb hanesyddol sydd ganddo.

Mae Plas Boderwyd yn adeilad rhestredig gradd II\* ac o ddiddordeb pensaernïol / hanesyddol eithriadol. Mae Gradd I a II\* yn nodi diddordeb pensaernïol neu hanesyddol eithriadol cyfran fechan (7-8%) o'r holl adeiladau rhestredig.

Gwrthwynebir yn awr oherwydd y byddai'r datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar leoliad Plas Boderwyd sy'n radd II\* a'r adeilad rhestredig ar wahân yn y Colomendy y mae'r Swyddog Cadwraeth yn ystyried ei fod yn rhan o leoliad hanfodol Plas Boderwyd.

### **Heneb Gofrestredig**

Mae Maen Hir Boderwyd yn heneb gofrestredig tua 500 metr i'r de o'r tyrbinau arfaethedig. Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd o'r farn y byddai'r datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar osodiad yr Heneb Gofrestredig.. Mae CADW hefyd wedi nodi bod yr effaith ar leoliad Maen Hir Boderwyd o bosib yn andwyol, ac mae gwybodaeth bellach wedi gofyn CADW i ddeall difrifoldeb effaith andwyol hwn. Mae'r ymgeisydd wedi cdarnhau nad ydynt yn bwriadu cyflwyno unrhyw wybodaeth bellach. Ystyrir fellu y byddai'r tyrbinau gwynt arfaethedig yn cael effaith andwyol ar gyffiniau Heneb Restredig Maen Hir Boderwyd.

### **Archaeoleg**

Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd wedi argymhell gwrthod y cais cynllunio oherwydd nad oes gwybodaeth archeolegol i'w gefnogi. Nid ydynt yn ystyried bod y Datganiad Amgylcheddol yn dangos yn ddigonol pam y dylid ystyried y potensial ar gyfer archeoleg cynhanesyddol fel un isel nac ychwaith yn cyfiawnhau hepgor arolwg geoffisegol. Nodant fod angen y wybodaeth hon er mwyn sicrhau bod effaith bosibl y cynllun arfaethedig ar unrhyw adnoddau archeolegol arwyddocaol yn cael ei hasesu yn unol â pholisïau cynllunio o bwys ac ar y sail yma mae'r bwriad yn cael ei ystyriad yn annerbynniol.

## **Mwynder Gweledol Preswyl**

Mae nifer o'r llythyrau gwrthwynebu a dderbyniwyd yn cael eu gwneud ar sail pa mor agos ydi'r tyrbinau at yr eiddo preswyl agosaf, gan gynnwys y pentref a'r ysgol.

Mae Atodiad D TAN 8 yn rhestru'r ffactorau y dylid fel arfer eu hadolygu i ganfod "ardaloedd sy'n dechnegol ddichonadwy" ar gyfer datblygu cynlluniau ynni gwynt ar y tir. Ym mharagraff 3.4, nodir "ar hyn o bryd mae 500m yn cael ei ystyried yn bellter gwahanu nodweddiadol rhwng tyrbinau gwynt ac eiddo preswyl er mwyn osgoi effeithiau sŵn annerbyniol. Fodd bynnag, pan gaiff ei ddefnyddio mewn modd anhyblyg, gall arwain at ganlyniadau ceidwadol ac felly cynghorir rhywfaint o hyblygrwydd"

Mae Canllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor ar dyrbiniau Gwynt ar y Tir yn nodi y dylid bod o leiaf 500m neu 20 gwaith uchder y brig (pa un bynnag yw'r mwyaf) rhwng tyrbinau ar y raddfa hon Mae pwysau cyfyngedig wedi'u priodoli gan Arolygwyr Cynllunio i'r newidiadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod a arweiniodd at y Cyngor yn mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol. Nodir bod y ffaith nad oedd ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y newidiadau ychwanegol, sy'n cynnwys y pellteroedd gwahanu ym mharagraff 7.9.8 a ddisgrifir uchod, yn rheswm am gasgliadau'r Arolygydd o ran y pwysau y gellir eu rhoi i'r agwedd hon o'r Canllawiau Cynllunio Atodol.

Mae'r cais yn cynnwys asesiad o'r effeithiau ar fwynderau preswyl cyfagos. Mae'r tyrbinau arfaethedig tua 660 o fetrau oddi wrth yr annedd agosaf nad oedd â rhan ariannol i'w chwarae yn y bwriad. Er mwyn asesu a yw'r bwriad yn cydymffurfio â'r cynllun datblygu ac ystyriaethau cynllunio eraill o bwys. Mae swyddogion wedi asesu'r effaith ar olygfa'r eiddo hwn ac eiddo eraill sydd o bellter tebyg oddi wrth y tyrbinau arfaethedig. Er ystyried bod maint cyffredinol yr effaith yn sylweddol mewn rhai achosion, nid ystyriwyd ei fod yn cael effaith ar olygfa preswylwyr yn yr un o'r achosion i'r fath raddau ei fod yn llethol ac y dylid gwrthod caniatâd cynllunio.

Mae Atodiad C Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi cyngor ar Fflach Gysgodol a Golau a Adlewyrchir. Cafwyd nad yw fflach gysgodol ond yn digwydd mewn adeiladau sydd hyd at 10 diamedr rotor oddi wrth dyrbin ac o fewn 130 gradd naill ochr a'r llall i'r gogledd yn y lledredau hyn yn y DU. Cyflwynwyd asesiad o fflachiadau cysgodol gyda'r cais cynllunio ac mae hwn yn cadarnhau ei bod yn bosib i bum eiddo weld effaith y tyrbinau gwynt arfaethedig. Nodwyd ei bod yn bosib i'r pum eiddo brofi mwy na 30 munud o fflachiadau cysgodol y dydd, gyda dau eiddo (a'r ddau ohonynt â rhan ariannol i'w chwarae yn y bwriad) yn profi mwy na 30 awr o fflachiadau cysgodol mewn un flwyddyn galendr. Ac eithrio'r ddau eiddo oedd â rhan ariannol i'w chwarae yn y bwriad, mae'n amcangyfrif y gallai fflachiadau cysgodol gael effaith ar dri eiddo preswyl am dair awr ar ddeg y flwyddyn ar gyfartaledd. Wrth benderfynu ar apeladau cynllunio, ystyrir bod modd lliniaru hyn yn foddhaol gydag amod cynllunio sy'n gofyn am gynllun lliniaru.

## **Y Weinyddiaeth Amddiffyn**

Er bod y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi gwrthwynebu'r cais yn wreiddiol, mae hi bellach yn argymhell caniatáu gydag amodau. Ymhlith yr amodau a argymhellir, mae gofyn am gael gosod goleuadau rhybuddio awyrennau fydd yn debyg i'r goleuadau sydd ar Fferm Wynt weithredol Ysgellog a bod dull technegol yn gael ei gyflwyno i ymdrin â'r tarfu posib ar radar amddiffyn yr awyr.

## **Ecoleg**

Mae'r bwriad yn golygu gwneud i ffwrdd â rhan fach o wal sydd yn debyg o gael effaith yn lleol ar ystlumod yn chwilio am fwyd. Mae Ymgynghorydd Ecolegol ac Amgylcheddol y Cyngor wedi dweud bod hyn yn foddhaol gyda chamau lliniaru ar ffurf gwelliannau cysylltedd. Yn yr un modd, mae

Cyfoeth Naturiol Cymru yn hapus bod modd lliniaru effaith y datblygiad ar rywogaethau a warchodir a rhywogaethau eraill trwy osod amodau.

## **Materion Eraill**

O safbwynt darpariaethau'r Canllawiau Cynllunio Atodol (a fabwysiadwyd ym mis Ionawr 2013), mae'r materion a ganlyn bellach yn bwysig mewn perthynas â'r cais :

- Ymgysylltu Cymunedol – mae'r ymgeiswyr wedi cyflwyno datganiad ymgysylltiad cymunedol fel rhan o'u datganiad Cefnogi Cynllunio ac mae hyn yn cael ei ystyried yn ddigonol yn ôl gofynion y Canllawiau Cynllunio Atodol.
- Anghenraid ffurfiol i gael cytundeb ar gyfer datgomisiynu'r safle – ychwanegwyd hyn at y Canllawiau Cynllunio Atodol ac ni ymgynghorwyd yn ffurfiol yn ei gylch ac fel yr eglurwyd ynghynt, o'r herwydd, ychydig o bwys yn unig y mae modd ei roi iddo. Yn adran 12.10.6 mae Polisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio at yr angen i ystyried peirianwaith i lliniaru effeithiau gan gynnwys datgomisiynu. Yn yr achos hwn, ystyrir y byddai amod cynllunio'n foddhaol ar gyfer dau tyrbîn o'r maint hwn.
- Budd Cymunedol a Chyfraniad y Datblygwr. Yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 8 mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ei gwneud yn glir - lle ei bod yn briodol - y dylai datblygwyr gysylltu'n uniongyrchol gyda chymunedau lleol ynglŷn â'r budd cysylltiol i'r gymuned, yn hytrach na chysylltu gyda'r Cyngor. Ni fydd y Cyngor yn ystyried a fydd cymunedau lleol yn cael cyfraniad ai peidio wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio.

Mae'r ymgeiswyr wedi nodi mai'r cysylltiad presennol â Fferm Wynt weithredol Ysgellog fydd y pwynt cysylltu â'r grid trydan cenedlaethol.

## **7. Casgliad**

I gloi, mae nifer o wrthwynebiadau i'r ddatblygiad fel a ganlyn:

1.Ystyriaethau polisi cenedlaethol a lleol y bwriedir iddynt warchod cymeriad ac edrychiad y dirwedd rhag ffermydd gwynt. Ymhellach, ystyriwyd y byddai'r datblygiad yn ychwanegu at yr effeithiau sylweddol mewn ardal sydd, fe ystyrir , eisoes yn orlawn o ddatblygiadau tyrbînau gwynt.

2.Niwed annerbyniol i'r ardal o gwmpas adeilad rhestredig graddfa II\* yn Plas Bodewryd.

3.Ni fedrir lliniaru lefelau'r sŵn i lefel dderbyniol.

4.Mae mater mewn perthynas â modlyiad chwyddiad sŵn yn parhau i fod heb ei datrys yn y fferm wynt yn Ysgellog sydd eisoes yn weithredol ac o'r herwydd, byddai'n amhriodol i ganiatáu datblygiad pellach a allai achosi problemau tebyg.

5.Effeith andwyol ar yr ardal o gwmpas Heneb Maen Hir Bodewryd sydd wedi ei Chofrestru.

6.Ni fu modd dangos na fydd y datblygiad arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar weddillion archeolegol o arwyddocâd sylweddol.

## **8. Argymhelliad**

**Gwrthod** caniatâd cynllunio am y rhesymau a ganlyn:

(01) Mae'r datblygiad arfaethedig y tu allan i Ardal Chwilio Strategol a chyda'i gilydd mae'r allbwn ynni gyda Fferm Wynt weithredol Ysgellog yn fwy na'r trothwy 5 mw yn Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2008) a Datblygiadau Ynni Gwynt ar y Tir, Canllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Sir

Ynys Môn (Ionawr 2013 ). Bwriad y polisïau hyn yw diogelu cymeriad a golwg y tirlun rhag datblygiadau ffermydd gwynt. Byddai'r bwriad yn ychwanegu at effeithiau gweledol sylweddol ar y tirlun, a hynny mewn ardal yr ystyrir sydd eisoes yn llawn tyrbinau gwynt. Byddai hyn yn groes i ddarpariaethau'r polisïau hyn.

(02) Nid yw'r ymgeisydd wedi dangos y bydd y sŵn cronol o'r datblygiad yn cydymffurfio â dogfen ETSU-R-97 o gofio'r lefelau a ganiatawyd sydd eisoes yn berthnasol i Fferm Wynt weithredol Ysgellog. Byddai'r lefelau sŵn yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau eiddo preswyl yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig ac yn groes i ddarpariaethau Polisi 1 Cynllun Lleol Ynys Môn, GP1 y Cynllun Datblygu Unedig a Stopiwyd a Pholisi Cynllunio Cymru.

(03) Ceir materion ynghylch modylu osgledau nad ydynt wedi'u datrys gyda Fferm Wynt weithredol Ysgellog a byddai'n amhriodol i'r awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd am ddatblygiad pellach a allai arddangos problemau tebyg. Gallai cymeradwyo bwriad waethygu gwaith modylu osgledau sy'n annerbyniol a chael effaith niweidiol bellach ar fwynderau preswyl eiddo yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig gan fynd yn groes i ddarpariaethau Polisi 1 Cynllun Lleol Ynys Môn, GP1 y Cynllun Datblygu Unedig a Stopiwyd a Pholisi Cynllunio Cymru.

(04) Byddai'r tyrbinau gwynt arfaethedig yn peri niwed annerbyniol i gyffiniau adeilad rhestredig gradd II\*. Byddai hyn yn groes i ddarpariaethau polisïau D22 Cynllun Fframwaith Gwynedd, Polisi 41 Cynllun Lleol Ynys Môn, EN 13 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd, Polisi Cynllunio Cymru (Chwefror 2011) a Chylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig "Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth"

(05) Byddai'r tyrbinau gwynt arfaethedig yn cael effaith andwyol ar gyffiniau Heneb Restredig Maen Hir Boderwyd. Byddai hyn yn groes i ddarpariaethau Polisi D15 Cynllun Fframwaith Gwynedd, 39 Cynllun Lleol Ynys Môn, EN 12 Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd, Polisi Cynllunio Cymru a Chylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig "Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth"


(06) Nid yw wedi'i dangos na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith annerbyniol ar unrhyw weddillion archeolegol o bwys sydd yn bresennol. Byddai hyn yn groes i ddarpariaethau polisïau D15 Cynllun Fframwaith Gwynedd, 39 Cynllun Lleol Ynys Môn, EN 12 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd, Polisi Cynllunio Cymru a Chylchlythyr 60/96 y Swyddfa Gymreig "Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg."

Rhif y Cais: **41C125B/EIA/RE** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Ynys Mon Wind Energy Ltd**

Cais llawn ar gyfer codi tri twrbin wynt 800kW - 900kW gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 55m, diamedr rotor hyd at uchafswm o 52m a uchder blaen unionsyth hyd at uchafswm o 81m, gwelliannau i'r fynedfa presennol i lôn A5025, ynghyd a chodi 3 cabinet storio offer ar dir yn / Full application for the erection of three 800kW - 900kW wind turbines with a maximum hub height of up to 55m, rotor diameter of up to 52m and a maximum upright vertical tip height of up to 81m, the improvements to the existing access to the A5025 road together with the erection of 3 equipment housing cabinets on land at

**Bryn Eryr Uchaf, Porthaethwy**

## **Pwyllgor Cynllunio: 07/01/2015**

### **Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth (NJ)**

#### **Argymhelliad:**

Gwrthod

#### **Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais yn gais AEA y mae'n rhaid ei gyfeirio i'r Pwyllgor benderfynu arno. Yn ychwanegol at hyn, penderfynwyd na fydd pwerau dirprwyedig, lle maent yn berthnasol, yn cael eu defnyddio beth bynnag mewn perthynas â datblygiadau tyrbinau gwynt.

Cyflwynwyd adroddiad i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn Rhagfyr 2013 gan argymhell y dylid ymweld â'r safle cyn penderfynu ar y cais. Ymwelwyd â'r safle ar 18 Rhagfyr 2013.

Mae'r cais wedi cael ei ohirio mewn cyfarfod Pwyllgor ers Ionawr 2014 fel y gallai'r ymgeisydd ymateb i wrthwynebiad a gafwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac mewn perthynas â chyswllt TG i Ysgol Llanddona.

Mae cynigion i liniaru'r sefyllfa o safbwynt ystlumod bellach wedi eu cyflwyno sy'n dderbyniol i CNC gyda rhai amodau a chadarnhawyd gan y Cyngor nad oes angen cyswllt TG i Ysgol Llanddona bellach oherwydd ei bod wedi cau.

#### **1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae safle'r cais yn cynnwys cae amaethyddol a ddefnyddir fel tir pori. Ceir mynediad i'r safle oddi ar yr A5025 ar hyd y trac fferm presennol (wedi ei ledu yn ôl yr angen) a thraciau ychwanegol i waelod y tyrbinau. Cynigir gwella'r fynedfa wrth giât y fferm ynghyd â gwaith llwybr er mwyn sicrhau y gellir cael y cydrannau i mewn i'r safle oddi ar yr A5025.

Mae'r cais yn un am 3 thyrbîn gwynt hyd at 81 metr i flaen fertigol y llafn, 55 metr o uchder i'r hwb a rotor a fydd hyd at 52 metr ar ei draws. Bydd pŵer pob thyrbîn y cyflwynir cais amdano rhwng 800 a 900 kw. Mae'r ES yn amcangyfrif y gallai pob un o'r tyrbinau arfaethedig ddarparu ar gyfer ag anghenion blynyddol cyffredinol domestig 1300 o gartrefi. Y thyrbîn a ddefnyddiwyd i bwrpas yr asesiad yw'r model Gamesa G52 ond ni fyddai'r union wneuthurwr a model ond yn cael eu dewis drwy dendr cystadleuol yn ystod y cyfnod adeiladu. I bwrpas cymharu uchder y strwythurau arfaethedig, mae mast y BBC yn Llanddona yn 106m o uchder a mast Penmynydd yn 40m o uchder.

Mae'r cynnig hefyd yn cynnwys strwythurau cysylltiedig gan gynnwys adeiladau rheoli a ffyrdd mynediad 4.5m – 5m o led ac oddeutu 2.7km o hyd a llecynnau caled (oddeutu 20x40m), isorsaf (6m x 12m x 5.5m) a manylion ar gyfer compownd adeiladu dros dro.

Cefnogir y cais cynllunio gan y manylion isod a gyflwynwyd fel rhan o Ddatganiad Amgylcheddol:

- Rhagarweiniad, dewis safle a disgrifiad o'r prosiect ac asesiad o'r effaith o ran traffig
- Asesiad o'r anghenion, y manteision a'r effaith o safbwynt cymdeithasol-economaid
- Asesiad o'r effaith ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol
- Asesiad ecolegol ac adaregol
- Asesiad treftadaeth ddiwylliannol

- Asesiad hydroleg a hydro-daearegol
- Asesiad sŵn
- Asesiad diogelwch ac isadeiledd

Yn ychwanegol at hyn, mae Asesiad Sŵn pellach, Strategaeth ar gyfer Lliniaru'r Sefyllfa o ran Ystlumod, Strategaeth Lliniaru TG a 'Wireframe' Diwylliannol wedi cael eu cyflwyno i gefnogi'r cynigion.

## **2. Mater(ion) Allweddol**

- Egwyddor y datblygiad
- Tirwedd ac Effaith Weledol
- Amwynder Preswyl.
- Ecoleg

## **3. Brif Bolisiâu**

### **Cynllun Fframwaith Gwynedd**

C7 Ynni Adnewyddadwy

D1 AONB

D3 Ardal Gadwraeth Tirwedd

D22 Adeiladau Rhestredig

### **Cynllun Lleol Ynys Môn**

1 Cyffredinol

30 Tirwedd

31 Tirwedd

32 Tirwedd

35 Diogelu Natur

41 Adeiladau Rhestredig

45 Ynni Adnewyddadwy

### **Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**

GP1 (Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu)

EP 18 Ynni Adnewyddadwy

EN1 Cymeriad y Dirwedd

EN2 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

EN4 Bioamrywiaeth

EN14 Cadwraeth Adeiladau

### **Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 7**

### **Nodyn Cyngor Technegol 5 Cynllunio a Chadwraeth Natur (2009)**

### **Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Gorffennaf 2010).**

### **Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005)**

### **Cylchlythyr 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth**



**Cyfarwyddyd Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel - Llawlyfr i Gynllunwyr', Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (Chwefror 2011)**

**Canllawiau Cynllunio Atodol: Ynni Gwynt yn y Môr (Ionawr 2013)**

**Nodyn Cyngor Technegol Natural England TIN051 (Ystlymod a Thyrbinau Gwynt ar y Tir) Canllawiau Interim**

**Nodyn Cyngor Technegol Natural Englad TIN051 (Ystlymod a Thyrbinau Gwynt Sengl) Canllawiau Interim**

#### **4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Y Cyngorydd M Jones:** Yn deall nad oes angen gofyn am alw'r cais i mewn oherwydd mai'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion fydd yn penderfynu arno.

**Cyngor Tref Biwmares:** Yn gwrthwynebu'r cais oherwydd ei effaith ar y dirwedd a'r AHNE, yr effaith ar yr economi leol a'r diwydiant twristiaeth; yr effaith weledol ar leoliadau preswyl, yr effaith ar signal teledu, problemau oherwydd sŵn a chysgod-gryniant; yr A5025 yn anaddas ar gyfer danfon y cydrannau ar gyfer y datblygiad. Trigolion lleol yn gwrthwynebu datblygiadau o'r fath, argymell gwrthod.

**Cyngor Tref Porthaethwy:** argymell gwrthod oherwydd bod y cynnig yn anghydnaws â'r ardal ac yn niweidiol i'r amgylchedd.

**Cyngor Cymuned Pentraeth:** Ychydig iawn sydd wnelo ceisiadau o'r fath â newid hinsawdd, sybsidi i ffermwyr ydynt. Dim budd i'r gymuned, dim ond perchenogion y tir. Mae maint a graddfa'r datblygiad yn rhy fawr. Câi'r tyrbinau effaith o safbwynt gweledol a sŵn, cânt effaith ar fywyd gwylt, effaith ar y dirwedd yn ehangach ac ychydig iawn o ynni fyddant yn ei gynhyrchu. Bydd tyrbinau o'r uchder hwn yn cael effaith andwyol ar brydferthwch yr ynys ac ar dwristiaeth. Mewn ardaloedd eraill lle cymeradwywyd tyrbinau, mae twristiaeth wedi gostwng gan 25%. Twristiaeth yw prif ddiwydiant yr ynys. Gall y tyrbinau achosi problemau iechyd a gostyngiad ym mhris eiddo.

**Cyngor Cymuned Llanddyfnan:** Ychydig iawn sydd wnelo ceisiadau o'r fath â newid hinsawdd, sybsidi i ffermwyr ydynt. Dim budd i'r gymuned, dim ond perchenogion y tir. Mae maint a graddfa'r datblygiad yn rhy fawr. Câi'r tyrbinau effaith o safbwynt gweledol a sŵn, cânt effaith ar fywyd gwylt, effaith ar y dirwedd yn ehangach ac ychydig iawn o ynni fyddant yn ei gynhyrchu. Bydd tyrbinau o'r uchder hwn yn cael effaith andwyol ar brydferthwch yr ynys ac ar dwristiaeth. Mewn ardaloedd eraill lle cymeradwywyd tyrbinau, mae twristiaeth wedi gostwng gan 25%. Twristiaeth yw prif ddiwydiant yr ynys. Gall y tyrbinau achosi problemau iechyd a gostyngiad ym mhris eiddo.

**Cyngor Cymuned Pentraeth:** Yn gwrthwynebu'r cais oherwydd bydd modd gweld y tyrbinau o bell, nid yn unig yn Ynys Môn ond yng Ngwynedd hefyd. Cânt effaith ar fwynderau trigolion lleol, yn arbennig felly yn ardal Rhoscefnhir ac effaith andwyol ar fwynderau gweledol.

**Cyngor Cymuned Llangoed a Phenmon:** gwrthwynebu, effaith sylweddol ar dwristiaeth.

**Cyngor Cymuned Llanddona:** gwrthwynebu oherwydd bydd y datblygiad yn newid y dirwedd; dim ond y tiffeddiannwr fydd yn elwa.

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri:** Ni châi'r cynigion effaith andwyol ar y golygfeydd o Barc Cenedlaethol Eryri. Fodd bynnag, gellid gweld y tyrbinau, yn unigol, a chyda'r lleill y bwriedir eu codi yn yr ardal, yn erbyn cefndir mynyddoedd Eryri o rai lleoliadau - er nad yw'r golygfeydd a'r ffotogyfosodiadau yn dangos y posibilrwydd hwn. O ganlyniad, ystyrir y câi'r datblygiad arfaethedig o bosib, effaith ar ardal y Parc Cenedlaethol a dylid cymryd hynny i ystyriaeth wrth benderfynu ar y cais.

Mae'r ffotogyfosodiadau a baratowyd ar ran trigolion lleol yn cadarnhau y bydd y datblygiad yn cael effaith ar fwynderau gweledol trigolion a thwristiaid. Mae'r nifer o'r golygfeydd yn dangos y tyrbinau arfaethedig yn erbyn cefndir mynyddoedd Eryri. Caiff y ffotogyfosodiadau eu rhestru ynghyd â'r effeithiau a ragwelir.

**Cyngor Sir Gwynedd:** dim gwrthwynebiad oherwydd nid ystyrir y câi'r cynnig effaith sylweddol ar fwynderau gweledol arfordir Gwynedd o'r Fenai.

**Cyngor Sir Conwy:** Dim gwrthwynebiad

**Adain yr Amgylchedd Adeiledig a'r Dirwedd:** Yn cytuno gydag asesiad a datganiadau'r ymgynghorwyr o ran yr effaith ar adeiladau rhestredig, Safleoedd Treftadaeth y Byd ac ardaloedd cadwraeth. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn debygol o gael effaith anuniongyrchol a chronnol ar yr eglwys restredig dosbarth II\*, sef eglwys St Gredifael, Penmynydd. Bydd y tyrbinau'n cael effaith andwyol lefel ganolig i uchel ar gymeriad ac edrychiad yr ardal o gwmpas yr adeilad rhestredig a bydd yn newid yr 'ymdeimlad o le'.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol wedi'i gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol a chyfeirir ato yn y rhannau canlynol:

- Crynodeb Annhechnegol
- Cais Cynllunio 2.3.6 (maint y tyrbîn)
- Cyfrol 1, Testun Ysgrifenedig – Pennod 4 Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA) a baratowyd gan Bright and Associates
- Cyfrol 2, Rhan A – Atodiad 4.5 (Gweledol) a 4.7 (Cronnol)
- Cyfrol 3 – Ffigur (Mapiau a syniad o sut y byddai'n edrych o 25 o fannau o fewn 15km)

Yn ychwanegol at hyn, mae'r Cyngor wedi derbyn cyfres o ddarluniau a baratowyd gan Architect Animation Studios (UK) Ltd a gomisiynwyd gan drigolion Rhoscefnhir a Phenmynydd ac sy'n dangos gwahanol olygon o'r cynnig. Mae'r Darluniau yn yr ES yn ddelweddau panoramig. Y pellter cywir ar gyfer edrych ar y rhain yw 350mm sy'n golygu mai dim ond rhan o'r llun fyddai'n weladwy ar unrhyw un adeg.

Nid oes gwahaniaeth rhwng y naill gyfres na'r llall o ran maint y tyrbinau arfaethedig o gymharu â strwythurau eraill. Mae gwahaniaethau o ran y defnydd o lens y camera; pellter o ran edrych ar yr olygfa; y tywydd a chynnwys nodweddion adeiledig eraill.

Mae'r holl wybodaeth wedi cael ei derbyn yn electronig; lle mae hynny'n bosibl, edrychwyd ar yr olygfa o'r maes gwelededd a'r pellter gwelediad a argymhellwyd yn y lluniau. Mewn perthynas â mapiau'n benodol, gellir edrych ar y delweddau'n fanwl a'u hasesu'n ofalus lle'r ymddengys bod y Parth Gwelededd Theoretig yn cael effaith ar dderbynyddion sensitif.

Gofynnwyd am farn sgrinio ar gyfer tri thyrbîn a fyddai 100m o uchder at flaen fertigol y llafn (tyrbinau â chapasiti 2.5MW) a thri thyrbîn 115m i flaen fertigol y llafn. Mae'r manylion yn y cais yn awgrymu y cafodd y cynllun ei ddiwygio'n dilyn hynny (4.1.2) i dri thyrbîn 81m i flaen fertigol y llafn (tyrbinau â chapasiti 800-900KW).

Cafodd nifer y golygfannau hefyd eu gostwng o gymharu ag ymgynghoriadau blaenorol gyda'r Cyngor. Cafodd y golygfannau eu trafod gyda'r Cyngor er nad oedd hynny'n cynnwys gweld y delweddau. Mae'r ardal astudiaeth 30km yn cynnwys derbynyddion sensitif ar y lan ar gyfer Ynys Môn a nifer o awdurdodau cyfagos.

Mae'r tyrbin a ddangosir yn Tŷ Gwyn yn lluniau cyfodod yr ymgeisydd wedi cael ei wrthod mewn apêl ers i'r lluniau gael eu cynhyrchu. Penderfynodd yr Arolygwr, wrth wrthod caniatáu un tyrbin 500kw, 62 metr i flaen y llafn '*the proposal would have a significantly harmful effect on the character and appearance of the surrounding rural area*'. Mae'r agosaf o'r tyrbinau a argymhellir ar gyfer Braint dan 300 metr i fwrdd o'r safle yn Tŷ Gwyn a byddai'r cyfan ohonynt o fewn 500 metr i'r safle.

### Effeithiau Sylweddol

Rydym wedi ystyried y tebygolrwydd o effeithiau sylweddol ar yr isod:

- Ardaloedd Cymeriad Tirwedd
- Yr ardal o gwmpas yr AHNE
- Effeithiau Gweledol
- Effeithiau Cronnol

Caiff arwyddocâd tebygol yr effeithiau ei ystyried yn erbyn y disgrifiadau gwaelodlin a'r derbynyddion fel y cânt eu disgrifio gan LANDMAP a Strategaeth Dirwedd Ynys Môn – Diweddariad 2011.

### Effeithiau ar y Dirwedd

Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, mae'r safle mewn lle canolog yn Ardal Cymeriad Tirwedd 12: Dwyrain Canolbarth Môn (ACT 12). Fe'i disgrifir yn Strategaeth Tirwedd Môn – diweddariad 2011 fel '*an inland buffer zone to the Menai Strait and reflecting the typical undulating landscape of Anglesey*'; ac yn LANDMAP Cyfoeth Naturiol Cymru (cyf: YNSMNV017) fel '*rolling plateau....Snowdonia appears very close.... a pleasant but rather featureless and unremarkable landscape...*'. Nodir bod cyfanrwydd y safle'n *Uchel* a'i bod yn '*generally unspoilt*'. Caiff Ardal LANDMAP gyfagos (cyf: YNSMNV018) sydd hefyd yn ffurfio rhan sylweddol o ACT 12, ei nodi mewn termau tebyg yn LANDMAP.

Mae disgrifiad LANDMAP o'r ardal fel '*pleasant but rather featureless, unremarkable landscape*' yn tanlinellu ei phwysigrwydd fel byffer ar gyfer yr AHNE yn Afon Menai. ACT 12 yw'r ACT fwyaf ond dau ar yr ynys ac mae'n gorchuddio ardal sydd oddeutu 100kms<sup>2</sup>. Caiff materion allweddol ar gyfer ACT 12 eu nodi yn y diweddariad ar y Strategaeth Dirwedd fel:-

- Yr effeithiau ar y cynefin arfordirol a'r angen i gymryd Cynllun Rheoli'r AHNE i ystyriaeth; effaith datblygiad ar gyrion anheddiadau;
- Yr effaith ar goridorau trafniadaeth ac ar gymeriad ac ansawdd y porth i mewn i Ynys Môn

Caiff effeithiau sylweddol (cymedrol i fawr) ar gymeriad y dirwedd eu nodi yn yr LVIA hyd at radiws o 0.7km a chymedrol i fawr o fewn 2km iddi (cânt eu diffinio'n yr LVIA fel rhai agos). Yn yr ardal hon, byddai'r tyrbinau'n nodweddion adeiledig gor-amlwg, cânt eu disgrifio fel y 'ffocws' (4.7.26) yn yr LVIA. Y tu draw i 2km, disgrifir yr effeithiau fel **bychan** ac y tu draw i 8km fel **dibwys** (4.7.27). Mae'r Tabl Asesu 4.14 yn asesu'r effeithiau ar gymeriad y dirwedd fel canolig yn gyffredinol, ond yn ein barn ni, byddai'r effaith yn fwy na hynny.

Nid oes unrhyw fethodoleg safonol wedi cael ei chyhoeddi ar gyfer mesur effeithiau ar y dirwedd ac yn ein barn ni, mae trothwy pellter yn symleiddio'n ormodol raddfa'r newid i'r dirwedd hon, tirwedd y mae rhai o'i rhinweddau ar eu mwyaf amlwg o bellteroedd mwy na 2km.

Bwriedir lliniaru'r cynllun drwy ostwng uchder y tyrbinau (fel y cawsant eu sgrinio) o 100m i 81m i flaen fertigol y llafn. Gellir gweld graddfa'r tyrbinau o fewn ardal o 2km o'r Llundain Cyfodiad 1-8. O'r pellter hwn, byddai'r tyrbinau'n nodwedd ar y nenlinell. Byddai hyn hefyd yn cynnwys golygfeydd tua'r

de lle mae Eryri'n rhan o'r dirwedd. Gallai'r topograffi lleol fel y'i gwelir yn Llun Cyfosodiad 1 leihau'r rhai o'r effeithiau lleol ond yn unol â'r disgrifiad a LANDMAP, mae rhywfaint o strwythurau adeiledig eraill, ond dim o'r maint yma. Mae Lluniau Cyfosodiad 9 ac 11 wedi eu cymryd o fewn 2.6km. O'r pellter hwn, mae'n parhau i fod yn nodwedd amlwg yn dirwedd gyda rhan sylweddol o'r rotorau uwchlaw neu'n torri'r nenlinell. Mae Llun Cyfosodiad 9 yn diffinio ymyl yr ACT lle mae'r newidiadau i'r topograffi yn cychwyn yn ACT 11. I'r gogledd, mae'r pellter hwn oddeutu 2.5km hefyd yn cynrychioli dechrau ACT 17. Mae Llun Cyfosodiad 12 (o ACT 12) a Llun Cyfosodiad 15 (o ACT 9) yn dangos y tyrbinau arfaethedig o bellter o 5 a 6km yn y drefn honno. Maent yn parhau i fod yn nodweddion yn y nenlinell gyda'u hamlygrwydd yn y lluniau'n cael eu heffeithio gan safon y llun - adlewyrchiad o'r tywydd ar adeg tynnu'r llun. Mae tirwedd wastad ACT 12 hefyd yn amlwg o orllewin ACT 17 - Gorllewin Canolbarth Môn lle mae coridorau trafniadaeth hanesyddol (A5) a chyfredol (A55) yn rhedeg yn unionsyth â ffurf y tir. Mae'r ZTV yn effeithio ar grib yn ACT 17 (sydd bron ochr yn ochr ACT 12) a byddai rotorau'r tyrbinau wrth iddynt symud yn taflunio uwchlaw crib ACT 12 wrth edrych arnynt o ACT 17. Mae Lluniau Cyfosodiad 21 a 22 wedi eu cymryd o ACT 17 ac er eu bod yn rhoi syniad o faint y tyrbinau o'r lleoliad hwn, nid yw cefndir niwlog y llun yn adlewyrchiad o'u hamlygrwydd. Mae Llun Cyfosodiad 21 yn cynnwys nodweddion amlwg eraill megis arwyddion a thŵr radar - nid dyna fyddai'r achos petai llun tebyg yn cael ei gymryd o'r A55. O arwyddocâd mwy o ran yr argraff o ACT 12 yw'r ardal ZTV o gyffiniau'r A55 a'r A5 ger Llangefni (oddeutu 8km i ffwrdd) lle mae traffig i gyfeiriad y tir mawr yn mwynhau golygfeydd eang o'r Ardal Cymeriad Tirwedd a ymddengys fel crib hir uwchben Cors Malltraeth. Oherwydd cyfeiriad y briffordd, ceir golygfeydd i gychwyn i gyfeiriad y dwyrain mor bell â'r AHNE yng Nghoedwig Pentraeth. Byddai rotorau'r tyrbinau wrth yn elfennau symudol yn y dirwedd hon yn erbyn cefndir Parc Cenedlaethol.

Caiff effeithiau gofodol y cynigion eu darlunio o olyfgan 19 yn yr AHNE ym Mynydd Bodafon. Nid oes unrhyw dyrbinau yn yr olygfa o'r glannau. Gwelir peilonau i'r de eithaf o'r llun ond nid ydynt yn amlwg yn y llun. Nid oes lluniau o'r olygfa tua'r de ond maent yn cynnwys datblygiadau ynni mawr ar ffurf ffermydd gwynt; gorsaf bŵer niwclear ac isadeiledd cefnogol. Mae tyrbinau niferus y datblygiad Gwynt a Môr i'w gweld yn amlwg yn y golygfeydd tua'r dwyrain o'r môr.

## **AHNE**

Mae'r safle ar ei bwynt agosaf oddeutu 3km o ymyl yr AHNE (yr A5025 ym Mhorthaethwy). Rhoddir sylw i effeithiau tebygol yr AHNE yn 4.5.77 – 4.5.89 a Thabl 4.17. Nid yw effeithiau sylweddol ar yr AHNE (a thirweddau eraill a ddiogelir) yn cael eu rhagweld yn y cyflwyniad.

Yn yr asesiad gwaelodlin, ceir manylion am y ffactorau sy'n dynodi cymeriad yr AHNE. Gan gyfeirio at y safle, mae'r asesiad yn nodi natur noeth ac agored y golygfeydd a'r ffaith fod Eryri'n nodwedd or-amlwg ar y rhan fwyaf o'r AHNE (*byddai hyn yn wir am ran o'r AHNE yn unig*). Lle mae'r ardal yn bennaf arfordirol, nid yw'r AHNE yn cynnwys ffurfiau tir uwch megis Bwrdd Arthur, Mynydd Llwydiarth a Mynydd Bodafon. Mae Mynydd Bodafon oddeutu 11km i ffwrdd ac fe'u cynrychiolir gan Lun Cyfosodiad 19. Mae Bwrdd Arthur oddeutu 8km i ffwrdd a chaiff golygfeydd o'r rhan hon o'r AHNE eu cynrychioli gan Lun Cyfosodiad 15. Byddai golygfeydd o Bwrdd Arthur (wedi eu cyfyngu i ardal fechan) yn cynnwys y strwythurau telegyfathrebu yn Llanddona. Mae'r rhannau hyn o'r AHNE yn elwa nid yn unig o olygfeydd arfordirol ond hefyd o olygfeydd tua'r mewndir a'r dirwedd 'a fenthycir' sef Eryri. Cyfyngir ar olygfeydd o rannau o Fynydd Llwydiarth gan Goedwig Pentraeth er y ceir ambell gip ar draws y dirwedd i Eryri o lwybrau cyhoeddus.

Mae'r ZTV yn dangos gwelededd theoretig ymylol o'r AHNE yn Nhraeth Coch sydd oddeutu 5km o'r safle. Nid yw'r golygfeydd o'r fan hon yn cynnwys Eryri ac mae'n annhebygol y câi'r tyrbinau effaith ar yr ardal o gwmpas yr AHNE yma. O Wynedd, mae'r ZTV yn rhagweld y ceid golygfeydd o rannau hir o'r A55 o gyfeiriad y dwyrain lle mae golygfeydd o lethrau coediog yr AHNE i lawr at y Fenai'n nodwedd amlwg yn yr olygfa. Mae hyn yn digwydd rhwng oddeutu 13km ac oddeutu 10km o'r safle. Er y gellir gwneud rhywfaint o lwfans ar gyfer effaith sgrinio ysbeidiol y coed a'r strwythurau adeiledig

o'r A55 ac yng nghyffiniau Llandegfan mae'n debygol y byddai rhan o rotorau'r tyrbinau'n weladwy fel nodweddion yn y nenlinell. Mae yna nodweddion eraill sy'n cael effaith ar yr AHNE yn yr ardal hon megis y fflatiau yn Glyn Garth a'r mastiau telegyfathrebu yn Llangoed sy'n weladwy o'r ffordd hon. Er bod defnyddwyr ffyrdd yn aml yn cael eu hystyried fel derbynyddion sensitifrwydd canolig, ychwanegir at sensitifrwydd y ffordd hon oherwydd ei phwysigrwydd, nid yn unig fel ffordd ryngwladol ond oherwydd y nifer a ddaw i Ynys Môn oherwydd ei statws fel cyrchfan.

O bellter cymharol (oddeutu 11km), mae Llun Cyfosodiad 18 yn dangos y tyrbinau o leoliad uwch (178m) ar gyrion Parc Cenedlaethol Eryri. Ar adeg tynnu'r llun, roedd Castell Penrhyn yn nodwedd amlwg, yr un modd â'r Fenai a Fflatiau Glyn Garth. Mae'r tyrbinau arfaethedig yn ymddangos yn aneglur oherwydd y cwmwl yn lleol. Mae delweddau a geir trwy Google Earth a Streetview â gwahanol oleuni gyda strwythurau adeiledig gwyn fel arfer yn nodweddion amlwg. O'r uchder hwn, byddai modd gweld y tyrbinau yn erbyn cefndir y dirwedd ac o'r mewndir.

Dywed y disgrifiad o LCA 13 *'that views across to the mainland are important, but perhaps as important are the views obtained of the island from the mainland from the A487 between Caernarfon and Bangor. The 487 is one of the primary roads from the South and the views and vistas present an important image of the island to visitors and travellers'*.

Mae rhan o'r A487 o fewn y ZTV. Mae llystyfiant yn debygol o gyfyngu ar welededd o'r ardal rhwng Y Felinheli a Chaernarfon. Mae golygfeydd mwy sylweddol yn debygol o ardal Y Felinheli a hynny ar y ffordd sy'n arwain at y pentref ac o'r ffordd osgoi. Mae'r ardal a ragwelir gan y ZTV yn cynnwys golygfeydd o Lwybr Arfordirol Cymru a Lôn Las Menai.

### **Effeithiau Gweledol**

Dim ond effaith bosibl a ddarlunir mewn llun cyfosodiad ond mae'n erfyn pwysig o ran pwyso a mesur yr effeithiau hynny. Bydd edrychiad ac amlygrwydd y tyrbinau arfaethedig yn dibynnu ar y goleuni a'r adeg o'r dydd a'r flwyddyn. Nodir y bydd yr Effeithiau Gweledol sylweddol yn yr LVIA o olygfannau 2,3,5,6 a 7. Rhwng radiws o 600m a 1.5km o'r safle, mae llwybrau cyhoeddus tua'r gogledd orllewin a'r gogledd ddwyrain. O fewn y radiws uchod, byddai'r tyrbinau'n amlwg yn yr olygfa pan yn teithio tua'r de. Pan mae gwelededd yn caniatáu, byddai hynny'n ymyrryd ar yr olygfa tuag at Eryri sy'n nodwedd weledol amlwg o'r lonydd hyn. Sonir am yr effeithiau ar lwybrau trafniadaeth lleol yn 4.11. Mae rhai o'r lonydd hyn megis yr A4080 a'r A5025 yn ffyrdd twristiaeth pwysig ac er gwaethaf y ffaieth bod yma nifer o goed aeddfed ac ifanc, ceir rhai golygfeydd clir tuag at y safle arfaethedig a chipolwg ohono'n aml i'r naill gyfeiriad a'r llall o'r A5025. Yr un modd â llwybrau cyhoeddus, ceir golygfeydd o Eryri wrth deithio tua'r de a byddai'r tyrbinau'n elfen amlwg yn yr olygfa honno. Cipolwg o'r olygfa yn unig a geir o'r A4080. *Nid yw'r effeithiau gweledol ar eiddo preswyl ac anheddiadau (a gynhwysir yn yr LVIA) yn cael eu cynnwys yn y sylwadau hyn.*

### **Effeithiau Cronnol**

Gall effeithiau gweledol cronol fod ar ffurf golygfeydd mewn-cyfuniad, mewn-olyniaeth neu gyfresol. Yn 7.6.7 y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir, nodir y gall effeithiau cronol ddigwydd mewn cyfuniad gydag *'existing infrastructure such as pylons or masts'* ac y dylai'r effeithiau cronol ystyried *'trends or pressures for change over long time periods'*. Edrychwyd ar fapiau ZTV cynlluniau eraill mewn perthynas â rhyng-welededd a'r posibilrwydd y bydd yr uchod yn digwydd. Rhoddwyd rhestr o safleoedd i'r ymgeisydd a chânt eu hasesu yn yr LVIA. O'r safleoedd sydd o fewn radiws o 2km (LCA 12), mae'r cais yn Tŷ Gwyn wedi cael ei wrthod. Mae Tŷ Fry yn destun apêl a disgwylir i Ddatganiad Amgylcheddol gael ei baratoi. Nid oes penderfyniad wedi ei wneud hyd yma mewn perthynas â'r tyrbinau arfaethedig ym Marchynys. Safleoedd pellach sy'n cael eu hystyried yn ACT 12 yw Tre Ifan (gwrthodwyd yn ddiweddar ar apêl) ac Yr Orsedd (gwrthodwyd). Mae anemomedr 60 metr o uchder sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn wedi cael ei gymeradwyo ond nid yw wedi cael ei godi ar y safle ac nid yw wedi ei gynnwys yn yr asesiad.

Felly, ni fedrir ystyried bod yr un o'r ceisiadau uchod yn cael effeithiau cronol ar hyn o bryd; fodd bynnag, trwy gyflwyno elfen ddiffiniol megis y tyrbinau arfaethedig i dirwedd o'r fath, byddai'r cynnig, yn ein barn ni, yn lleihau ei sensitifrwydd i newid paellach. O ran ACT cyfagos, mae tyrbinau wedi cael eu cymeradwyo ac maent yn weithredol yn Ynys Uchaf, Brynteg a Glyn, Llanbedrgoch, mae'r ddau safle yn *Ardal Cymeriad Tirwedd 9: Traeth Coch*. Mae'r tyrbinau 20.9 metr a 27.1 metr o uchder i flaen fertigol y llafn yn y drefn honno. Yn ACT 9, mae tyrbinau pellach sydd 19.25m o uchder i flaen fertigol y llafn wedi cael eu cymeradwyo yn Bryn Mair, Llanbedrgoch. Mae cynlluniau'r ZTV yn nodi bod manau lle byddai golygfeydd mewn-olyniaeth yn bosibl ond mae'n annhebyol y câr'r golygfeydd cronol o'r tyrbinau llai mewn perthynas â'r fferm wynt arfaethedig yn Braint, unrhyw effaith sylweddol.

Gellir gweld lefel gyfredol o ddatblygiadau ynni gwynt o leoliadau megis Mynydd Bodafon. Yr ydym eisoes wedi nodi bod modd gweld cynlluniau cyfredol yn y môr megis datblygiad Gwynt a Môr a rhaid nodi bod rownd gyntaf yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer Fferm Wynt arfaethedig Rhiannon wedi cael ei chynnal. Mae golygfeydd mewn-cyfuniad o'r ffermydd gwynt cyfredol yng ngogledd yr Ynys i'w gweld o nifer o leoliadau. Ceir golygfeydd mewn-olyniaeth o'r rhain gyda safleoedd megis Gwynt a Môr o leoliadau megis Mynydd Bodafon. Byddai fferm wynt arfaethedig Rhiannon yn y môr yn ehangu'r golygfeydd hyn ac yn creu datblygiadau ynni gwynt sylweddol ar yr ynys a hynny yn y môr ac ar y tir. O ran isadeiledd arall, mae'r mast telegyfathrebu ym Mhenmynydd (sydd wedi ei oleuo yn ystod y nos) a'r peilonau foltedd uchel yn elfennau sy'n ymyrryd yn weledol ar ACT 12. Nid yw manylion am effeithiau'r goleuadau yn y nos y gofynnwyd amdanynt gan y Weinyddiaeth Amddiffyn wedi cael eu hasesu yn yr LVIA. Nid yw gofynion y WA yn cynnig opsiwn is-goch (fel cynnig Tŷ Gwyn). Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol: Canllawiau Dylunio ar gyfer yr Amgylchedd Trefol a Gwledig, Nodyn 10 - Goleuo yn dweud '(Anglesey)

*'still has some of the darkest skies in the whole of the United Kingdom. Therefore it is vitally important that the natural dark skies of Anglesey are preserved where possible'.*

Mae'n bosibl y byddai modd i amrediad eang o dderbynyddion weld lefel isel o oleuni bob amser yn enwedig ar ôl iddi nosi. Byddai'n creu ymdeimlad o ddatblygiad pellach o fath diwydiannol mewn tirwedd wledig. Fel yr amlinellir yn y CCA ar Ynni Gwynt ar y Tir, mae tueddiad yn yr ardal hon i godi datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r Isadeiledd Ynni newydd, Mae nifer o'r pum llwybr posibl ar gyfer gwifrau pŵer uwchben y ddaear a ddatgelwyd gan y Grid Cenedlaethol yn eu hymgynghoriad cyhoeddus yn ddiweddar, yn mynd drwy'r rhan hon o'r ACT. Byddem yn nodi'r argymhellion yn TAN 8 a ddyfynnir yma o'r penderfyniad ynghylch apêl Tŷ Gwyn lle cydnabyddir *'that there is a case for avoiding a situation where wind turbines are spread throughout the whole of a county. The northern part of the island already has a number of large and medium sized wind turbines and the proposal would represent a southward extension into the largest landscape character area in the south eastern part of Anglesey which currently only has one small turbine (up to 20m blade tip)'.*

### **Argymhelliad**

Nid yw'r adain yn cefnogi'r cynnig am y rhesymau canlynol:

#### *Effaith ar Gymeriad y Dirwedd*

Nid yw'r LVIA yn dangos y gellid cynnwys y datblygiad yn yr ACT heb i hynny gael effeithiau andwyol annerbyniol ar ei chymeriad. Deuai Fferm Wynt arfaethedig Braint yn nodwedd ddiffiniol yn y dirwedd yn lleol a byddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar y dirwedd yn yr ardal hon. Byddai'r effeithiau hefyd yn ymestyn y tu draw i'r ardal hon oherwydd natur yr ardal Cymeriad Tirwedd a'r dirwedd o'i hamgylch. Byddai'r cynnig yn lleihau rhinweddau'r ardal fel byffer i'r AHNE tua'r de ac yn lleihau ei sensitifrwydd i newidiadau pellach o'r math yma.

### *Mwynderau Gweledol*

Rhagwelir y byddai'r cynnig yn effeithio'n andwyol i raddau sylweddol ar olygfeydd o olygfannau cyhoeddus rhwng radiws o 600m a 1.5km, o lwybrau trafnidiaeth lleol o radiws cyfatebol ac o leoliadau oddi ar yr ynys lle byddant yn cael effaith ar argraffiadau pobl o'r ynys.

### *Effeithiau andwyol ar yr ardal o gwmpas yr AHNE*

Byddai Fferm Wynt arfaethedig Braint yn nodwedd amlwg yn y golygfeydd tuag at yr ynys o'r gorllewin a'r dwyrain a châi effaith andwyol ar yr ardal o gwmpas yr AHNE. Byddai hefyd yn weladwy o bwntiau uchel yn yr AHNE a byddai'n dechrau effeithio ar ansawdd y golygfeydd agored tuag at Eryri o fannau uchel yn yr AHNE. Byddai'r effeithiau anuniongyrchol hyn yn sylweddol ac yn niweidiol.

### *Effeithiau Cronnol yn groes i CCA 8*

Byddai'r cynnig yn cael effeithiau cronol sylweddol ar y dirwedd oherwydd byddai'n cyflwyno datblygiad ynni gwynt mawr i ardal o'r ynys lle mae datblygiadau o'r fath yn gyfyngedig ond lle mae pwysau a thueddiad o blaid isadeiledd ynni arall. Byddai'r effeithiau gweledol cronol yn gysylltiedig â datblygiadau eraill, gan gynnwys effeithiau yn ystod oriau'r nos.

**Swyddog Llwybrau:** Mae'r fynedfa newydd arfaethedig yn croesi Llwybr Cyhoeddus rhif 17.

Oherwydd y bwriedir adeiladu'r trac hyd at uchder o 0.7m, dylid cynnwys graddiant neu risiau addas y naill ochr a'r llall o'r trac lle mae'r llwybr yn croesi ar ei draws fel y gall defnyddwyr y llwybr groesi'r trac gyda'r anhwylystod lleiaf posib.

**Awdurdod Priffyrdd:** Yn awgrymu amod ar gyfer Cynllun Rheoli Traffig

**Adran Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth:** Cyfarwyddyd na ddylid penderfynu ar y cais hyd oni fydd Cynllun Rheoli Traffig wedi ei ganiatáu yn manylu ar y modd y bydd llwythi'n cael eu symud o'r pwynt danfon i safle'r cais er mwyn lleihau i'r eithaf ar unrhyw oedi i draffig eraill a chan reoli'r traffig hwnnw.

Mewn ymateb i'r manylion ychwanegol a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd, bod y cyfarwyddyd yn parhau mewn grym hyd oni fydd Cynllun Rheoli Traffig wedi cael ei gyflwyno a'i ystyried. Mae manylion pellach wedi cael eu cyflwyno ac er nad oedd ymateb ffurfiol wedi dod i law ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae'r Adran berthnasol wedi nodi y gellid mynnu ar amod i ddelio gydag unrhyw faterion a gyfyd.

**Cyfoeth Naturiol Cymru:** Wedi gwrthwynebu i gychwyn oherwydd mae'n bosibl y câi'r cynnig effaith ar dirweddau a rhywogaethau a ddiogelir.

### **Tirweddau a Ddiogelir**

Bwriedir lleoli'r tyrbinau mewn ardal sy'n flaendir niwtral pwysig i'r golygfeydd dramatig a hynod o fynyddoedd Parc Cenedlaethol Eryri. Oherwydd maint a nifer y tyrbinau ac effeithiau tebygol llafnau'r rotorau wrth iddynt symud, mae'n debygol y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y golygfeydd panoramig o Barc Cenedlaethol Eryri. Ychydig iawn o nodweddion neu dirnodau yn yr ardal dirwedd hon sy'n tynnu oddi wrthi ac mae'n gefndir niwtral i'r AHNE sydd gerllaw.

Rydym yn eich atgoffa o ddyletswydd eich Awdurdod dan Adran 62 Deddf yr Amgylchedd 1995 sy'n dweud bod rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd i ystyriaeth bwrpas Parciau Cenedlaethol wrth benderfynu ar geisiau sy'n ymwneud â Pharciau Cenedlaethol neu sy'n effeithio arnynt. Pwrpas statudol Parc Cenedlaethol yw sicrhau ac ychwanegu at brydferthwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol a hyrwyddo cyfleon i'r cyhoedd ddeall a mwynhau eu rhinweddau arbennig.

Rydym hefyd yn eich atgoffa o ddyletswydd eich Awdurdod dan Adran 85 y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 sy'n dweud bod rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried cadwraeth ac ychwanegu at brydferthwch naturiol yr AHNE. Pwrpas statudol Parcio Cenedlaethol yw sicrhau ac ychwanegu at brydferthwch naturiol.

Byddai'r cynnig hefyd yn altro cymeriad tirwedd leol yr ardal ac rydym yn cynghori'r awdurdod lleol i ystyried yr effaith ar y dirwedd yn lleol/rhanbarthol yn unol â pholisïau'r awdurdod ei hun. Rydym yn argymhell eich bod yn ymgynghori gyda'ch swyddog tirwedd mewnol.

Rydym yn nodi y cafwyd ceisiadau eraill ar gyfer tyrbinau gwynt yn yr ardal, gan gynnwys rhai yn Tŷ Gwyn, Marchynys a Tŷ Fry. Rydym yn eich cynghori i ystyried effeithiau cronol tebygol y cynnig ar y dirwedd (ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau ynni gwynt eraill yn yr ardal).

I gloi, mae CCN o'r farn y câi'r datblygiad, yn ôl pob tebyg, effeithiau andwyol sylweddol o ran y dirwedd a'r golygfeydd panoramig o Barc Cenedlaethol Eryri.

### **Rhywogaethau a Ddiogelir – Ystlumod**

Mae pob rhywogaeth o ystlumod a'u clwydi'n cael eu gwarchod dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y cawsant eu diwygio) a'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y cafodd ei diwygio). Yn ôl Rheoliad 9 y Rheoliadau, rhaid i gyrff cyhoeddus, wrth gyflawni eu swyddogaeth ystyried a pharchu unrhyw ddeddfau a weithredir mewn perthynas â chadwraeth natur er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion Cyfarwyddyd 'Cynefinoedd' 1992 (92/43/EEC).

O ganlyniad, ac er mwyn cydymffurfio gyda Chanllawiau Polisi Cynllunio Cymru a Chanllawiau Cyngor Technegol (CCA) Rhif 5, mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno asesiad mewn perthynas ag ystlumod er mwyn hysbysu'r broses gyhoeddus o wneud penderfyniadau. Yn ôl yr adroddiad a gyflwynwyd ar yr arolwg ecolegol (West Coast Energy), ystlumod soprano pipistrelle yw'r mwyaf cyffredin a gofnodwyd yn ardal yr arolwg a noctules yw'r rhai mwyaf cyffredin ond un a gofnodwyd. Daw'r adroddiad i'r casgliad "*the level of bat activity and species recorded within the Survey Area suggest relatively high levels of activity from species, which are considered to be at high risk of collision with wind turbines*".

Mewn cyngor interim a gafwyd mewn perthynas ag ystlumod a datblygiadau tyrbinau gwynt sengl mawr (Natural England - Nodyn Gwybodaeth Dechnegol 059), nodwyd bod ystlumod 'noctule' mewn perygl mawr o gael eu heffeithio'n andwyol gan dyrbinau gwynt (h.y. cael eu lladd) tra bod y math soprano pipistrelle mewn perygl canolog. Mae risg yn yr achos hwn yn cynnwys eu lladd yn ddamweiniol fel a nodir dan Erthygl 15 Cyfarwyddyd Cynefinoedd (Rheoliad 50/51 y Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau uchod). Gwyddys fod ystlumod noctule yn arbennig yn hedfan yn rheolaidd ar draws tirweddau agored ac yn uwch na mathau eraill o ystlumod ac ystyrir eu bod o'r herwydd yn fwy tebygol o farw neu gael eu lladd yn ddamweiniol (yn dilyn gwrthdrawiadau neu yn sgil barotrawma a achosir gan lafnau'r tyrbinau gwynt), gan gynnwys tyrbinau sydd wedi eu lleoli i ffwrdd o ffiniau caeau (h.y. rhai sy'n cydymffurfio gyda NGD 059). Rydym yn nodi nad oes yn yr adroddiad unrhyw asesiad o effaith y datblygiadau arfaethedig ar gadw Statws Cadwraethol Ffatriol (SCFf) pob un o'r coloniau o ystlumod allai gael eu heffeithio gan y cynigion.

Yn wyneb y wybodaeth uchod, mae CNC o'r farn nad yw'r ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth ddigonol i ddangos na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar gadw SCFf pob un o'r poblogaethau o rywogaethau o ystlumod allai gael eu heffeithio. Yn seiliedig ar y wybodaeth annigonol a gyflwynwyd, mae CNC yn gwrthwynebu'r cynnig.

O'r herwydd, mae CNC yn cynghori y dylid darparu'r wybodaeth ychwanegol (h.y. mewn perthynas â SCFf) ynghylch yr uchod, cyn penderfynu ar y cais. Dylid cynnal y prawf SCFf ar lefel y boblogaeth



(coloniau o ystlumod) ar lefel sirol ac unigol. Bydd angen i asesiadau poblogaeth unigol ystyried y safle fel un o'r nodweddion y mae'r ystlumod ei hangen i sicrhau gweithrediad ecolegol yn y tymor hir. Os oes unrhyw ansicrwydd, yna mae'n bosibl y bydd angen cynnig mesurau lliniaru, gwrthbwysu neu osgoi pellach i brofi na fyddai'r datblygiad yn cael effaith andwyol ar yr ystlumod. Dylai'r asesiadau ddangos bod yr effaith ar y statws gadwraeth gyfredol a'r SCFf ar gyfer pob poblogaeth o ystlumod a gofnodir ar y safle wedi ei hystyried.

Dylai cwestiynau perthnasol ar gyfer pob rhywogaeth o ystlumod a gofnodwyd ar y safle gynnwys:

1. A fydd un neu ragor o boblogaethau (coloniau) o ystlumod yn cael eu heffeithio gan y cynnig?

Bydd/Na fydd

2. Beth yw statws gadwraeth gyfredol pob un o'r poblogaethau o ystlumod a allai gael eu heffeithio? Nodwch statws cyfredol pob poblogaeth (coloni) a all fod ar lefel 'ffafriol' neu fel arall.

3. A oes unrhyw un o'r poblogaethau a nodwyd mewn perygl o gael eu lladd yn ddamweiniol? Os oes, beth ragwelir fydd effaith hynny ar statws cadwraeth pob coloni?

4. Ond yw'r poblogaethau'n 'ffafriol', a fydd y cynnig yn cael effaith o ran eu hadfer i lefelau 'ffafriol'?

Sylwer os gwelwch yn dda, y dylai'r asesiad gymryd i ystyriaeth yr effaith gronol gyda thyrbinau eraill sydd wedi eu hadeiladu/eu cynllunio yn yr ardal.

I grynhoi, mae CNC o'r farn nad yw'r ymgeisydd wedi cyflwyno gwybodaeth ddigonol i brofi na fydd y cynnig yn cael effaith andwyol ar gadw Statws Cadwraeth Ffafriol (SCFf) pob un o'r poblogaethau o'r rhywogaethau hyn o ystlumod a allai gael eu heffeithio.

Awgrymwyd amodau mewn perthynas â methodoleg y cytunwyd arni i liniaru unrhyw effeithiau ar ddyfrgwn, llygod dŵr a gylfinirod.

Awgrymwyd amodau hefyd mewn perthynas â'r risg llifogydd (dylid gosod trawsnewidydd y tyrbîn o leiaf 600mm uwchlaw lefel cyfredol y ddaear a'i leoli i fyny'r llethr o'r tyrbîn ac y dylid defnyddio technegau adeiladu a fedr wrthsefyll llifogydd) ac atal llygredd yn ystod y cyfnod adeiladu.

Yn dilyn trafodaethau ynglŷn â gwybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd ynghylch ystlumod (Atodiad i'r Datganiad Amgylcheddol 15 Awst 2014) mae CNC yn glynu wrth ei wrthwynebiad i'r cais o ran yr effeithiau ar dirweddau a warchodir. Mae'n gofyn am i unrhyw ganiatâd a ryddheir ag amodau sy'n mynnu ar weithredu Strategaeth Liniaru ar gyfer Ystlumod. Dylid darparu mesurau gwella cynefin fel y manylir arnynt yn yr Atodiad a dylid rheoli gwaith adeiladu'n ddigonol er mwyn sicrhau cyn lleied â phosib o broblemau o ran llwch, sŵn, dirgryniant a goleuo.

**Ymgynghorydd Ecolegol:** Dylid lleoli tyrbinau gyda blaenau eu llafnau'n ddim agosach na 50m at nodweddion cynefinoedd. Mae tyrbîn 3 wedi'i leoli ar dir glastwellog corsiog a all fod yn arbennig o ddeniadol i ystlumod sy'n chwilio am fwyd. Dylid cytuno ar strategaeth liniaru mewn perthynas ag ystlumod cyn penderfynu ar y cais a hynny mewn ymgynghoriad gyda CNC a rhoi amod mewn unrhyw ganiatâd. Fodd bynnag, codwyd pryderon ynghylch ymarferoldeb a gorfodi amodau lliniaru sy'n ymwneud â throï'r tyrbinau i ffwrdd ar adegau penodol oherwydd amrywiad o ran oriau golau dydd a'r tywydd.

**Arquiva:** Dim gwrthwynebiad

**Gwasanaeth TGCh:** Mae tyrbîn 1 o fewn ardal waharddedig cyswllt radio'r Cyngor rhwng Penmynydd a Llanddona. Cafwyd gwrthwynebiad oherwydd yr angen i gynnal y cyswllt i Ysgol Llanddona. Yn dilyn trafodaeth a gafwyd wedi i'r ysgol gau, mae'r angen i gynnal y cyswllt, ac o'r herwydd y gwrthwynebiad i'r cais, wedi cael ei dynnu'n ôl.

**Y Weinyddiaeth Amddiffyn:** Dim gwrthwynebiad, awgrymu amodau.

**Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd:** Gwnaed y gwaith maes archeolegol heb ymgynghoriad curadurol ac o'r herwydd ni chafwyd y prosesau monitro sy'n sicrhau addasrwydd i'r pwrpas a chanlyniadau ystyrlon. Er gwaethaf hyn, ymddengys y bu'r arolwg geoffisegol yn llwyddiannus ac ni nodwyd unrhyw nodweddion sylweddol amlwg nac ychwaith unrhyw ardaloedd lle gall ymyrraeth fodern neu fagnetig fod wedi masgio gweddillion ar raddfa eang. Ymddengys fod y canlyniadau wedi cael eu cefnogi gan ganlyniadau a gafwyd yn sgil agor ffosydd arbrofol ac mae'r ffotograffau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad yn awgrymu bod yr amgylchiadau o ran medru gweld nodweddion archeolegol yn dda.

Fodd bynnag, ni chytunwyd ar y rhaglen ffosydd gyda ni ymlaen llaw ac roedd y sgôp yn gyfyngedig iawn. Un o nodweddion archeoleg cyn-hanesyddol Ynys Môn nad ydynt efallai'n gysylltiedig â chaeau neu nodweddion llinellol ac maent yn annhebygol o gael eu cydnabod mewn arolwg geoffisegol. Am y rheswm hwn, dylai'r ffosydd arbrofol fod wedi cynnwys cyfres o ffosydd mewn ardaloedd 'blanc' er mwyn dilysu'r canlyniadau geoffisegol a darparu gwybodaeth gynrychioliadol ar gyfer y cynllun cyfan yn hytrach na thargedau penodol. Yn wyneb hyn, ystyrir nad yw'r gwerthusiad yn adlewyrchiad digonol o adnoddau archeolegol y safle. Mae gan ddatblygiadau o'r maint hwn botensial anorfod o ran effaith weledol ac effaith ar yr ardal o'u cwmpas dros gryn bellter ac nid yw hynny'n bob amser yn amlwg o luniau dau ddimensiwn. Fe ymddengys hefyd nad yw Parc a Gardd Hanesyddol Gofrestredig Graddfa 1 Y Faenol wedi cael eu cynnwys yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA) yr un modd â'r ardd yn Tŷ Fry sydd wrthi'n cael ei chofrestru. Ystyrir hefyd y dylid bod wedi cynnal asesiad a oedd yn gydnaws â statws yr effaith bosibl ar yr ardal o gwmpas Safle Treftadaeth y Byd Castell Caernarfon a Waliau'r Dref (sydd o fewn yr ZTV ar gyfer llafnau).

Mae'r penodau ar Dreftadaeth Ddiwylliannol a'r LVIA gyda'i gilydd yn sefydlu y bydd y cynllun arfaethedig yn cael effaith gymedrol ar yr ardal o gwmpas tair heneb gofrestredig, effaith fawr/sylweddol ar yr ardal o gwmpas cloddwaith Bryn Eryr (An100) a Tŷ Fry sy'n adeilad rhestredig Graddfa II\* ac effaith fawr ar yr ardal o gwmpas Eglwys St Gredifael sy'n adeilad rhestredig Graddfa II. Mae'r asesiad Treftadaeth Ddiwylliannol yn dilyn canllawiau cyfredol ac mae'n cymryd i ystyried nodweddion penodol a chyfraniad yr ardal at arwyddocâd pob safle gan roddi sylw penodol i'w perthynas gyda safle'r cais a chaiff y casgliadau eu cefnogi gan y 'wireframes' a gyflenwyd. Mae effaith datblygiadau ar yr ardaloedd o gwmpas safleoedd bwys cenedlaethol yn ystyriaeth gynllunio berthnasol (60/96 y Swyddfa Gymreig, paragraffau 10 a 17; PCC, paragraffau 6.5.1 a 6.5.9) ac ni fedrir eu lliniaru'n foddhaol.

Petai caniatâd cynllunio'n cael ei ryddhau, byddai'n rhaid cael rhaglen liniaru archeolegol er mwyn rhoi sylw i'r effaith ar weddillion archeolegol y gwyddys amdanynt a rhai y gellid dod o hyd iddynt yn y dyfodol. Byddid yn disgwyl i hyn gynnwys cyfuniad o strip, map a chofnod o leoliadau'r tyrbinau a briff i gadw golwg o safbwynt archeolegol ar yr holl waith daear arall sy'n gysylltiedig â'r cynllun.

**Swyddog Iechyd yr Amgylchedd:** Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r dull o weithio allan yr effaith o ran sŵn (nid yw'r fethodoleg yn dilyn y cyngor a geir yn CCA y Cyngor); pryderon nad yw'r lefelau sŵn a ragwelir yn gadael unrhyw le ar gyfer camgymeriad neu gosb petai angen hynny. Pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd o Fodylu Osgledau.

Mewn ymateb i asesiad sŵn ychwanegol, mynegwyd pryderon am y fethodoleg a ddefnyddiwyd gan yr ymgynghorydd; mynegwyd pryderon ynghylch mynnu ar amod i ddelio gydag unrhyw fodylu osgledau a all ddigwydd a hynny oherwydd y trothwy isel rhwng lefelau'r sŵn a ragwelir a'r trothwy safonol sy'n golygu na fedrir rhoi cosb; parhau i wrthwynebu.

**Scottish Power:** Sylwadau ar gyfer y cyfnod adeiladu

### **Ymateb i Gyhoeddusrwydd**

Derbyniwyd oddeutu 830 o lythyrâu'n gwrthwynebu'r cais cynllunio am y rhesymau isod:

Bydd y cynnig yn gor-lethu'r dirwedd;  
Bydd y cynnig yn ymyrraeth weledol fawr;  
Bydd y cynnig yn strwythur diwydiannol dieithr mewn tirwedd sydd, at ei gilydd, heb ei difetha;  
Bydd effeithiau cronol annerbyniol gyda chynigion eraill gan olygu y byddai'r ardal yn troi'n fferm wynt;

Ceir effaith negyddol ar yr ardal o gwmpas adeiladau rhestredig;  
Ceir effaith sylweddol ar y dirwedd ac ar fwynderau gweledol;  
Caiff y cynnig effaith andwyol ar y Parc Cenedlaethol ac ar yr AHNE;  
Caiff effaith andwyol ar asedau twristiaeth a'r economi twristiaeth;  
Bydd yn gosod cynsail ar gyfer datblygiad pellach;  
Ni ddylai polisiau cenedlaethol sy'n hyrwyddo'r defnydd o adnoddau adnewyddadwy gael blaenoriaeth dros bolisiau tirwedd lleol:  
Effeithiau andwyol ar rywogaethau a ddiogelir, bywyd gwylt a gwlypdiroedd;  
Effaith arbennig o andwyol ar y poblogaethau lleol o ystlumod;  
Effaith o ran Sŵn a chysgod gryniant;  
Effeithiau ar iechyd;  
Goblygiadau archeolegol ac effeithiau ar adeiladau rhestredig;  
Technolegau eraill ar gael sy'n fwy effeithlon na thyrbinau gwynt.

### **5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

41C125/SCR Cais barn sgrinio ar gyfer codi tri twrbin gwynt gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 69m, diamedr rotor hyd uchafswm o 90m a uchder blaen unionsyth hyd at uchafsem o 115m ar dir yn Cae Isaf, Porthaethwy – Angen AEA 22/02/12

41C125A - Cais llawn ar gyfer gosod anemometer 60m o uchder am gyfnod dros-dro ar dir yn Bryn Eryr Uchaf, ger Pentraeth – Gwrthod 01/08/12 Caniatau ar Apêl 05/12/12

### **6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

#### **Egwyddor datblygu**

Noda Polisi C7 Cynllun Fframwaith Gwynedd:

“Bydd rhagdybiaeth o blaid prosiectau gydag ynni y gellir ei adnewyddu, ar yr amod fod yr effaith ar yr ardal yn dderbyniol i'r awdurdod cynllunio lleol. Lle bo hynny'n briodol, dylid cefnogi'r cynigion gan asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd.”

Noda Polisi 45 Cynllun Lleol Ynys Môn:

“Bydd caniatâd yn cael ei roddi i brosiectau ynni adnewyddol pan fo modd dangos yn glir na chânt effaith annerbyniol ar :- i. Gymeriad y tirwedd. ii. Safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol neu leol o safbwynt diogelu natur.

iii. Rhywogaethau pwysig o safbwynt diogelu natur.

iv. Safleoedd a henebion hanesyddol o bwys.

v. Safon y pleserau y mae preswylwyr ac ymwelwyr yn eu mwynhau. vi. Systemau cysylltu hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Noda Polisi 8B- Datblygiadau Ynni Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd:

“Caniateir ceisiadau ar gyfer datblygu adnoddau ynni adnewyddadwy ac adnewyddadwy lle y gellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd. Rhoddir y flaenoriaeth i ddatblygu ffynonellau ynni glân ac adnewyddadwy, ond gellir caniatáu cynigion ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy os byddant yn hyrwyddo manteision i'r eithaf ar effeithlonrwydd ynni yn eu cynllun.”

Cafodd Polisi Cynllunio Cymru ei ddiweddarau i Argraffiad 7 ym mis Gorffennaf 2014. O ran adran 12.8 Polisi Cynllunio diwygiedig Cymru – Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel, nid oes unrhyw newidiadau mawr.

Mae Adran 12.8.1 (Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel) Polisi Cynllunio Cymru yn pennu targedau ac yn rhoi cefnogaeth gref i brosiectau ynni adnewyddadwy yn unol â Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010).

Ym mharagraff 12.8.15 Polisi Cynllunio Cymru, dywedir y bydd effeithiau datblygiadau ynni adnewyddadwy yn amrywio gan ddibynnu ar eu lleoliad a'u maint ac y bydd angen cymryd gwahanol bolisiâu a dulliau rheoli datblygu i ystyriaeth. Fel un 330KW, mae'r tyrbîn a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn cael ei gategoreiddio fel un “Is-Awdurdod Lleol” ym Mholisi Cynllunio Cymru sy'n cynnwys datblygiad rhwng 50KW a 5MW (Ffigwr 12.1). Dywed Tabl 3.1 y Canllawiau Ymarfer – Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel nad oes unrhyw gategoriâu llym i ddisgrifio maint tyrbînau gwynt unigol ond eu bod yn tueddu i syrthio i 4 prif lled band. Byddai'r tyrbîn a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn y categori 'Mawr' gyda graddfa 'nodweddiadol' uwchlaw 750KW a allai gyflenwi pŵer i hyd at 1,536 o gartrefi). Mae uchder tyrbîn canolig nodweddiadol uwchlaw 65m ond mae'r tyrbîn hwn, sydd hyd at 81m at flaen y llafn, yn is na'r 135m a bennir ar gyfer tyrbînau mawr. Fel tyrbîn “Is-Awdurdod Lleol” neu “Ganolig”, mae maint y tyrbîn yn dderbyniol mewn egwyddor o safbwynt polisi yn y lleoliad hwn ond mae angen rhoi sylw i ystyriaethau polisi manwl. Dywed paragraff 3.1.9 y Canllawiau:

*“Individual large and medium scale turbines can also be deployed as single machines but are more often used in groups to form part of a larger planning application in the form of a large scale wind farm. Wind farms tend to be located in more remote areas and directly supply power to the national grid i.e. they are not associated with a particular development”.*

Mae Adran 12.10.1 o PCC (Argraffiad 7) a atgynhyrchir isod yn tynnu sylw at faterion y dylai'r awdurdod cynllunio lleol eu hystyried wrth ymdrin â datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys agweddau cadarnhaol megis cyfrannu at gwrdd â thargedau cenedlaethol, y DU ac Ewropeaidd, ac yn ehangach buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae hefyd yn amlygu'r angen i ystyried yr effaith ar y dreftadaeth naturiol, yr arfordir a'r amgylchedd hanesyddol a'r angen i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol. Amlygir materion eraill hefyd o fewn yr adran hon, megis lliniaru a materion seilwaith h.y. y cysylltiad â'r grid a'r rhwydwaith cludiant, fel a ganlyn:

12.10.1 Wrth benderfynu ar geisiadau am ddatblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel a seilwaith cysylltiedig, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried:

- cyfraniad y cynnig at fodloni targedau a'r potensial a bennwyd yn genedlaethol<sup>32</sup>, a chan y DU ac Ewrop, ar gyfer ynni adnewyddadwy, gan gynnwys y cyfraniad at dorri allyriadau

- nwyon ty<sup>^</sup> gwyr;
- y manteision a'r cyfleoedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ehangach yn sgil datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel;
- yr effaith ar y dreftadaeth naturiol (gweler Adran 5.5), yr arfordir (gweler Adran 5.6) a'r amgylchedd hanesyddol (gweler Adran 6.5);
- yr angen i leihau'r effeithiau ar gymunedau lleol er mwyn diogelu ansawdd bywyd cenedlaethau heddiw ac yfory;
- ffyrdd o osgoi neu liniaru effeithiau andwyol a nodwyd, neu i wneud yn iawn amdanynt;
- effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar leoliad a dyluniad datblygiad ynni adnewyddadwy a charbon isel, y modd y caiff ei adeiladu a'r modd y caiff ei weithredu. Wrth wneud hynny, dylai ystyried a ydy'r mesurau i ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd yn arwain at effeithiau eraill (gweler 4.5);
- materion sy'n ymwneud â'r cysylltiad â'r grid, pan gynigir datblygiadau ynni adnewyddadwy (trydan);
- gallu'r seilwaith trafniadaeth, a'r effeithiau arno, yn gysylltiedig ag adeiladu neu weithredu'r cynnig.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005) (paragraff 14) yn datgan fod gan Lywodraeth y Cynulliad darged o 4TWh o drydan y flwyddyn i gael ei gynhyrchu o ynni adnewyddadwy erbyn 2010 a 7TWh erbyn 2020. Er mwyn cyrraedd y targedau hyn, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dod i'r casgliad bod angen 800MW o gapasiti gosodedig ychwanegol o ffynonellau gwynt ar y tir.

Mae paragraff 2.12 o TAN 8 yn nodi fod Llywodraeth y Cynulliad yn disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol annog, drwy eu polisïau cynllun datblygu ac wrth ystyried ceisiadau cynllunio unigol, cynlluniau ffermydd gwynt cymunedol llai (yn gyffredinol yn llai na 5 MW). Mae'r paragraff yn egluro y gallai awdurdodau cynllunio lleol ddiffinio "cymunedol". Nid oes unrhyw ddiffiniadau polisi y gellir eu defnyddio ar hyn o bryd a'u pwysoli ar gyfer hyn. Mae'n amlwg mai menter fasnachol yw'r cais ac nid oes unrhyw awgrymiad bod angen y cynllun ar gyfer y busnes ffermio yn Fferm Cae Isaf. Dywed paragraff 3.1.6 yn y Canllawiau Ymarfer:

*"3.1.8 The number of turbines used per site ranges from the deployment of single turbines up to large groups of turbines (known as wind farms) capable of generating tens of megawatts. TAN 8 currently refers to wind developments of 25MW or more as being 'large scale onshore wind developments' i.e. in relation to wind development within the identified Strategic Search Areas".*

Mae'r cynllun fel y cafodd ei gyflwyno'n fenter fasnachol gyda chapasiti fe ragwelir o 2.55MW. Nid yw felly o'r maint y cyfeirir ato yn TAN 8 mewn perthynas â SSA ond serch hynny, ystyrir ei fod yn gynnig am fferm wynt ac fe gydnabyddir hynny yn nisgrifiad yr ymgeisydd o'r cais, sef 'Fferm Wynt Braint'.

Mae Adran 2 Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cynnwys y canllawiau canlynol:

*"2.1.1 Mae gan y system gynllunio rôl allweddol i'w chwarae wrth gefnogi cyflenwad cymunedau gwledig cynaliadwy. Gall helpu sicrhau y cyflawnir datblygiadau priodol yn y man cywir ar yr adeg gywir drwy sicrhau bod digon o dir ar gael i ddarparu cartrefi a chyfleoedd gwaith i bobl leol, gan helpu cynnal gwasanaethau gwledig. Ar yr un pryd, rhaid i'r system gynllunio ymateb i'r heriau sy'n codi yn sgil newid yn yr hinsawdd, er enghraifft drwy gynnwys yr angen i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Rhaid iddo hefyd warchod a gwella'r amgylchedd naturiol a hanesyddol a diogelu cefn gwlad a mannau agored. Nod cyffredinol y system gynllunio yw cefnogi cymunedau gwledig sy'n fyw ac yn gweithio er mwyn iddynt fod yn gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Dylai awdurdodau cynllunio geisio cryfhau cymunedau gwledig, drwy helpu i sicrhau*

*bod modd i'w trigolion presennol weithio a defnyddio gwasanaethau yn lleol, gan ddefnyddio dulliau teithio carbon isel a chael cyfran uwch o'u hynni o ffynonellau adnewyddadwy lleol."*

Yng nghyswllt arallgyfeirio ar ffermydd, mae Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn cynnwys y canllawiau canlynol:

*"3.7.2 Mae'n bosibl lleoli nifer o weithgareddau economaidd yn gynaliadwy ar ffermydd. Mae gweithrediadau bach ar y fferm, megis prosesu bwyd a choed a phhecynnu bwyd, ynghyd â gwasanaethau (e.e. swyddfeydd, gweithdai, llogi a chynnal a chadw offer), gwasanaethau chwaraeon a hamdden, cynhyrchu crydau heblaw am fwyd a chynhyrchu ynni adnewyddadwy i gyd yn debygol o fod yn ddefnyddiau priodol."*

Nid yw'r cynllun yn cael ei ystyried fel prosiect arallgyfeirio ar fferm. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r polisïau a restrir uchod, fod rhagdybiaeth o blaid datblygiadau ynni er mwyn cwrdd â'r targedau a nodwyd ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel. Mae maint y datblygiad a gategoreiddir fel un "Is-Awdurdod Lleol" neu "Ganolig" yn dderbyniol mewn egwyddor yn y lleoliad hwn. Gellir rhoi pwys hefyd ar y buddiannau i economi'r cefn gwlad.

Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd gan y Cyngor: 'Datblygiadau Ynni Gwynt (1994) wedi cael eu disodli gan y Canllawiau Cynllunio Atodol: Ynni Gwynt ar y Lan a fabwysiadwyd yn Ionawr 2013. Mae'r ddogfen hon yn ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar geisiadau am dyrbinau gwynt. Yn y CCA Ynni Gwynt ar y Lan, dywedir na ddylid lleoli tyrbinau sy'n uwch na 20m i flaen fertigol y llafn o fewn 500m i eiddo preswyl neu dwristiaeth neu'n agosach na 20 x yr uchder i flaen y llafn, p'un bynnag yw'r mwyaf; mewn perthynas â thyrbinau o faint canolig neu fawr, ni ddylid eu lleoli o fewn 2km i ffin yr AHNE; dylid ystyried yr effeithiau cronol a bydd rhaid i ddatblygwr ddarparu bond i sicrhau y bydd y safle'n cael ei adfer i gyflwr boddhaol wedi i oes weithredol y tyrbîn ddod i ben. O ran y materion penodol hyn, dywedwyd mewn penderfyniad apêl yn ddiweddar "*such a uniform approach disregards the specific locational characteristics and detail of each individual case*". Mae'r cais sydd dan sylw wedi cael ei ystyried ar ei rinweddau cynllunio ei hun ond gyda chyfeiriad at agweddau eraill o'r CCA, e.e. mewn perthynas â sŵn lle rhoddir cryn bwys ar y ddogfen.

Fel y dywedwyd yn y polisïau a restrwyd, mae ystyriaethau amgylcheddol a chymunedol eraill y mae angen eu hasesu, ac fe ystyrir y rhain isod.

### **Yr Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol**

Cefnogir y cais gan Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol (LVIA) a baratowyd gan Bright and Associates. Mae'r asesiad yn cynnwys Map Parth Gwelededd Theoretig (ZTV) ynghyd â ffotogyfosodiadau, ffotograffau o'r olygfa o wahanol leoliadau a delweddau 'wireframe'.

Comisiynodd y gwrthwynebwyd i'r cynllun eu ffotogyfosodiadau eu hunain ac fe gynhyrchwyd y rheini gan Architech Animation Studios (UK) Ltd yn Hydref 2013. Mae'r rhain wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu'r cais.

Yn yr ES (para 4.1.2) fe eglurir bod y dyluniad terfynol fel y cafodd ei gyflwyno dan y cais, wedi cymryd i ystyriaeth yr effaith ar y dirwedd ac effeithiau gweledol y cynllun gwreiddiol - roedd y cynllun hwnnw yn un am dyrbinau a oedd 100m i flaen fertigol y llafn ac yn 59m o uchder i'r hwb ac wedi dewis golygfeydd o rai lleoliadau ac ystyried eu heffaith, diwygiwyd y cynllun ac mae yn awr yn cynnig tyrbianu a fydd 81m i flaen fertigol y llafn a 55m o uchder at yr hwb. Mynna'r ES 'This is considered suitable in both the context of landscape and visual impact and in terms of capturing a suitable wind resource'. Ymhellach, mae'n mynnu (para 4.1.4 a 4.1.5): 'The nature of effect and visual implications

of the proposed scheme are not of an adverse nature and can be accommodated in terms of capacity into the landscape and visual baseline without overriding adverse effects”ac o ran tirweddau dynodedig gan gynnwys y Parc Cenedlaethol a'r AHNE “*the site is well distanced from all of these with no predicted significant effects upon the character of these landscapes*”.

Mae'r cais yn cymryd i ystyriaeth effeithiau cronol y datblygiad gyda thyrbinau 62m o uchder i flaen fertigol y llafr a gynigiwyd o fewn 300 a 500m i'r tri thyrbinau yn safle Braint a hynny mewn safle yn Tŷ Gwyn. Mae'r cais yn Tŷ Gwyn bellach wedi cael ei wrthod ar apêl gyda'r Arolygwyr yn penderfynu “*the proposal would have a significant harmful effect on the character and appearance of the surrounding rural area*”.

Mae'r safle arfaethedig yn Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) 12 Dwyrain Canolbarth Môn. Mae'r ACT, fel y caiff ei disgrifio yn y Diweddariad ar Strategaeth Dirwedd Ynys Môn 2011, yn ffurfio parth byffer mewndirol i'r Fenai ac yn nodweddiadol o dirwedd fryniog Ynys Môn. ACT 12 yw'r ACT fwyaf ond 2 ar yr ynys ac mae'n cynnwys ardal sy'n 100kms<sup>2</sup>.

Materion allweddol perthnasol ar gyfer ACT 12 o ran y cynnig hwn yw:-

- yr effeithiau ar y cynefin arfordirol a'r angen i gymryd Cynllun Rheoli'r AHNE i ystyriaeth; effaith y datblygiad ar gyrion aneddiadau;
- yr effaith ar goridorau trafndiaeth ac ar gymeriad ac ansawdd y porth i Ynys Môn.

Mae'r safle oddeutu 2km ar ei agosaf o gyrion yr AHNE ac mewn tirwedd o faint canolig gyda chaeau o faint amrywiol a thopograffi tonnog. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw dyrbinau o faint canolig neu fawr yn yr ACT ac nid oes modd eu gweld yn hawdd o'r ACT.

Caiff effeithiau sylweddol (cymedrol i fawr) ar gymeriad y dirwedd eu nodi yn yr LVIA hyd at radiws o 0.7km a **chymedrol i fawr** o fewn 2km iddi (cânt eu diffinio'n yr LVIA fel rhai agos). Yn yr ardal hon, byddai'r tyrbinau'n nodweddiadol adeiledig gor-amlwg, cânt eu disgrifio fel y 'ffocws' (4.7.26) yn yr LVIA. Y tu draw i 2km, disgrifir yr effeithiau fel **bychan** ac y tu draw i 8km fel **dibwys** (4.7.27). Mae'r Tabl Asesu 4.14 yn asesu'r effeithiau ar gymeriad y dirwedd fel canolig yn gyffredinol, ond 7777yn ein barn ni, byddai'r effaith yn fwy na hynny.

Nid oes unrhyw fethodoleg safonol wedi cael ei chyhoeddi ar gyfer mesur effeithiau ar y dirwedd ac yn ein barn ni, mae trothwy pellter yn symleiddio'n ormodol raddfa'r newid i'r dirwedd hon, tirwedd y mae rhai o'i rhinweddau ar eu mwyaf amlwg o bellteroedd mwy na 2km. Bwriedir lliniaru'r cynllun drwy ostwng uchder y tyrbinau o 100m i 81m i flaen fertigol y llafr ac uchder yr hwb o 59m i 56m (fe ly cawsant eu sgrinio). Dywed paragraff 4.7.26 *'in both a landscape and visual sense, the turbines will appear as a cohesive group and their visibility will create a focus within the landscape'*.

Mae Llundiau Cyfod 1-8 yn dangos maint y tyrbinau o fewn radiws o 2km i'r safle lle byddant yn nodweddiadol ar y nenlinell. Mae'n cynnwys hefyd y golygfeydd i gyfeiriad y de gyda golygfeydd o Eryri yn y cefndir. Dengys golygfa 1 sut y gall topograffi lleol leihau rhai effeithiau'n lleol ond, yn unol â'r disgrifiad LANDMAP, ychydig o strwythurau adeiledig o'r maint hwn sydd yn yr ardal. Mae golygfeydd 9 ac 11 yn dangos sut y byddai'r tyrbinau'n parhau i fod yn nodweddiadol amlwg yn y dirwedd gyda rhan sylweddol o'r rotorau'n torri'r nenlinell. Mae'r cynnig yn torri'r nenlinell yng ngolygfeydd 12 a 15 (5km a 6km yn y drefn honno). Ar bellter oddeutu 8km, byddai'r argraff a geir o ACT 12 o brif ffyrdd trafndiaeth yr A5 a'r A55 ger Llangefni lle mae traffig yn mwynhau golygfeydd eang o'r ACT, yn cael ei heffeithio'n sylweddol oherwydd y byddai rotorau'r tyrbinau yn sefyll allan fel elfennau symudol yn erbyn cefndir Parc Cenedlaethol Eryri.

Yn ychwanegol at hyn, er nad yw'r ymgeisydd, yn ei gyflwyniad, yn rhagweld yr effeithiau arwyddocaol ar yr AHNE ddynodedig, mae'n debyg y bydd llafrau'r rotorau'n ymddangos fel

nodweddion yn y nenlinell yn y golygfeydd i'r ynys ar yr A55 o gyfeiriad y dwyrain ar y lôn dwristaidd ryngwladol a phwysig hon, yng nghyffiniau Llandegfan er enghraifft.

Yn y disgrifiad o ACT 13, dywedir *'views across to the mainland are important, but perhaps as important are views obtained of the island from the mainland from the A487 between Caernarfon and Bangor. The A487 is one of the primary roads from the south and the views and vistas present an important image of the island to visitors and travellers'*.

Mae'n debyg y ceir golygfeydd sylweddol o'r tyrbinau o ardal Y Felinheli ac mae'r ZTV yn rhagweld y byddai modd eu gweld o Lwybr Arfordirol Cymru a Lôn Las Menai.

Gan droi at yr effeithiau gweledol, cydnabyddir yn yr LVIA y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol o olygfannau 2,3,5,6 a 7. Rhwng radiws o 600m a 1.5km o'r safle, mae llwybrau cyhoeddus tua'r gogledd orllewin a'r gogledd ddwyrain o'r safle. Byddai'r tyrbinau'n amlwg yn yr olygfa o'r pellter hwn i'r sawl fyddai'n teithio i gyfeiriad deheuol. Byddent yn amharu ar y golygfeydd tuag at Eryri sy'n nodwedd weledol hynod o'r lonydd hyn. Soniwyd uchod am yr effeithiau gweledol ar y prif ffyrdd trafniadaeth. Ceir golygfeydd agored o rannau o'r A5025 er enghraifft. Mae golygfeydd o Eryri yn y cefndir wrth deithio tua'r de a byddai'r tyrbinau'n nodwedd amlwg yn yr olygfa honno.

O ran effeithiau cronol, gwrthodwyd y tyrbîn yn Tŷ Gwyn ar apêl. Mae'r cais ar gyfer tyrbîn yn Marchynys (41C66E) wedi cael ei dynnu'n ôl. Mae'n bosib y bydd y tyrbîn arfaethedig yn Fferm Tŷ Fry yn mynd i apêl ar ôl cwblhau AEA. Mae tyrbinau llai wedi cael eu cymeradwyo mewn ACT gyfagos ac er bod golygfeydd mewn-olyniaeth yn debygol, mae'n annhebygol y caiff golygfeydd cronol y tyrbinau gwynt bychan yng nghynllun Braint effaith sylweddol. Byddai cyflwyno'r 3 thyrbîn arfaethedig yn ACT 12 yn nodwedd ddiffiniol, byddai'n gostwng ymhellach sensitifrwydd y dirwedd hon i newidiadau ychwanegol, yn arbennig tyrbinau gwynt pellach a byddai'n gostwng ansawdd 'byffer' y dirwedd i'r AHNE a'r dirwedd arfordirol.

Mae Mynydd Bodafon er enghraifft â golygfeydd o'r datblygiad ynni gwynt cyfredol ar yr ynys ac mae golygfeydd i'r môr ac mewn-cyfuniad o'r ffermydd gwynt i'r gogledd o'r ynys yn bosibl o nifer o leoliadau. Mae isadeiledd arall megis y mast ym Mhenmynydd a pheilonau yn elfennau sy'n amharu'n weledol yn ACT 12. Byddai'r goleuadau y mynnir arnynt gan y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ychwanegu at yr effeithiau gweledol ac yn diwydiannu'r dirwedd wledig. Mae tueddiad ar gyfer datblygiadau mewn cysylltiad ag ynni yn yr ardal hon megis y cysylltiadau i'r grid cenedlaethol. Wrth wrthod apêl Tŷ Gwyn, nododd yr Arolygydd *'that there is a case for avoiding a situation where wind turbines are spread throughout the whole of a county. The northern part of the island already has a number of large and medium sized wind turbines and the proposal would represent a southward extension into the largest landscape character area in the south eastern part of Anglesey which currently only has one small turbine (up to 20m blade tip)'*.

Yn Adran 8.4 NCT 8, dywedir bod amcan ymhlyg i gynnal ansawdd a chyfanrwydd yr AHNE, h.y. ni ddylai tyrbinau newid cymeriad y dirwedd. Yr un modd, ar gyfer gweddill Cymru, a'r tu allan i Ardaloedd Chwilio Strategol, yr amcan yw cynnal cymeriad y dirwedd, h.y. eto, ni ddylai tyrbinau newid cymeriad y dirwedd.

Nid yw'r LVIA yn profi y gellid lleoli'r cynnig yn ACT 12 heb iddo cael effeithiau andwyol annerbyniol ar gymeriad yr ardal honno. Deuai fferm wynt Braint yn nodwedd ddiffiniol yn y dirwedd yn lleol gan newid y dirwedd mewn modd sylweddol ac andwyol a byddai'r effeithiau'n ymestyn y tu draw i'r ardal oherwydd natur yr ACT a'r dirwedd o'i amgylch. Byddai'n gostwng ansawdd yr ardal fel y byffer i'r AHNE a byddai'n lleihau sensitifrwydd yr ardal i newid pellach. Rhagwelir y byddai'r cynnig yn effeithio'n andwyol ac yn sylweddol o olygfannau cyhoeddus a ffyrdd trafniadaeth gyda hynny'n cael effaith ar argraff pobl o'r ynys. Byddai'n nodwedd amlwg mewn golygfeydd i mewn i'r tir o gyfeiriad y



gorllewin a'r dwyrain i'r ynys ac yn effeithio'n andwyol ar yr AHNE. Byddai modd ei weld hefyd o bwyntiau uwch yn yr AHNE a byddai'n effeithio ar y golygfeydd agored i gyfeiriad Eryri. Deuai'r cynnig â datblygiad ynni gwynt sylweddol i ardal o'r ynys sydd, ar hyn o bryd, yn rhydd o unrhyw ddatblygiad ynni gwynt sylweddol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu'r cynnig oherwydd yr effaith a gâi ar y golygfeydd panoramig o Barc Cenedlaethol Eryri a'r effeithiau ar gymeriad yr ardal nad oes ynddi fawr ddim o nodweddion amlwg neu dirnodau sy'n tynnu oddi wrth ei chymeriad ac mae'n darparu cefndir niwtral i'r AHNE. Byddai'r datblygiad yn tynnu'n groes i bwrpas statudol y Parc Cenedlaethol a'r dynodiadau AHNE.

### Treftadaeth Ddiwylliannol

Mae Asesiad Treftadaeth Ddiwylliannol yn ffurfiol rhan o'r ES ac mae'n nodi'r effeithiau a ragwelir ar sampl o henebion ac adeiladau rhestredig a safleoedd dynodedig eraill yng nghyffiniau safle'r cais. Rhydd yr asesiad sylw i'r effeithiau ffisegol a gweledol. Gofynnwyd am y 'wireframes' diwylliannol a ddefnyddiwyd i gynorthwyo'r asesiad a rhoddwyd y rheiny i'r awdurdod a'r ymgynghorion gan y datblygwr. Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd ac Adain Amgylchedd Adeiledig a Thirwedd y Cyngor wedi gwneud sylwadau ar yr hyn a gyflwynwyd ond er ymgynghori â nhw, nid yw CADW wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar yr achos hwn.

Mae LANDMAP yn categoreiddio'r ardal fel un eithriadol o ran ei hadnoddau hanesyddol / archeolegol, adnoddau a gânt eu hystyried yn gyffredinol fel rhai o werth cenedlaethol.

O ran effeithiau gweledol, ac yn seiliedig ar astudiaethau top desg a cherdded y safle, arolygon geo-ffisegol ac agor ffosydd, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r y datblygiad arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol, h.y. yn difrodi neu'n dinistrio unrhyw dreftadaeth ddiwylliannol y gwyddys amdani. Efallai y byddai'n effeithio ar 3 ased ar wahân ac mae'r adroddiad yn awgrymu y byddai briff i gadw golwg ar y sefyllfa archeolegol yn ddigonol i liniaru'r sefyllfa (er mwyn sicrhau cadwraeth drwy gofnodi unrhyw weddillion).

O ran effeithiau gweledol, samplwyd 16 o asedau unigol (yn cynrychioli mwy na 25% o'r asedau y gwyddys eu bod o fewn 5km i'r safle) ac fe'u dewiswyd oherwydd eu bod yn agos at y datblygiad ac yn caniatáu asesiad o bob pwynt o'r cwrmpawd. O'r safleoedd a aseswyd, daeth yr adroddiad i'r casgliad y bydd y datblygiad yn cael effaith ganolog i fawr ar ddau o'r safleoedd sef Cloddwaith Bryn Eryr ac annedd restredig graddfa II\* Tŷ Fry (mae'r gerddi yn Tŷ Fry newydd gael eu cofrestru'n Barc a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru ond nid ydynt yn cael eu hasesu yn yr adroddiad). Daeth yr adroddiad i'r casgliad y câi'r datblygiad effaith weledol fawr ar eglwys restredig graddfa II\* St Gredifael. Yn achos Cloddwaith Bryn Eryr, byddai effaith fwyaf y datblygiad i'w weld wrth edrych o'r heneb yn hytrach na thuag at o a hynny oherwydd y topograffi. O ran Tŷ Fry, dywedir mai i'r de tuag at y tyrbinau y ceir y brif olygfa o'r tŷ ac maent oddeutu 1.5km i ffwrdd. Byddai'r llafnau weladwy rhwng y tŷ ac Eryri. O ran Eglwys St Gredifael, ystyrir y byddai'r datblygiad yn cael effaith ar yr ased ei hun a'r ardal o'i gwmpas oherwydd bydd modd gweld y tyrbinau'n glir o'r ardal gyda hynny'n amharu'n weledol arni. Daw'r adroddiad i'r casgliad na fyddai modd cyflwyno unrhyw gamau lliniaru ar gyfer yr effeithiau gweledol a fyddai'n debygol o godi.

Dywedir fel a ganlyn ym Mholisi Cynllunio Cymru:

*"6.5.1 The desirability of preserving an **ancient monument** and its setting is a material consideration in determining a planning application, whether that monument is scheduled or unscheduled. Where nationally important **archaeological remains**, whether scheduled or not, and their settings are likely to be affected by proposed development, there should be a presumption in favour of their physical*

*preservation in situ. In cases involving lesser archaeological remains, local planning authorities will need to weigh the relative importance of archaeology against other factors, including the need for the proposed development”;*

a

*6.5.9 Where a development proposal affects a **listed building** or its setting, the primary material consideration is the statutory requirement to have special regard to the desirability of preserving the building, or its setting, or any features of special architectural or historic interest which it possesses”.*

Ceir cyngor tebyg yng Nghylchlythyr 60/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archeoleg a Chylchlythyr 61/96 mewn perthynas ag Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth.

Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd wedi codi pryderon na chytunwyd ar sgôp y gwaith maes archeolegol a'r rhaglen agor ffosydd ond serch hynny, mae'n cydnabod fod y canlyniadau wedi cael eu cefnogi gan ganlyniadau a gafwyd yn sgil agor ffosydd. Awgryma y byddai wedi bod yn ddefnyddiol agor cyfres o ffosydd mewn ardaloedd 'blanc' er mwyn dilysu'r canlyniadau geoffisegol ac nad oedd y gwerthusiad yn adlewyrchiad digonol o adnoddau archeolegol y safle. Fe ymddengys hefyd nad yw Y Faenol ar Pharc a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig Tŷ Fry wedi cael eu cynnwys yn yr Asesiad. Nid yw Safle Treftadaeth y Byd Castell Caernarfon a Waliau'r Dref wedi cael eu hasesu er eu bod y tu mewn i'r ZTV ar gyfer llafnau.

Daw'r LVIA a'r Asesiad Treftadaeth Ddiwylliannol i'r casgliad y câi'r cynigion effeithiau negyddol ar asedau treftadaeth ddiwylliannol benodol, gan effeithio'n benodol ar eglwys St Gredifael.

## **Ecoleg**

Cyflwynwyd asesiadau ecolegol ac adaregol fel rhan o'r ES i gefnogi'r cais gyda'r rheiny yn cynnwys arolygon penodol ar gyfer ystlumod, dyfrgwn a moch daear ynghyd ag arolygon o adar yn bridio/gaeafu. Yn ychwanegol at hyn, ac mewn ymateb i wrthwynebiad a godwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, cyflwynodd Atmos Consulting, ar ran y datblygwyr, lythyr dyddiedig 19 Chwefror 2014 yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol gyda chyfeiriad penodol at ystlumod ac, mewn ymateb i wrthwynebiadau a oedd yn parhau, cyflwynwyd strategaeth lliniaru mewn perthynas ag ystlumod yn Awst 2014 fel atodiad i'r ES.

Mae'r Strategaeth Lliniaru ar gyfer Ystlumod yn awgrymu rhaglen leihau a monitro ar ôl adeiladu a mynnu ar amod er mwyn osgoi unrhyw effaith ar ystlumod. Yn ychwanegol at hyn, mae'r adroddiad yn awgrymu y byddai cyflwyno pump o flychau i ystlumod ac un gaeafdy yn y safle ac o'i gwmpas yn arwain at gynnydd net yn y clwydi posibl a byddai'r rhain hefyd yn cael eu monitro fel rhan o'r gwaith ar ôl adeiladu. Yn ogystal, byddai'r bylchau yn y gwrychoedd yn cael eu llenwi er mwyn gwella bioamrywiaeth ac arwain ystlumod i ffwrdd o safle'r tyrginau. Cynigir gwneud rhywfaint o'r gwaith hwn ar dir sydd y tu allan i safle'r cais nad oes gan y datblygwr unrhyw berchenogaeth neu reolaeth arno.

O ran mesurau lliniaru ar gyfer ystlumod a chyda chyfeiriad penodol at weithrediad y tyrbinau yn hytrach na mesurau lliniaru ychwanegol, mae CNC, yn fodlon – gydag amodau cynllunio priodol - y byddai cwtogi gweithrediad y tyrbinau am gyfnod o ddwy awr ar ôl machlud yr hawl a chyfnod o 2 awr cyn y wawr rhwng Mai a Medi pan mae cyflymder y gwynt yn llai na 6.5m/s yn rhoddi digon o ddiogelwch i ystlumod ac yn sicrhau na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar statws cadwraeth a ffeirir y rhywogaethau.

Bydd angen monitro'r rhaglen leihau hon ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladau er mwyn penderfynu ar yw'r camau lliniaru'n effeithiol ac a oes angen unrhyw newidiadau.

Yn ychwanegol at hyn, awgrymir amodau mewn perthynas ag effeithiau unrhyw waith adeiladau yn ystod cyfnodau pan mae ystlumod yn hedfan o gwmpas, y goleuadau ar y safle a, lle mae hynny'n bosibl, y mesurau lliniaru ychwanegol a amlinellir yn y ddogfen strategaeth.

Ystyrir y byddai Mesurau Osgoi Rhesymol yn dderbyniol i roi sylw i unrhyw effeithiau posibl ar ddyfrgwn; cofnodwyd un gylfinir (rhywogaeth ar y rhestr goch yng Nghymru oherwydd gostyngiad mawr yn y poblogaethau bridio) a chynllun diogelu adar (gan lynu wrth fyffer dim-adeiladu 800m o gwmpas canolbwynt unrhyw dir lle mae gylfinirod yn bridio) yn ystod y tymor bridio sy'n rhedeg o ganol mis Chwefror hyd ddiwedd mis Gorffennaf ac eithrio mewn achosion lle na chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o adar bridio yn ystod y gwaith monitro - yn yr achos hwnnw, byddai modd addasu'r rhaglen adeiladu.

### **Risg Llifogydd ac Atal Llygredd**

Mae adroddiad hydroleg a hydro-ddaearegol yn rhan o'r ES. Mae'r dŵr daear a'r dŵr wyneb yn y safle wedi cael eu hasesu fel rhan o'r cynigion. Lleolir y tyrbinau rhwng 60 a 65m AOD ar lethr gorllewinol/de orllewinol sy'n codi i lefel o 70m AOD i'r gogledd ddwyrain o'r tyrbinau arfaethedig. O'r tyrbinau, mae'r topograffi yn syrthio i'r gorllewin ar de orllewin at Afon Braint ar oledf oddeutu 55mAOD.

Mae Afon Braint yn llifo i gyfeiriad y de ar hyn ffin orllewinol safle'r cais. Lleolir nifer o ffosydd, cyrsiau dŵr a ffrydiau ar safle'r cais ac yn gyffredinol, maent yn llifo i gyfeiriad de orllewinol i'r Braint. Cynigir darparu dwy groesfan ar y trac mynediad.

Lleolir y safle ym mharth llifogydd A fel y caiff ei ddiffinio yn NCT 15 ond mae tyrbinau 3 wedi'i leoli yn ymyl parth llifogydd C2. Daw asesiad o ganlyniadau llifogydd i'r casgliad na fyddai'n cael unrhyw effeithiau andwyol ar yr amod y cymerir camau lliniaru ac mae CNC yn cytuno â hynny. Er enghraifft, rhaid gosod gosod trawsnewidydd y tyrbinau o leiaf 600mm uwchlaw lefel cyfredol y ddaear a rhaid rheoli, e.e. lleoliad unrhyw ddeunyddiau sydd wedi cronni. Gellir mynnu ar y mesurau hyn mewn amodau cynllunio. Nid ystyrir y byddai'r datblygiad yn cael effaith ar lif unrhyw ddŵr daear neu ddŵr glaw ar yr amod y mynnid ar y mesurau rheoli statudol mewn perthynas ag atal llygredd.

### **Sŵn**

Cefnogwyd y cais yn y lle cyntaf gan adroddiad sŵn a baratowyd gan AMEC Environment ac Infrastructure Ltd ac roedd yn rhan o'r ES. Yn yr adroddiad, nodir y fethodoleg a dderbyniwyd i weithio allan y lefelau sŵn rhagweledig o ganlyniad i'r datblygiad ac roedd yn cynnwys mesuriadau o'r sŵn cefndirol wedi eu cymryd mewn amryfal dderbynyddion o gwmpas y safle ac mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw gyda'r Adain Iechyd yr Amgylchedd. Roedd yr adroddiad yn ystyried sŵn yn ystod y cyfnod adeiladu ac yn ystod gweithrediad y datblygiad.

O ran yr effeithiau yn ystod y cyfnod adeiladu, daw'r adroddiad i'r casgliad na fyddai lefelau'r sŵn a ragwelir yn y safleoedd derbyn agosaf (anheddau) cyfagos yn uwch na'r Safon Brydeinig berthnasol.

O ran sŵn yn ystod y cyfnod gweithredu, defnyddiwyd 'amlen asesu' a roddodd sylw i'r senario waethaf (gwynt ar bob cyflymder) yn seiliedig ar amrediad o tyrbinau sydd ar gael yn fasnachol ac sy'n cyd-fynd â maint ac allbwn y cais. Cafodd 3 o fodolau gwahanol eu hasesu er mwyn darparu tyrbinau generig ar gyfer asesu effaith sŵn. Ynghyd â'r effaith o fferm wynt Braint ei hun, cynhaliwyd asesiad sŵn cronol er mwyn ystyried yr effaith ar y cyd â'r datblygiad mewn 4 safle arall yn yr ardal sef Tŷ Gwyn, Tŷ Fry, Marchynys a Tyddyn Rhos. Er cyflwyno cais, mae Tŷ Gwyn wedi cael ei wrthod ar apêl a chais Marchynys wedi cael ei dynnu'n ôl.

Mae'r adroddiad yn rhagweld y bydd lefelau'r sŵn o fferm wynt Braint ynddynt eu hunain yn cwrdd â chanllawiau ETSU ynghyd â chyfyngiadau sŵn y Cyngor ym mhob lleoliad. Dengys hefyd bod yr asesiad o'r sŵn o'r fferm wynt yn ystod y dydd yn llai na'r lefel gefndirol ar gyfer yr holl leoliadau eraill ac eithrio'r annedd yn Bryn Eryr Isaf lle mae cynnydd 0.2dB. Rhagwelir na fydd y cynnig yn mynd uwchlaw lefelau cefndirol yn y rhan fwyaf o dderbynyddion.

Rhagwelir y bydd y gwahaniaeth lleiaf rhwng cyfyngiadau sŵn ETSU-R-97 a'r lefel sŵn a ragwelir yn ystod oriau'r dydd o fferm wynt Braint yn unig yn Bryn Eryr Isaf. Mae'r gwahaniaeth lleiaf ar gyfer oriau'r nos yn Rhyd y Delyn Fawr a Bryn Eryr Isaf.

Rhagwelir y bydd effeithiau cronol y sŵn yn ystod y dydd a'r nos yn y mwyafrif o'r derbynyddion yn debyg i lefelau'r sŵn o fferm wynt arfaethedig Braint ar ei phen ei hun. Roedd y gwahaniaeth lleiaf ar gyfer y dydd a'r nos yn yr asesiadau cronol yn Rhyd y Delyn Bach.

Yn unol â chais y Cyngor, cynhaliwyd asesiad hefyd o effaith sŵn fferm wynt Braint yn unig yn ystod oriau'r nos a hynny'n unol â'r meini prawf a nodwyd yn CCA y Cyngor ar Ynni Gwynt ar y Lan (Ionawr 2012). Yn hwn, defnyddir terfyn sŵn is o 35 dB LA90,10 mun ar gyfer oriau'r nos sy'n llai na'r terfyn o 43 dB LA90,10mun a nodir yng nghanllawiau ETSU. Dengys canlyniad yr asesiad hwn mai yn Rhyd y Delyn Bach a Rhyd y Delyn Fawr y mae'r gwahaniaeth isaf yn ystod oriau'r nos rhwng y cyfyngiadau sŵn o 0.2 dB(A).

Yn ôl yr adroddiad, ni fyddai'r tyrbinau yn cynnwys unrhyw gydran donyddol ac o'r herwydd, nid oes angen mynnu ar gosb donyddol. Mae'r adroddiad yn trafod is-sain a sŵn amledd isel ac ystyrir na fyddai unrhyw broblem yn codi o ganlyniad i'r datblygiad. Rhoddir sylw hefyd i Fodylu Osgledau (MO) ond dywedir bod y cyfyngiadau sŵn a gafwyd ar ôl dilyn y weithdrefn a argymhellwyd gan ganllawiau ETSW yn cymryd y ffenomen hon i ystyriaeth '*to a certain extent and thus affords receptors some protection*'. Gan gymryd canllawiau ETSU i ystyriaeth, daw'r adroddiad i'r casgliad fod lefelau'r sŵn o'r cynnig – ar ei ben ei hun ac mewn cyfuniad ag eraill – o fewn y cyfyngiadau yn yr holl leoliadau.

Mae'r Adain lechyd yr Amgylchedd wedi ystyried yr asesiadau a gyflwynwyd ac yn codi pryderon ynghylch y cyfyngiad sŵn o 43 dB LA90 y mynnir arno ar gyfer oriau'r nos yn ETSU-R-97. Bydd CCA y Cyngor yn ceisio cymryd i ystyriaeth y drafodaeth sy'n parhau ynghylch newid yng nghyfeiriad y gwynt, sŵn MO a'r gwahaniaethau yng nghyfyngiadau nos a dydd ETSU. Mae'r CCA yn pennu cyfyngiadau sŵn o dyrbinau gwynt ar y lefel 35 dB LA90 sydd yn ETSU-R-97 neu 5 dB (A) uwchlaw'r lefelau cefndirol. Ym marn y Cyngor, dylai'r datblygiadau gydymffurfio gyda'r cyfyngiad isaf yn achos y dydd neu'r nos. Mae hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r datblygwyr ddangos na fyddai'r sŵn o'r tyrbinau yn Braint yn mynd uwch-lawr lefel o 35 dB(A) neu 5 dB(A) (wedi ei fesur fel LA90, 10 mun) uwchlaw'r sŵn cefndirol, p'un bynnag yw'r uchaf hyd at gyflymder gwynt o 12m/s ar uchder o 10m.

Mae'r Adain lechyd yr Amgylchedd wedi dangos i ba raddau y byddai sŵn o fferm wynt Braint ar ei phen ei hun yn mynd uwchlaw'r lefelau sŵn yn y derbynyddion. Mae'n debyg y byddai modd clywed y fferm wynt o'r eiddo a restrir pan fod cyflymder y sŵn ar y lefel a nodir. Gan ddefnyddio sŵn cefndirol + 5 dB fel a nodir yn y CCA yn hytrach na'r cyfyngiad ETSU o 43 dB LA90 a ddefnyddiwyd yn yr asesiad, dangosir bod 5 o'r lleoliadau derbyn yn agos iawn at y lefel cyfyngiad sŵn gan godi pryderon ynghylch unrhyw lwfans ar gyfer camgymeriad neu gosb.

O ran yr asesiad o'r sŵn cronol, mae'r datblygwyr wedi dewis defnyddio'r cyfyngiad ETSU yn unig ac nid ydynt wedi darparu cymhariaeth gyda'r cyfyngiadau sŵn yn y CCA. Mae'r gymhariaeth hon, a wnaed gan yr Adain lechyd yr Amgylchedd, yn dangos bod lefelau'r sŵn yn mynd uwchlaw'r cyfyngiadau ar gyfer oriau'r nos a nodir yn y CCA yn Rhyd y Delyn Fawr (6m/s) a Rhyd y Delyn Bach (6 a 7 m/s).

O ran cosb donyddol, fel a nodir uchod, mae'r asesiad yn awgrymu na fydd angen cywiriad tonyddol yn y tyrbinau a ddewiswyd. Fodd bynnag, mae'r adroddiad sŵn ar gyfer un o'r tyrbinau a ddewiswyd (yr Enercon E-44) i ddarparu 'amlen asesu' yn nodi tŵn o 186-198 Hz pan fo'r gwynt yn chwythu ar gyflymder penodol a bod elfen donyddol i'w chlywed yn gyffredinol. Yn ychwanegol at hyn, mae'r asesiad yn nodi y cafwyd data pendant y byddir yn sefyll wrtho ynglŷn â'r sŵn o'r tyrbinau ond mewn achosion lle nad oedd data o'r fath ar gael, roedd elfen o ansicrwydd ynghlwm wrth lefelau'r sŵn. Yn yr adroddiad ar y sŵn o'r tyrbinau penodol yn nodi yn glir nad yw'n adroddiad yn un y gellir ei warantu. Mae ymwadiadau tebyg ar y ddau dyrbin arall. Lle mae lefelau'r sŵn a ragwelir yn agos at gyfyngiadau sŵn, mae'n bwysig sicrhau y bydd y tyrbinau'n cael eu cyfyngu i'r lefelau a ragwelwyd. Drwy foddu'r sŵn a ragwelir i ganiatáu ar gyfer ffactor sero yn hytrach na 0.5 (sy'n cael ei dderbyn yn achos lefelau pŵer sain y mae modd eu gwarantu ac sydd wedi eu defnyddio yn asesiad y datblygwyr), byddai'r lefelau sŵn a ragwelir yn cynyddu mewn tri o'r safleoedd derbyn gan 1.7dB a chan 1.8dB mewn dau arall sy'n brawf o'r amrywiad yn y fethodoleg ar gyfer rhagweld sŵn a'r posibilrwydd o gamgymeriadau sy'n bodoli. Byddai'r gwahaniaethau hyn yn golygu y byddai fferm wynt Braint yn mynd uwchlaw'r cyfyngiadau sŵn yn y CCA pan fyddai'r gwynt yn chwythu 6m/s (ucher o 10m) yn Bryn Eryr Isaf, Cae Gors, Rhyd y Delyn Bach and Rhyd y Delyn Fawr.

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch cwynion a gafwyd yn ddiweddar ynghylch sŵn MO a diffyg methodoleg ffurfiol ar hyn o bryd i asesu ei effeithiau er bod y CCA yn cyfeirio at benderfyniad a wnaed mewn ymchwiliad i safle yn Denbrook yn 2009. Nid yw'r canllawiau ETSU yn cynnig unrhyw gosb ar gyfer MO gormodol. Mae'r canllawiau yr oedd ETSU yn seiliedig arnynt wedi cael eu diweddarau ac mae'r canllawiau newydd yn cynnwys cywiriad ar gyfer sŵn a chanddo '*distinct impulses*' neu sy'n '*irregular enough to attract attention*'. Mae natur fympwyol MO yn golygu bod LA90 yn un o'r mynegeion lleiaf addas at gyfer mesur digwyddiad MO.

Gan fod y cynigion yn darparu cyn lleied o wahaniaeth rhwng lefelau rhagweledig y sŵn a chyfyngiadau sŵn y CCA, gan ganiatáu ond ychydig iawn o lwfans ar gyfer camgymeriad neu unrhyw gosb lle mae angen hynny, nid oedd y cynllun yn cael ei gefnogi.

Comisiynydd y gwrthwynebwyr i'r cynnig eu hasesiad eu hunain o'r ES mewn perthynas â sŵn. Cynhyrchwyd adroddiad ar eu rhan gan MAS Environmental. Mynegwyd pryderon ynghylch y modd y mesurwyd lefelau sŵn cefndirol ac effeithiau cysgodol yr anheddau ynghyd â diffyg sgrinio rhag sŵn traffig ar y ffordd a fyddai'n cael effaith ar y canlyniadau, e.e. mae'r lleoliad monitro M1 20m i ffwrdd o'r annedd ac o fewn golwg i lôn ac yn agos at ganolfan ailgylchu a mynegwyd pryderon fod y canlyniadau a gafwyd yn debygol o fod yn or-ddatganiad o lefel y sŵn yn y cefndir. Mynegwyd pryder ynghylch y rhagamcan sydd yn yr adroddiad o gyflymder y gwynt ar lefelau uwch a diffyg mesuriadau yn yr asesiad o gyflymder y gwynt ar y safle. Dywedir ei bod yn debygol bod y dadansoddiad a gyflwynwyd yn tanamcangyfrif effaith y sŵn o'r fferm wynt oherwydd nad yw cyflymder y gwynt ar lefel uwch wedi cael ei asesu'n iawn. Ystyrir hefyd nad yw MO wedi cael ei asesu'n ddigonol. Mynegwyd pryderon bod cyflymderau gwynt safonol wedi cael eu defnyddio i fesur cydymffurfiaeth gyda'r amodau.

Yn ogystal, cyflwynodd gwrthwynebydd arall sylwadau mewn perthynas â MO.

Mewn ymateb, cyflwynwyd nodyn technegol gan AMEC ac roedd asesiad sŵn yn rhan ohono sy'n disodli data ES. Daw'r asesiad i'r casgliad na fyddai sŵn o fferm wynt arfaethedig Braint yn uwch na chyfyngiadau ETSU naill ai ar ei phen ei hun neu'n gronol â datblygiadau eraill. Nid yw MO yn fater y gellir ei ragweld yn ddigonol nac yn gywir ac o'r herwydd, dywedir yn y nodyn technegol nad yw'r datblygwr o'r farn bod angen amod yn hyn o beth.

Cyflwynodd yr asiant e-bost ym mis Ionawr 2014 yn dyfynnu canllawiau ETSU-R-97 fel y ddogfen

gyfeirio swyddogol ar gyfer penderfynu ar effeithiau sŵn.

Fodd bynnag, mae'r Adain Iechyd yr Amgylchedd yn parhau i godi pryderon ynghylch MO ac yn codi pryderon eto ynghylch gadael y mater i'r derbynydd drwy ddeddfwriaeth arall megis Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Pery pryderon ynglŷn â'r fethodoleg fwyaf priodol a bod y lwfans ar gyfer caniatáu cosb o ran MO yn annigonol.

## Mwynderau Preswyl

Ceir gyda'r cais asesiad o effeithiau'r cynnig ar fwynderau preswyl o safbwynt gweledgol. Mae'r swyddogion hefyd wedi cynnal asesiad o'r effeithiau ar fwynderau eiddo o gwmpas y safle.

Mae polisi C7 yng Nghynllun Ffamwaith Gwynedd yn cefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy os yw'r effaith ar yr ardal leol yn dderbyniol. Ym mhollisi 45 Cynllun Lleol Ynys Môn, mynnir na ddylai'r datblygiad gael effaith annerbyniol ar *the standard of amenity enjoyed by the resident and tourist population*". Mae polisi EP18 yng Nghynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd yn cynnwys yr un maen prawf ond dywedir na ddylai datblygiad gael effaith andwyol sylweddol. Mae Polisiâu 1 a GP1 yng Nghynllun Lleol Ynys Môn a'r Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd o bwys wrth ystyried mwynderau preswyl. Dywed paragraff 12.8.14 Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 5) (Tachwedd 2012):

"...bydd angen i ddatblygwyr fod yn sensitif i amgylchiadau lleol, gan gynnwys lleoli datblygiadau yn unol â thirffurfiau lleol, pa mor agos ydynt at aneddiadau, ac ystyriaethau eraill o ran cynllunio..."

Mae Atodiad D TAN 8 yn rhestru'r ffactorau y dylid fel arfer eu hadolygu i ganfod "ardaloedd sy'n dechnegol ddichonadwy" ar gyfer datblygu cynlluniau ynni gwynt ar y tir. Ym mharagraff 3.4, nodir "ar hyn o bryd mae 500m yn cael ei ystyried yn bellter gwahanu nodweddiadol rhwng tyrbîn gwynt ac eiddo preswyl er mwyn osgoi effeithiau sŵn annerbyniol, fodd bynnag, pan gaiff ei ddefnyddio mewn modd anhyblyg gall arwain at ganlyniadau ceidwadol ac felly cynghorir rhywfaint o hyblygrwydd"

Mae Canllawiau Cynllunio Atodol y Cyngor Ynni Gwynt ar y Lan (Ionawr 2013) dywedir na ddylid lleoli tyrbînau sy'n 20m i flaen fertigol y llafn neu uwch. O fewn 500m i eiddo preswyl neu dwristiaeth neu'n agosach na 20 x yr uchder i flaen y llafn, p'un bynnag yw'r mwyaf.

Mewn llythyr dyddiedig 5 Chwefror 2013, mewn ymateb i bryder gan drydydd parti ynglŷn â'r CCA sydd bellach wedi cael eu mabwysiadu, cadarnhaodd Prif Swyddog Cynllunio LIC:

*'The Welsh Government's planning policy and guidance does not specify a minimum distance between dwellings and wind turbines. It is our view that a rigid minimum separation distance could unnecessarily hinder the development of renewable energy projects in Wales. The Welsh Government opposed the Private Members' Bill 'Wind Turbines (Minimum Distances from Residential Premises) Bill introduced in the House of Lords by Lord Reay, which sought to make provision for a minimum distance between wind turbines and residential premises according to the size of the wind turbine, which has subsequently failed to make it into statute. We consider that the issue of separation distances between residential premises and wind turbines is best determined locally on a case-by-case basis, taking on board locally sensitive issues such as topography and cumulative impacts, when decisions on planning applications are taken'.*

Nid yw'r cais fel y cafodd ei gyflwyno wedi'i leoli o fewn 500m i unrhyw eiddo – ar ei agosaf, mae oddeutu 647m o'r eiddo agosaf sef Rhyd y Delyn Fawr a 662m o Cae Cors. Byddai defnyddio'r canllaw 20 x uchder i flaen y llafn yn gwahardd codi'r tyrbînau hyn (sy'n 81m i flaen fertigol y llafn) o fewn 1.62km i unrhyw eiddo. Mae'r cynllun o fewn y pellter hwn i dros 60 o eiddo unigol ynghyd â phentref Rhoscefnhir.

Mae'r gofyniad mewn perthynas â'r byffer uchder 500m / 20 x yr uchder i flaen y llafn wedi cael ei ddiystyru fel 'arbitrary and mechanistic' mewn apêl onerwydd nad yw'n cymryd i ystyriaeth yr amgylchiadau penodol sy'n bodoli mewn gwahanol safleoedd. Mae'r asesiad yma'n seiliedig ar yr effeithiau y rhagwelir y bydd y cynllun yn eu cael ar eiddo unigol ac nid yw'n defnyddio'r CCA byffer fel mater o drefn.

Dyma rai o'r eiddo sydd agosaf at y tyrbîn arfaethedig:

Eiddo	Pellter yn fras o'r Datblygiad
Rhyd y Delyn Fawr	647m
Cae Gors	662m
Rhyd y Delyn Bach	706m
Plas Marchog	709m
Maes Llwyn	730m
Bryn Eryr Uchaf	751m

Mae swyddogion wedi asesu eiddo yn ychwanegol at y rheiny a restrir o amgylch y safle, er enghraifft, Fferm Llechwedd, Llwyn Hudol, Tŷ Gwyn a Rhos Owen sy'n eiddo gyda golygfeydd gweddol agored i'r safle ynghyd â Neuadd Lwyd sy'n cael ei ddefnyddio fel gwesty.

Yn yr ES, dywedir y byddai'r datblygiad yn cael effaith fawr ar 22 eiddo. Rhyd y Delyn Bach sydd â'r olygfa ehangaf o'r tyrbînau o'i ddrychiad blaen a'i ardd. Byddai'r tyrbînau ar eu hagosaf wedi eu lleoli oddeutu 700m i'r eiddo ac union rhwng yr eiddo a mynyddoedd Eryri y tu draw. Byddai'r tyrbînau'n agosach at yr annedd yn Rhyd y Delyn Fawr ond mae'r tŷ wedi ei leoli ar ongl i'r datblygiad a byddai'r prif olygfeydd tua'r de-ddwyrain ac mae coed mawr ar y terfyn a fyddai'n sgrinio rhai golygfeydd uniongyrchol. Byddai'r tyrbînau'n cael eu lleoli rhwng yr annedd a'r olygfa tua Eryri. Lleolir Llwyn Hudol rhyw 862m o'r tyrbîn agosaf ond byddai golygfeydd uniongyrchol o'r annedd a'r cwrtil. Mae bwthyn gwyliau Tŷ Gwyn oddeutu 898m o'r safle gyda golygfeydd tuag ato wedi eu cuddio i ryw raddau gan y llystyfiant presennol. Ceir golygfeydd uniongyrchol i'r safle o fferm Llechedd. Mae gan yr eiddo lwybr preifat ar derfyn y caeau rhwng y tŷ a'r safle arfaethedig. Mae Cae Gors oddeutu 662m o'r tyrbîn agosaf gyda golygfeydd uniongyrchol o'r ardd. Ceir golygfeydd uniongyrchol o'r safle o Neuadd Lwyd (er bod y rheiny i ryw raddau wedi eu cuddio gan goed aeddfed) ond mae yno erddi addurniadol eang ac o'r rheiny, geir golygfeydd llawnach.

Yn Nhabl 4.9.2 yr ES, gwelir yr egwyddorion a ddefnyddiwyd i asesu arwyddocâd effeithiau gweledol Mae'n disgrifio effaith 'fawr' fel '*The development results in changes that largely affect the view, or where the base line visual context alters, such that the development is one of the principal visual elements unmistakably or easily seen*'. Caiff 'sylweddol' yn y cyd-destun hwn ei ddisgrifio fel '*substantive alterations to the amenity of the view, where the wind turbines become the dominant feature and command or control that particular view*'.

Nid oes unrhyw eiddo wedi cael eu hasesu fel rhai a gâi eu heffeithio'n sylweddol gan y cynigion ond fel y nodir uchod, ystyrir y câi'r datblygiad effaith fawr ar nifer ohonynt. Mae'r Cyngor yn anghytuno gyda'r asesiad mewn perthynas â Rhyd y Delyn Bach. Ceir golygfeydd o'r eiddo hwn ar draws y caeau amaethyddol tua'r mynyddoedd. Mae tri thyrbîn mawr wedi eu lleoli ychydig dros 700m o'r

eiddo ac sydd ag elfennau sy'n symud, yn debygol o fod yn nodwedd or-amlwg. Mae yn yr eiddo ardd fawr gyda theras a ddefnyddir fel lle bwyta yn agos at y gegin ac mae'r golygfeydd fwy tua'r de na'r gorllewin o'r fan honno.

Fodd bynnag, wrth asesu'r effeithiau o safbwynt preswyl, nid ystyrir y byddai'r cynnig yn ormesol nac yn llethol o unrhyw eiddo i'r graddau y byddai'n cyfyngu ar fwynhad cyffredinol yr eiddo ac yn eu gwneud yn annioddefol. Er y bydd gan rai eiddo olygfeydd uniongyrchol o'r datblygiad arfaethedig gyda'r rheiny'n sylweddol ac yn amlwg, nid ystyrir y byddai'r effaith gyffredinol ar fwynhad pob dydd o'r anheddau hynny a'u terfynau yn ddigonol i gyfiawnhau gwrthod caniatâd cynllunio.

Mewn llythyr dyddiedig 5 Chwefror 2013, mewn ymateb i bryder gan drydydd parti ynglŷn â'r CCA sydd bellach wedi cael eu mabwysiadu, cadarnhaodd Prif Swyddog Cynllunio LIC:

'The Welsh Government's planning policy and guidance does not specify a minimum distance between dwellings and wind turbines. It is our view that a rigid minimum separation distance could unnecessarily hinder the development of renewable energy projects in Wales. The Welsh Government opposed the Private Members' Bill 'Wind Turbines (Minimum Distances from Residential Premises) Bill introduced into the House of Lords by Lord Reay, which sought to make provision for a minimum distance between wind turbines and residential premises according to the size of the wind turbine, which has subsequently failed to make it into statute. We consider that the issue of separation distances between residential premises and wind turbines is best determined locally on a case-by-case basis, taking on board locally sensitive issues such as topography and cumulative impacts, when decisions on planning applications are taken'.

Mae Atodiad C Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi cyngor ar Fflachiadau Cysgod a Golau a Adlewyrchir. Gwelir nad yw fflachiadau cysgodion ond yn digwydd mewn adeiladau sydd hyd at 10 diamedr rotor oddi wrth dyrbin ac o fewn 130 gradd ar naill ochr ogleddol y lledredau hyn yn y DU.

Aiff Atodiad C ymlaen i nodi y gall tyrbinau hefyd achosi fflachiadau o olau adlewyrchol, a all fod yn weladwy o gryn bellter. Noda'r canllawiau y gellir lliniaru golau adlewyrchol trwy ddewis lliw llafn priodol, ac mae amod wedi cael ei argymhell ynglŷn â'r lliw er mwyn lliniaru'r effeithiau.

### **Ystyriaethau Eraill o Bwys**

Nid oes gan y Weinyddiaeth Amddiffyn unrhyw wrthwynebiadau i'r datblygiad, gydag amodau. Mae'n mynnu y bydd angen gosod goleuadau awyrennu coch gweladwy 200 candela (yn hytrach na begynau is-goch) a byddai'n hynny'n ychwanegu at yr effaith a gâi'r cynllun o safbwynt gwledol.

Mae effaith y datblygiad ar dwristiaeth yn ystyriaeth o bwys. Comisiynodd Cyngor Sir Ynys Môn ymchwil ar 'Effaith Tyrbinau Gwynt ar Dwristiaeth' a chymerwyd hynny i ystyriaeth wrth wneud yr argymhelliad isod.

O ran lechyd a Diogelwch, nid yw'r cynigion wedi eu lleoli'n agos at unrhyw ffordd neu adeiladau a chymerwyd i ystyriaeth y cyngor a roddir yn Atodiad C, paragraffau 2.19 a 2.20 CCA 8.

Ystyrir bod y gwelliannau i'r fynedfa i'r A5025 yn dderbyniol gydag amodau. Fodd bynnag, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd na ddylid penderfynu ar y cais hyd oni fyddai manylion am lwybrau danfon cydrannau ar gyfer y datblygiad wedi cael eu hasesu a chynllun rheoli traffig wedi cael ei gynhyrchu. Cyflwynodd yr ymgeisydd fanylion ychwanegol ond mae LIC wedi gofyn am eglurhad pellach. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, roedd y datblygwyr yn dweud bod y manylion hyn ar gael. Mae ymateb LIC i'r ymgynghoriad yn awgrymu ei fod o'r farn y gellir, mewn egwyddor, fynnu ar



amodau addas ond ei fod angen eglurhad ychwanegol cyn codi'r cyfarwyddyd. Rhagwelir y bydd modd cael yr eglurhad hwn mewn pryd ar gyfer cyfarfod mis Ionawr o'r Pwyllgor.

Mynegwyd pryder gan y Cyngor y byddai'r cynllun yn cael effaith ar ei wasanaethau rhwng mast Penmynydd ac Ysgol Llanddona. Yn hytrach nag ail-leoli un o'r tyrbinau, dewisodd y datblygwyr geisio lliniaru'r effeithiau. Comisiynwyd adroddiad a oedd yn awgrymu y byddai gosod gorsaf gyfnewid ar dir trydydd parti yn sicrhau'r cyswllt angenrheidiol. Codwyd pryderon ynghylch a fyddai modd cyflawni'r cynllun arfaethedig ar dir trydydd parti. Tra'r oedd y mater hwn yn cael ei drafod, cafodd ysgol Llanddona ei chau gan y Cyngor fel rhai'n o'r rhaglen foderneiddio. Mae'r Cyngor ers hynny wedi cadarnhau na fydd defnydd o'r adeilad yn y dyfodol bellach yn dibynnu ar gynnal y cyswllt TG ac o'r herwydd, mae'r gwrthwynebiad wedi'i dynnu'n ôl.

Rhoddir sylw i signal teledu yn yr ES. Bydd arolwg gwaelodlin o gryfder y signal teledu yn cael ei gynnal cyn adeiladu ac unwaith eto pan fydd y fferm wynt yn weithredol er mwyn nodi a delio gydag unrhyw effeithiau. Mae hwn yn fater y gellir ei reoli'n ddigonol gydag amodau.

## 7. Casgliad

Mae'r polisïau a restrir uchod yn rhagdybio o blaid datblygiadau ynni adnewyddadwy yn amodol ar y 10 ystyriaeth a restrir uchod. Fel y manylir yn y polisïau, mae yna ystyriaeth amgylcheddol a chymunedol eraill y mae angen eu hasesu. Rhaid sicrhau balans rhwng yr angen am ynni adnewyddadwy a'r cyfraniad y byddai'r datblygiad arfaethedig hwn yn ei wneud ynghyd ag ystyriaethau eraill o bwys. Er y byddai'r cynllun yn sicrhau lefel dda o ynni adnewyddadwy, byddai hynny ar draul cymeriad y dirwedd hon sydd o bwys lleol a chenedlaethol. Câi'r cynnig effaith ar y golygfeydd pwysig o fynyddoedd Eryri a'r AHNE a byddai'n golygu newidiadau mawr i'r dirwedd yn LCA 12 sydd, ar hyn o bryd, yn rhydd o unrhyw ddatblygiadau tyrbinau gwynt canolog a mawr. Fel y dywedwyd yn apêl Tŷ Gwyn a oedd yn ymwneud ag un tyrbîn 62m o uchder i flaen fertigol y llafn, "In introducing a defining element into such a landscape, the proposal would significantly reduce its quality as a buffer and decrease its sensitivity to further changes". Ni fyddai'r cyfraniad mwy a fyddai'n cael ei wneud gan gynllun Braint i ynni adnewyddadwy yn gwrthbwysu ei effeithiau sylweddol o safbwynt y dirwedd a mwynderau gweledol ar ardal ddymunol yn y cefn gwlad heb unrhyw 'dirnodau amlwg' - dywed yr asesiad y bydd y tyrbinau 'appear as a cohesive group and their visibility will create a focus within the landscape' (para. 4.7.26) gyda hynny'n golygu newid sylweddol i'r ardal hon sydd, ar hyn o bryd, yn 'anhynod' a heb unrhyw nodweddion amlwg a hynny'n groes i bolisïau cynllunio lleol a'r cyngor yn TAN8. Yr un modd ag apêl Tŷ Gwyn, byddai'r cynnig yn ymestyn y datblygiad tyrbinau gwynt i gyfeiriad y de i'r ardal cymeriad tirwedd fwyaf yn rhan dde-ddwyreiniol yr ynys, a hynny eto'n groes i TAN 8.

Câi'r cynllun effaith ar yr ardal o gwmpas eglwys St Gredifael ac ystyrir ei fod yn groes i bolisi a chyngor cynllunio lleol a chenedlaethol yn hyn o beth.

Mae'r effeithiau a ragwelir o safbwynt sŵn o'r cynnig yn golygu nad oes fawr o hyblygrwydd o ran unrhyw gosb y byddai'n rhaid mynnu arni i ddelio gyda sŵn tonyddol neu AM gormodol.

Wedi pwysu a mesur y polisïau cynllunio cenedlaethol sy'n cefnogi cynigion ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy yn erbyn nodweddion penodol y datblygiad arfaethedig hwn, ystyrir y câi'r cynllun effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd a hynny o ran o dirwedd ac effeithiau gweledol na fedrir eu lliniaru'n foddhaol. Mae pryderon ynghylch yr ardal o gwmpas yr adeilad rhestredig ac effeithiau sŵn yn cyfrannu at y gwrthwynebiadau i'r cynllun.

## 8. Argymhelliad

Mae'r cais yn cael ei **wrthod** am y rhesymau canlynol:

(01) Byddai maint y datblygiad arfaethedig yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y dirwedd a mwynderau gweledol ac, yn ogystal, byddai'n effeithio ar yr AHNE a thirwedd Eryri sydd o bwys cenedlaethol a chât effaith sylweddol ar gymeriad y dirwedd. Byddai hynny'n groes i'r ddarpariaeth ym mholisiau C7, D1 a D3 Cynllun Fframwaith Gwynedd, 1, 30, 31, a 45 yng Nghynllun Lleol Ynys Môn, EN1, En2, GP1 ac EP 18 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd, Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7), Nodyn Cyngor Technegol 8 a Chanllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Sir Ynys Môn ar Ynni Gwynt yn y Môr (2012).

(02) Cât'r cynnig effaith andwyol ar yr ardal o gwmpas Eglwys St Gredifael sy'n adeilad Graddfa II\* a byddai'n groes i Bolisi 22 Cynllun Fframwaith Gwynedd, Polisi 41 Cynllun Lleol Ynys Môn, Polisi EN13 y Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwd a'r cyngor sydd ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7) a Chylchlythyr 61/96 Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth.

(03) Ni fu modd dangos na fyddai'r cynnig yn cael effaith andwyol ar dderbynyddion o ran effaithiau sŵn ac o'r herwydd mae'r cynnig yn groes i bolisiau 1 a 45 Cynllun Lleol Ynys Môn, polisiau GP1, EP18 a SG7 Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd a'r cyngor sydd ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7) a Nodyn Cyngor Technegol 11.

## 9. Polisiau Eraill

### **Cynllun Fframwaith Gwynedd**

FF11 (Traffig)

D32 Cynlluniau tirlunio

### **Cynllun Lleol Ynys Môn**

32 (Tirwedd)

### **Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**

TR3 Dylunio Priffyrdd

EN14 (Gorchmynion Cadw Coed a Gwrychoedd)

EN16 (Nodweddion Tirwedd o Bwysigrwydd Mawr ar gyfer Fflora a Ffawna)

### **Nodyn Cyngor Technegol 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)**

### **Nodyn Cyngor Technegol 11 Sŵn (1997)**

### **Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 01.04.09 Materion Cludiant yn Codi o Ffermydd Gwynt**

11.1

Gweddill y Ceisiadau

Remainder Applications


Rhif y Cais: **31C134H/DEL** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Roberts Construction Ltd**

**Cais o dan Adran 73 i ddileu amodau (03), (04) a (05) (Côd Cartrefi Cynaliadwy) o ganiatad cynllunio rhif 31C134E 'cais llawn ar gyfer codi 5 annedd ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ' ar dir ger / Application under Section 73 for the removal of conditions (03), (04) and (05) (Code for Sustainable Homes) of planning permission reference 31C134E 'full application for the erection of 5 dwellings together with the construction of a vehicular access' on land adjacent to**

**Cae Cyd, Llanfairpwll**



**Pwyllgor Cynllunio: 07/01/2015**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth (SCR)**

**Argymhelliad:**

Caniatau

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r ymgeisydd yn ffrind agos i 'swyddog perthnasol' fel y'i diffinnir ym mharagraff 4.6.10.2 y Cyfansoddiad.

Mae'r cais wedi ei sgriwteiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol o dan baragraff 4.6.10.4 y Cyfansoddiad.

### **1. Y Safle a'r Bwriad**

Llecyn bychan o dir pori garw yn agos i briffordd yr A55 yw'r safle. Mae'r safle yn rhannol o amgylch annedd elwir yn Cae Cyd ac y mae'n ffryntio ychydig ar Lôn Dyfnia.

Mae hwn yn gais dan Adran 73 i gael gwared ar amodau (03),(04) a (05) o ganiatâd cynllunio 31C134E sef safonau'r 'Côd ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy'.

### **2. Mater(ion) Allweddol**

Y mater allweddol yw fod L:lywodraeth Cymru wedi cadarnhau fod Nodyn cyngor Technegol 22: Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy wedi ei dynnu'n ôl.

### **3. Brif Bolisiau**

**Nodyn Cyngor Technegol 12: Dyluniad**

**Polisi Cynllunio Cymru, 7<sup>fed</sup> Argraffiad 2014**

### **4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Aelod Lleol, y Cynghorydd A Mummery** – Dim ymateb hyd yma

**Aelod Lleol, y Cynghorydd J Evans** – Dim ymateb hyd yma

**Aelod Lleol, y Cynghorydd M Jones** – Dim ymateb hyd yma.

**Cyngor Cymuned** – Dim ymateb hyd yma.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais mewn dwy ffordd; codwyd rhybudd ger y safle ac ysgrifennwyd at ddeiliaid eiddo cyfagos. Y dyddiad diwethaf ar gyfer derbyn sylwadau oedd 5 Rhagfyr 2014 ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid oedd yr adran wedi derbyn unrhyw ymatebion.

### **5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

31C134 – Codi byngalo a garej ar dir yn Cae Cyd, Llanfairpwll – Tynnwys yn ôl 27/11/90

31C134A – Codi byngalo ar blot 1 oddi ar Lôn Dyfnia, Ffordd Penmynydd, Llanfairpwll – Gwrthodwyd 19/12/91

31C134B – Cais amlinellol ar gyfer datblygiad preswyl yn Cae Cyd, Llanfairpwll – Cymeradwywyd 06/09/07

31C134C – Cais llawn i godi tri byngalo ynghyd ag adeiladu mynedfa i gerbydau a cherddwyr ar dir ger Cae Cyd, Llanfairpwll – Cymeradwywyd 20/11/12

31C134D - Cais amlinellol gyda holl faterion wedi ei cadw yn ôl ar gyfer codi 5 annedd newydd ynghyd a chreu mynedfa newydd i cerbydau ar dir ger Cae Cyd, Llanfairpwll. Caniatau 14/05/14

31C134E – Cais llawn ar gyfer codi 5 anneddynglyd a chreu mynedfa newydd i gerbydau ar dir ger Cae Cyd, Llanfairpwll. Caniatau 07/07/14

31C134F/DIS - Cais i ryddhau amod (02) (sampl o'r brics wynebu) o ganiatâd cynllunio 31C134E ar dir ger Cae Cyd, Llanfairpwll. Wedi ri Ryddhau 11/07/14

31C134G/DIS - Cais i rhyddhau amod (04) (Tysysgrif Interim) o ganiatâd cynllunio 31C134E ar dir ger r dir ger Cae Cyd, Llanfairpwll. Wedi ri Ryddhau 11/07/14

## **6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

**Polisi** - Yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 22 - Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy, roedd raid i ddatblygiadau tai newydd gwrdd â gofynion y Côt ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy ac roedd y polisi'n nodi bod rhaid gosod amodau cynllunio i gwrdd â'r amcan hwnnw. Fodd bynnag, mewn llythyr o eglurhad dyddiedig 5 Mehefin 2014 mae Llywodraeth Cymru, trwy ei Weinidog ar gyfer Tai ac Adfywio, wedi datgan bod y polisi wedi ei dynnu'n ôl ar 31 Gorffennaf 2014 gan ddweud:

Wrth benderfynu ar geisiadau a ddaw i law ar ôl 31 Gorffennaf 2014, gan gynnwys ceisiadau o dan Adran 73 i ddileu amodau a fydd eisoes yn gysylltiedig â chaniatâd cynllunio ac a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r datblygiadau fodloni'r lefelau presennol yn y Cod Cartrefi Cynaliadwy / BREEAM, dylid gwneud hynny yn unol â'r newidiadau polisi ac yn unol ag unrhyw bolisi mewn cynllun datblygu lleol mabwysiedig a fydd, o bosibl, yn pennu safon uwch

Oherwydd bod cais dan Adran 73 mewn effaith, dylid ystyried pa amodau eraill y dylid eu cynnwys yn y caniatâd newydd. Mae'r gwaith eisoes wedi cychwyn ar y safle ac felly nid yw amserlen o 5 mlynedd ar gyfer cychwyn gwaith yn berthnasol erbyn hyn. Mae'r amod ynghylch cymeradwyo deunyddiau wedi ei ollwng dan y caniatâd gwreiddiol ac felly gosodir amod yn clymu'r manylion y cytunwyd arnynt i'r caniatâd hwn.

## **7. Casgliad**

Ystyriwyd bod codi 5 annedd ar y safle yn dderbyniol a gosodwyd amod bod raid iddynt gwrdd â'r côd ar gyfer ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy. Fodd bynnag, o gofio'r newid polisi ystyrir bod y cais i gael gwared ar yr amodau yn dderbyniol yn unol â'r cyngor a gafwyd gan Lywodraeth Cymru.

## **8. Argymhelliad**

Hefyd, rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth ychwanegu at, dileu neu newid/amrywio unrhyw amod(au) cyn rhoi'r caniatâd cynllunio, cyn belled ag na fydd y newidiadau yn effeithio ar natur neu yn mynd i galon y caniatâd/datblygiad.

## **Caniatau**

**(01) Bydd y deunyddiau allanol a ddefnyddir i'r datblygiad yn unol a'r manylion a gymeradwywyd dan rif cyfeirnod cynllunio 31C134F/DIS oni bai bod cytundeb ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr awdurdod cynllunio lleol i unrhyw newid.**

Rheswm: I osgoi unrhyw amheuaeth.

**(02) Cwblheir y datblygiad yn unol a'r cynlluniau a'r manylion a gymeradwywyd dan rif cyfeirnod cynllunio 31C134E.**

Rheswm: I osgoi unrhyw amheuaeth.

**(03) Bydd cynllun rheoli i sicrhau y bydd y ffordd fynediad a ganiateir yma yn cael ei chynnal a'i chadw yn y dyfodol yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo cyn y bydd neb yn symud i mewn i unrhyw un o'r anheddau.**

Rheswm: cydymffurfio gyda gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

**(04) Bydd cynllun ar gyfer gwella'r briffordd bresennol er mwyn sicrhau mynediad diogel i'r safle, yn y modd a ddangosir ar y cynllun 2189:14:4 yn cael ei gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ac yn cael ei weithredu yn unol â chynllun a fydd yn cael ei gymeradwyo cyn y bydd neb yn symud i mewn i unrhyw un o'r anheddau.**

Rheswm: cydymffurfio gyda gofynion yr Awdurdod Priffyrdd.

Rhif y Cais: **31C422** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mr Gareth Evans**

**Cais llawn am addasu ag ehangu gan gynnwys codi uchder y tô i greu llawr cyntaf yn / Full application for alterations and extensions including the raising of the roof to form a first floor at**

**Ceris, Llanfairpwll**



**Pwyllgor Cynllunio: 07/01/2015**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio(OWH)**

**Argymhelliad:**

Caniatáu

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r ymgeisydd yn perthyn i swyddog perthnasol fel a nodir yn y cyfansoddiad.

Mae'r cais wedi cael ei sgrwtineiddio gan y Swyddog Monitro fel sy'n ofynnol dan baragraff 4.6.10.4 yn y cyfansoddiad.

### **1. Y Safle a'r Bwriad**

Mae'r safle wedi'i leoli ym mhen gogleddol Ffordd Penmynydd, yn ymyl y gornel sy'n arwain at Lôn Refail ym mhentref Llanfairpwll.

Mae'r cynnig yn un i wneud gwaith altro ac ymestyn a chodi lefel y to i ffurfio llawr cyntaf yn Ceris.

### **2. Mater(ion) Allweddol**

Y mater allweddol yw a ydyw lleoliad a dyluniad yr estyniad yn dderbyniol a'i effaith ar fwynderau.

### **3. Prif Bolisïau**

#### **Cynllun Lleol Ynys Môn**

Polisi 1 – Polisi Cyffredinol

Polisi 5 - Dyluniad

Polisi 42 - Dyluniad

#### **Cynllun Fframwaith Gwynedd**

Polisi D4 – Lleoliad, Safle a Dylunio

Polisi D29 – Dyluniad

#### **Cynllun Datblygu Unedol a Stopiwyd**

Polisi GP1 – Cyfarwyddyd Rheoli Cyffredinol

Polisi GP2 – Dyluniad

Polisi HP 7a - Estyniad

#### **Polisi Cynllunio Cymru (7fed Argraffiad), Gorffennaf 2014**

#### **Nodyn Technegol Cymru 12 – Dyluniad**

### **4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Aelod Lleol Alun Mummery** - Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad

**Aelod Lleol Jim Evans** - Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad



**Aelod Lleol Meirion Jones** - Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad

**Cyngor Tref** – Dim ymateb ar adeg ysgrifennu'r adroddiad

**Ymgynghoriad Cyhoeddus** – Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r cais mewn dwy ffordd. Rhoddwyd rhybudd ger y safle ac anfonwyd llythyrau personol at berchenogion eiddo cyfagos. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn sylwadau oedd 05/01/2015. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd unrhyw lythyrau wedi dod i law.

## **5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

Dim hanes yn y safle

## **6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

Bydd y bwriad i ymestyn yr adeilad drwy godi lefel crib y to yn llunio llawr cyntaf. Mae'r annedd gyfredol yn fyngalo dormer. Bydd crib y to'n cael ei godi gan 5.7 metr i 7.8 metr, cynnydd o 2.1 metr. Bydd y garej gyfredol yn cael ei throï'n ystafell storio ac ystafell amlbwrpas. Bydd digon o lefydd parcio yn yr ardd ffrynt. Trwy godi lefel y to, bydd cynllun y llawer cyntaf yn cael ei newid o fod yn ddwy ystafell wely o faint cymedrol yn un ystafell wely meistr a 2 ystafell wely arall.

Mae stad Lôn y Wennol y tu cefn i'r annedd. Byngalos dormer yw'r anheddau hyn hefyd, fodd bynnag, mae'r byngalos hyn yn uwch na Ceris oherwydd bod y lefel dopograffaid yn uwch ar Stad Lôn y Wennol na Ffordd Penmynydd.

Nid yw edrych drosodd yn broblem o ran y cais oherwydd mae yn yr ardd gefn goed sy'n ffurfio sgrin rhwng Lôn y Wennol a Ceris. Mae ffenestr eisoes yn y drychiad cefn ac ni fydd y ffenestri ychwanegol a gynigir yn cael effaith andwyol. Ni fydd unrhyw ffenestri newydd yn cael eu gosod ar y drychiadau ochr, dim ond ffenestri yn y tro. Mae ffrynt yr annedd yn wynebu Ffordd Penmynydd.

Er bod y deunyddiau y bwriedir eu defnyddio yn wahanol i anheddau eraill yn y cyffiniau (pren), nid ystyrir y byddai'r deunyddiau hynny yn cael effaith andwyol ar fwynderau eiddo cyfagos i'r graddau y byddai hynny'n cyfiawnhau gwrthod y cais oherwydd mae cymysgedd o ddeunyddiau ar hyd y ffordd hon yn amrywio o rendr gwyn, rendr cerrig mân, brics coch i hen gerrig.

Nid ystyrir y byddai'r cynllun arfaethedig yn cael effaith ar fwynderau'r ardal neu ar unrhyw eiddo cyfagos i'r graddau y byddai hynny'n cyfiawnhau gwrthod y cais.

## **7. Casgliad**

Ystyrir bod y datblygiad arfaethedig yn dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. O'r herwydd, rwyf o'r farn y dylid caniatáu'r cais hwn gydag amodau.

## **8. Argymhelliad**

**Caniatáu**

**(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn â fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn.**

Rheswm: Cydymffurfio gyda gofynion Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

This page is intentionally left blank

12.1

Gweddill y Ceisiadau

Remainder Applications


Rhif y Cais: **24C59H/RE** Application Number

Ymgeisydd Applicant

**Mr Chris Tanner**

**Cais llawn ar gyfer codi un twrbîn wynt 5Kw gyda uchder hwb hyd at uchafswm o 15m, diamedr rotor hyd at uchafswm o 5.6m a uchder blaen unionsyth hyd at uchafswm o 17.8m ar dir yn / Full application for the erection of one 5Kw wind turbine with a maximum hub height of up to 15m, rotor diameter of up to 5.6m and a maximum upright vertical tip height of up to 17.8m on land at**

**Pen Y Gogarth, Llaneilian**



**Pwyllgor Cynllunio: 07/01/2015**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth Cynllunio (MTD)**

**Argymhelliad:**

Gwrthod

**Rheswm dros Adrodd i'r Pwyllgor:**

Mae'r cais yn cael ei adrodd i'r pwyllgor oherwydd penderfynwyd na fydd pwerau dirprwyedig yn cael eu defnyddio mewn cysylltiad â datblygiadau tyrbinau gwynt.

### **1. Y Safle a'r Bwriad**

Bwriedir codi un tyrbîn gwynt gydag uchder hwb o 15m, rotor gyda thryfesur o 5.6m ac a fyddai'n mesur 17.8m o uchder at bwynt uchaf y llafn.

Bydd y tyrbîn yng nghwrtil annedd yr ymgeisydd a bydd oddeutu 40m o'r AHNE.

### **2. Mater(ion) Allweddol**

- Egwyddor y datblygiad
- Tirwedd ac Effaith Weledol
- Amwynder Preswyl.

### **3. Prif Bolisiau**

#### **Cynllun Fframwaith Gwynedd**

C7 Ynni Adnewyddadwy  
D3 Ardal Gadwraeth Tirwedd  
D10 Gwarchod Treftadaeth Naturiol

#### **Cynllun Lleol Ynys Môn**

31 Tirwedd  
45 Ynni Adnewyddadwy

#### **Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**

EP 18 Ynni Adnewyddadwy  
EN1 Cymeriad y Dirwedd

#### **Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 7 (Tachwedd 2014)**

**Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (Gorffennaf 2010).**

#### **Nodyn Cyngor Technegol 8 Ynni Adnewyddadwy (2005)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel - Llawlyfr i Gynllunwyr', Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010)**

**Cyfarwyddyd Ymarfer Goblygiadau Cynllunio Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (Chwefror**

2011)

**Canllawiau Cynllunio Atodol Datblygiadau Ynni Gwynt ar y Tir (Ionawr 2013).**

#### **4. Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r Cyhoeddusrwydd**

**Aelodau Lleol** – Dim sylwadau

**Cyngor Cymuned** - gwrthwynebu oherwydd lleoliad a phellter oddi wrth anheddau eraill

**Draenio** – Sylwadau

**Gwasanaethau Amgylcheddol** - Dim gwrthwynebiad/amodau

**Ymgynghorydd Amgylcheddol** – Dim gwrthwynebiad

**Y Weinyddiaeth Amddiffyn** – Dim gwrthwynebiad

**Cyfoeth Naturiol Cymru** - Dim gwrthwynebiad

**GAPS** Dim gwrthwynebiad

**Swyddog AHNE:** yn gwrthwynebu ar y sail y byddai llafnau sy'n troi'n sydyn yn tynnu oddi wrth gymeriad yr AHNE

Derbyniwyd 6 llythyr ac mae'r pwyntiau ynddynt yn cynnwys;

Sut byddai o fudd i'r amgylchedd a'r economi fel yr awgrymwyd?

Mae hwn yn dir uchel yn agos i'r AHNE ac nid yw'n cydweddu

Bydd yn achosi problemau sŵn

Bydd yn andwyol i fywyd gwylt

Pryderon ynghylch niwed i ddiddordebau hanesyddol yr ardal

Gall niweidio twristiaeth

#### **5. Hanes Cynllunio Perthnasol**

24C59E/SCR barn sgrinio. Dim angen EIA 07/06/11

#### **6. Prif Ystyriaethau Cynllunio**

##### **Egwyddor datblygu**

Noda Polisi C7 Cynllun Fframwaith Gwynedd:

“Bydd rhagdybiaeth o blaid prosiectau gydag ynni y gellir ei adnewyddu, ar yr amod fod yr effaith ar yr ardal yn dderbyniol i'r awdurdod cynllunio lleol. Lle bo hynny'n briodol, dylid cefnogi'r cynigion gan asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd.”

Noda Polisi 45 Cynllun Lleol Ynys Môn:

“Bydd caniatâd yn cael ei roddi i brosiectau ynni adnewyddol pan fo modd dangos yn glir na chânt effaith annerbyniol ar :- i. Gymeriad y dirwedd. ii. Safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol neu leol o safbwynt diogelu natur.

iii. Rhywogaethau pwysig o safbwynt diogelu natur.

- iv. Safleoedd a henebion hanesyddol o bwys.
- v. Safon y pleserau y mae preswylwyr ac ymwelwyr yn eu mwynhau.
- vi. Sustemau cysylltu hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol.

Noda Polisi 8B- Datblygiadau Ynni Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd:

“Caniateir ceisiadau ar gyfer datblygu adnoddau ynni adnewyddadwy ac adnewyddadwy lle y gellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd. Rhoddir y flaenoriaeth i ddatblygu ffynonellau ynni glân ac adnewyddadwy, ond gellir caniatáu cynigion ar gyfer prosiectau ynni anadnewyddadwy os byddant yn hyrwyddo manteisio i'r eithaf ar effeithlonrwydd ynni yn eu cynllun.”

Mae Polisi EP18 (Ynni Adnewyddadwy) o Gynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd yn datgan bydd prosiectau ynni adnewyddadwy yn cael eu caniatáu lle gellir yn glir gellir dangos na fydd unrhyw effaith andwyol sylweddol ar y meini prawf a restrir.

### **Effaith ar y Dirwedd ac Effaith Weledol**

Aseswyd yr agwedd hon ac er bod mast Nebo yn agos ystyrir y byddai'r cynnig yn andwyol i'r golygfeydd o Fynydd Llaneilian. Yn ogystal oherwydd ei faint bychan a'r ffaith y bydd y llafnau yn troi'n sydyn byddai hynny'n fwy amlwg yn y dirwedd gan ychwanegu at yr annibendod gweledol. Byddai'n andwyol i gymeriad ac amgylchedd yr AHNE

### **Mwynderau Preswyl**

Er mai tyrbîn bychan yw hwn nid yw'r annedd agosaf ond 45m i ffwrdd ac mae'r agosaf wedyn yn 85m i ffwrdd. Er bod y tyrbîn yn un bychan ystyrir oherwydd ei fod mor agos i anheddau y byddai'n andwyol i fwynderau'r deiliaid oherwydd y byddai'n cael effaith ar eu golygfa ac yn eu dominyddu.

## **7. Casgliad**

Ystyrir y byddai'r cynnig yn niweidiol i fwynderau gweledol a thrigiannol.

## **8. Argymhelliad**

### **Gwrthod**

(01) Byddai'r cynnig, oherwydd ei faint, math a lleoliad yn niweidiol i gymeriad Mynydd Eilian a'r golygfeydd ohono ac i'r dirwedd yn gyffredinol mewn ardal sydd yn ymyl yr AHNE.

(02) Byddai'r cynnig, oherwydd ei leoliad, maint, a math a hynny mor agos at eiddo preswyl yn cael effaith andwyol ar y mwynderau y mae deiliaid yr eiddo hynny yn eu mwynhau ar hyn o bryd.

## **9. Polisiâu Perthnasol Eraill**

### **Cynllun Fframwaith Gwynedd**

FF11 (Traffig)

### **Cynllun Lleol Ynys Môn**

1 (Polisi Cyffredinol)

35 (Diogelu Natur)

### **Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn a Stopiwyd**

GP1 (Cyfarwyddyd Rheoli Datblygu)

EN4 (Bioamrywiaeth)

**Nodyn Cyngor Technegol 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009)**

**Nodyn Cyngor Technegol 11 Sŵn (1997)**

This page is intentionally left blank



13.1

Materion Eraill

Other Matters

Rhif y Cais: 12LPA1003B/CC/MIN Application Number

Ymgeisydd Applicant

Head of Service Environment & Technical

Mân newidiadau i gynllun sydd wedi ei ganiatáu yn flaenorol o dan caniatád cynllunio 12LPA1003/FR/CC yn / Minor amendments to scheme previously approved under planning permission 12LPA1003/FR/CC at

Townsend Bridge-Gallows Point, Beaumaris



**Pwyllgor Cynllunio: 07/01/2015**

**Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaeth (GJ)**

Gwnaed newid bychan i'r cais ar gyfer gwaith lliniaru llifogydd ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Cynllunio ar 1af Medi 2014. Y newidiadau a gynigiwyd oedd tynnu a chael gwared ar ran uchaf y wal fôr gyfredol i oddeutu 400mm yn is na lefel y llwybr cyfredol. Codi rhan concriid oddeutu 1400mm o uchder yn lle'r wal gyfredol i uchder 6.0m AOD. Cladio'r ochr o'r wal sy'n wynebu'r tir gyda gwaith bloc carreg i gyd-fynd â'r rhannau eraill. Ailddefnyddio'r cerrig o'r wal gyfredol i ailadeiladu/cynyddu drychiad rhannau eraill, yn unol â'r cais gwreiddiol.

Ystyriwyd na fyddai'r newidiadau a gynigiwyd yn rhai o bwys cynllunio ac y dylid eu cymeradwyo felly dan Adran 96A Deddf CynllunioGwlad a Thref 1990.

Adroddir ar y mater er gwybodaeth yn unig.